

Adolygiad Annibynnol
o Drefniadau Cyllido
Addysg Uwch a
Chyllid Myfyrwyr
yng Nghymru

Adroddiad terfynol

Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru

Adroddiad terfynol

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno adroddiad terfynol yr Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Y Tîm Adolygu Addysg Uwch
Yr Is-adran Addysg Uwch
Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg a Dysgu Gydol Oes
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: HEReview@wales.gsi.gov.uk

Dogfennau cysylltiedig

Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad interim (2015)

Cynnwys

Rhagair	5
Crynodeb gweithredol	7
1. Diben yr adroddiad	13
2. Cylch gwaith a blaenoriaethau	14
3. Dull gweithredu	15
4. Egwyddorion arweiniol	16
5. Buddsoddiad cyhoeddus	18
6. Y cyd-destun ehangach	20
7. Themâu a negeseuon sy'n dod i'r amlwg yn sgil y sylfaen dystiolaeth	30
8. Gwaelodlin cymorth myfyrwyr	36
9. Y system arfaethedig – argymhellion y Panel Adolygu	39
10. Arfarniad	71
Atodiad A Cylch Gorchwyl y Panel Adolygu (diweddarwyd Mawrth 2016)	72
Atodiad B Aelodaeth y Panel Adolygu (diweddarwyd Mawrth 2016)	75
Atodiad C Crynodeb o'r argymhellion ariannol	77
Atodiad D Gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid	83

Ffigurau a thablau

Ffigur 1	Myfyrwyr wedi ymrestru yn SAU Cymru (gan gynnwys y Brifysgol Agored), yn ôl blwyddyn academaidd	23
Tabl 1	Myfyrwyr wedi ymrestru yn SAU Cymru 2014/15	23
Ffigur 2	Llifau trawsffiniol rhwng Cymru a gweddill y DU, yn ôl blwyddyn academaidd	24
Tabl 2	Cymorth i fyfyrwyr llawr amser a ddyfarnwyd neu a dalwyd*, yn ôl blwyddyn academaidd	25
Tabl 3	Cymorth i fyfyrwyr rhan-amser a ddyfarnwyd, yn ôl blwyddyn academaidd	26
Tabl 4	Dosbarthiad y Grant Ffioedd Dysgu a ddyfarnwyd i ymgeiswyr sy'n hanu o Gymru a'r UE, yn ôl blwyddyn academaidd	27
Tabl 5	Incwm ffioedd dysgu i SAU Cymru gan fyfyrwyr gweddill y DU, yn ôl blwyddyn academaidd	27
Ffigur 3	Gwaelodlin cymorth blynyddol i fyfyrwyr llawn amser, fesul incwm yr aelwyd	36
Ffigur 4	Gwaelodlin cymorth blynyddol i fyfyrwyr rhan-amser, fesul incwm yr aelwyd	38
Ffigur 5	Cymorth a argymhellir i fyfyrwyr llawn amser, fesul incwm aelwyd	41
Ffigur 6	Uchafswm y benthyciad sydd ar gael i fyfyrwr, blwyddyn academaidd 2016/17	44
Ffigur 7	Cymorth a argymhellir i fyfyrwyr rhan-amser, fesul incwm aelwyd	46
Tabl 6	Costau cyllido'r cymorth gwaelodlin a'r cymorth a argymhellir i fyfyrwyr	52
Ffigur 8	Cyllid ymchwil o ansawdd wedi'i normaleiddio yn ôl nifer yr ymchwilwyr	60
Tabl 7	Crynodeb o gost pob argymhelliad	69

Rhagair



Ar adeg o gyntaf mae'n hawdd i gymdeithas ganolbwyntio'n unig ar yr heriau sy'n ein wynebu ni heddiw ac anghofio ei bod hi'n hanfodol parhau i fuddsoddi yn y gwaith o addysgu cenedlaethau'r dyfodol a fydd yn arwain economi a chymdeithas y dyfodol. Yn yr unfed ganrif ar hugain mae hyn yn gofyn am system addysg sy'n lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y cyfoethog a'r tlawd ac sy'n galluogi llwybrau i sgiliau lefel uwch sy'n hanfodol ar gyfer y math o genedl y mae Cymru am fod. Mae angen cydgysylltu a threfnu'r system hon mewn ffordd sy'n galluogi pawb i gymryd rhan, i ddefnyddio eu talent ac i deimlo'n frwdfrydig ynglŷn â chyflawni eu potensial, gan fod o fudd i bawb yng Nghymru a bod yn ymwybodol o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bob amser. Mae angen i'r system gael ei

hariannu hefyd fel y gall fod yn effeithiol ac effeithlon.

Er bod yna gytundeb cyffredinol y dylai addysg hyd at 18 oed gael ei hariannu'n llawn gan y wladwriaeth, cafwyd mwy o ddadl ynghylch addysg uwch. Rydym wedi bod yn dadlau bod gwledydd sy'n buddsoddi mewn addysg uwch yn elwa ar y sgiliau uchel mae graddedigion yn eu cyfrannu i'r economi, ar ymchwil sy'n effeithio ar dwf economaidd a lles dinasyddion, ac ar gyfraniad prifysgolion sy'n cyfoethogi diwylliant a chymdeithas sifil ymhellach. Mae addysg uwch hefyd yn trawsnewid bywydau ac yn gallu cyfrannu'n sylweddol at leihau anghydraddoldeb drwy fod yn sbardun sylweddol i ysgogi symudedd cymdeithasol. Yn ogystal â darparu manteision unigol hirdymor clir i'r rhai sy'n cymryd rhan, mae addysg uwch o fudd i'r cyhoedd hefyd; mae'n sicrhau manteision i gymdeithas gyfan.

Mae'r manteision uniongyrchol i unigolion yn rhai economaidd, o ran enillion oes uwch a'r gallu i symud o un swydd i'r llall, ac yn rhai cymdeithasol. Felly, dylai cyllido addysg uwch fod yn bartneriaeth rhwng cymdeithas yn ehangach a'r unigolyn. Yn wahanol i Loegr, lle bydd cymorth cynhaliadaeth i fyfyrwyr yn seiliedig ar fenthyciadau, rydym yn cynnig elfen o gymorth cynhaliadaeth cyffredinol sylweddol i fyfyrwyr llawn amser. Mae hyn yn gyson ag egwyddor cyffredinoliaeth gynyddol sydd wedi bod yn egwyddor bwysig wrth wneud polisiau yng Nghymru ers datganoli. Os caiff ein cynigion eu gweithredu, bydd myfyrwyr o Gymru'n wynebu tipyn llai o ddyled wrth adael prifysgol na myfyrwyr sy'n huanu o Loegr.

Mae'r Panel yn gweithio ar hen egwyddor Robbins y dylai myfyrwyr gael eu derbyn i addysg uwch ar sail gallu yn unig, nid ar sail eu gallu i dalu am yr addysg honno. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhai dysgwyr, am sawl rheswm, yn dewis mynd i addysg uwch, boed yn llawn amser neu ran-amser, ar ôl cyfnod mewn addysg bellach neu rai blynyddoedd ar ôl gadael addysg orfodol ac rydym yn dathlu hyn. Ymhellach, yn yr unfed ganrif ar hugain, wrth i gymdeithasau seiliedig ar wybodaeth chwilio am weithwyr sydd â sgiliau gwell nag erioed, mae'r un mor bwysig mai dyhead a gallu yw'r unig ofynion ar gyfer derbyn myfyrwyr i addysg ôl-raddedig. Ni ddylid cael nenfwd gwydr uwchben addysg uwch israddedig.

Rydym wedi ystyried yn ddwys a ddylid ariannu myfyrwyr o Gymru i astudio y tu allan i Gymru ac wedi dod i'r casgliad bod galluogi myfyrwyr i astudio ar draws ffiniau cenedlaethol yn cynnwys yn Ewrop, ac ymhellach o bosibl, o fudd i fyfyrwyr ac, yn wir, i Gymru. Ond rydym hefyd yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gymhell myfyrwyr, yn y tymor canolog, i ddod â'u sgiliau i weithio er lles Cymru.

I lawer o fyfyrwyr, mae astudiaeth addysg uwch ar sail ran-amser yn ddewis cadarnhaol sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau ac unwaith eto, credwn y dylid annog myfyrwyr o'r fath, yn enwedig gan fod bywydau gweithio hirach, newidiadau technolegol, galw am sgiliau gwell nag erioed a phatrymau gyrfa newidiol i unigolion wedi dod yn bethau arferol. Dylid cael partneriaeth driphlyg rhwng darparwyr addysg uwch a ddylai ddarparu addysg uwch ran-amser mewn ffordd sy'n galluogi myfyrwyr i 'ddysgu wrth ennill'; y wladwriaeth, a ddylai ddarparu system sy'n cymhell astudiaeth ran-amser; a'r myfyriwr.

Wrth ddod â'r egwyddorion hyn ynghyd, rydym yn argymhell system syml, flaengar sy'n ceisio rhoi'r cyfle i'r myfyriwr reoli ei sefyllfa ariannol a manteisio'n llawn ar addysg prifysgol; rydym hefyd yn cynnig dull cyllido sy'n rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r dysgwr fel y gall symud drwy'r system Gymreig drwy'r dull astudio o'i ddewis, a gwneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg os yw'n dymuno gwneud hynny.

Nid addysg ar lefel prifysgol yn unig sy'n ganolog i system addysg uwch ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a fydd o fudd i Gymru, ond ymchwil hefyd: ymchwil o'r radd flaenaf, creu gwybodaeth newydd, dyfnhau dealltwriaeth pobl a, lle bo'n briodol, dylanwadu ar dwf economaidd, iechyd a lles, a chydlyniant cymdeithasol. Credwn yn gryf yn y model o addysg uwch lle mae addysgu'n seiliedig ar yr ymchwil a'r ysgolheictod diweddaraf a hefyd yn y system gymorth ddeuol o gyllido ymchwil sydd wedi gweithio mor dda yng ngwledydd y Deyrnas Unedig. Rydym, felly, yn argymhell strategaethau cyllido sy'n cefnogi ymchwil, yn annog cenhedlaeth newydd o ymchwilwyr i hyfforddi yng Nghymru, ac sy'n darparu cymaint o gyfleoedd â phosibl i gyfnewid gwybodaeth fasnachol ac ymchwil gymdeithasol.

Roeddem wedi cytuno ar ein dadansoddiad a'n hargymhellion cyn canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar 23 Mehefin 2016. Ni wyddom eto sut fydd canlyniad y refferendwm yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru. Rydym yn nodi safbwynt Prif Weinidog Cymru na ddylai Cymru fod o dan anfantais yn ariannol o ganlyniad i dynnu allan o'r Undeb Ewropeaidd.

Rydym yn falch o gynnig y pecyn hwn o argymhellion ar gyfer cyllido addysg uwch yn y dyfodol i Lywodraeth Cymru. Mae'r pecyn yn cynnwys elfennau sy'n plethu i'w gilydd a dylid ei ystyried yn ei gyfanrwydd; mae angen ei weithredu i gyd felly. Mae'n seiliedig ar ein gwerthoedd craidd sef y gall yr addysg, yr ymchwil a'r cyfnewid gwybodaeth sy'n digwydd mewn addysg uwch weddnewid Cymru a darparu cyfleoedd di-ri i bawb sy'n gallu elwa ar hynny.

Yr Athro Syr Ian Diamond

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno argymhellion terfynol yr Adolygiad o Gyllido Addysg Uwch yng Nghymru a gafodd ei sefydlu gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd yn Chwefror 2014. Cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd Gylch Gorchwyl a gofynnodd i'r Panel sicrhau'n benodol bod yr adroddiad yn mynd i'r afael â'r meysydd canlynol: ehangu mynediad; cefnogi anghenion sgiliau Cymru; cryfhau darpariaeth ran-amser ac ôl-radd yng Nghymru; a chynaliadwyedd ariannol hirdymor. Mae'r Panel Adolygu yn argymhell pecyn wedi'i gostio o argymhellion ar gyfer cyllido addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r pecyn o argymhellion yn cynnwys elfennau sy'n plethu gyda'i gilydd y dylid cael eu gweld yn eu cyfanrwydd ac sy'n gofyn i Lywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), prifysgolion, a rhanddeiliaid eraill weithredu yn eu cylch.

Israddedigion llawn amser a rhan-amser

2. Wrth galon yr argymhellion hyn mae ail-weithio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr er mwyn symud tuag at system syml sy'n cydnabod costau cyfannol astudio addysg uwch (AU) i fyfyrwyr, sef ffioedd a chynhaliaeth. Mae'r argymhellion yn ymateb i sylwadau cyson gan fyfyrwyr mai cymorth cynhaliaeth sy'n rhoi'r hyblygrwydd iddynt ofalu am eu harian ac, i rai myfyrwyr, goresgyn yr heriau ariannol gwirioneddol sy'n gysylltiedig â chyfnod o astudio addysg uwch.
3. Yn wahanol i'r system yn Lloegr, lle mae cymorth cynhaliaeth yn seiliedig ar fenthyciadau, rydym ni'n cynnig system sy'n gyson ag egwyddor cyffredinoldeb gynyddol sydd wedi llywio gwaith llunio polisiau yng Nghymru ers datganoli. Adlewyrchir yr egwyddor hon yn y cynnig i roi Grant Cynhaliaeth £1,000 nad yw'n amodol ar brawf modd i bob myfyriwr israddedig llawn amser sy'n hanu o Gymru, ynghyd â Grant Cynhaliaeth ar sail incwm, sydd ar ei lefel uchaf yn talu holl gostau byw yn ystod y tymor myfyrwyr cymwys o'r aelwydydd incwm isaf. Yn ogystal, byddai benthyciadau i lefel y grant uchaf ar gael i'r sawl nad ydynt yn gymwys i gael y grant uchaf.
4. Mae'r Panel Adolygu'n argymhell bod cymorth cynhaliaeth drwy gymysgedd o grantiau a benthyciadau yn cael ei ddarparu i dalu holl gostau byw myfyrwyr israddedig llawn amser a bod myfyrwyr israddedig rhan-amser yn derbyn cymorth sy'n sicrhau cymorth mwy cyfartal ar draws y ddau ddull astudio. O ystyried y cyd-destun o galedi a chyni cyllidol yn y DU, dim ond drwy ryddhau cyllid sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu Grantiau Ffioedd Dysgu i israddedigion llawn amser y gellir cyflawni'r gwelliannau i'r pecyn cymorth i fyfyrwyr sydd wedi'u hargymhell.
5. Mae canolbwynt y cymorth ar gyfer israddedigion i'r sawl sy'n astudio'n llawn amser felly'n symud o'r Grant Ffioedd Dysgu tuag at well trefniadau cymorth cynhaliaeth ar gyfer pob myfyriwr israddedig llawn amser a rhan-amser, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn talu costau llawn cynhaliaeth i'r rhai â'r angen mwyaf, gyda benthyciadau yn dibynnu ar incwm i dalu ffioedd dysgu. Bydd hyn yn cefnogi ehangu mynediad a chadw myfyrwyr o bob cefndir, gan gynnwys y

rhai o gefndiroedd tlotach, teuluoedd incwm canolig sy'n cael eu gwasgu, a'r rhai sydd un ai wedi ymddieithrio oddi wrth eu rhieni neu y mae eu rhieni'n dewis peidio â chyfrannu at eu haddysg uwch.

6. Mae'r Panel Adolygu'n credu y dylai ffioedd dysgu gael eu talu drwy system benthyciadau a gefnogir gan y cyhoedd gydag ad-daliadau ond yn cael eu gwneud ar ôl graddio ac yn dibynnu ar lefel enillion (ac yn is na chyfradd llog y farchnad). I'r pynciau hynny lle mae'r costau addysgu yn fwy na £9,000, argymhellir bod prifysgolion Cymru yn derbyn digon o incwm oddi wrth CCAUC i gefnogi'r gost o addysgu'r pynciau drud hyn ac y dylai'r benthyciad ffioedd dysgu dalu lefelau'r ffioedd presennol sydd ar eu huchaf yn £9,000 a dylai hyn fod yn berthnasol i bob pwnc.
7. Mae'r Panel Adolygu'n argymhell y dylai'r system gyllido gyfannol a ddisgrifir uchod fod ar gael ar gyfer astudio yng Nghymru, ar draws y DU, ac ar draws Ewrop (yn amodol yn yr achos olaf i unrhyw oblygiadau yn sgil canlyniad y refferendwm diweddar ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd).
8. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynlluniau, yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, i ganiatáu i ffioedd dysgu ym mhrifysgolion yn Lloegr gynyddu'n uwch na'r lefel bresennol o £9,000, yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysgu. Credwn y dylai Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael i israddedigion llawn amser o Gymru sy'n astudio yn Lloegr gynyddu i barhau i dalu costau dysgu, os yw ffioedd yn cynyddu o 2017/18. Dylai'r un trefniadau fod yn berthnasol i israddedigion llawn amser o Gymru sy'n astudio yng Nghymru, yn amodol ar unrhyw drefniadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru a CCAUC ynglŷn â ffioedd dros £9,000 mewn sefydliadau yng Nghymru.
9. Mae'r Panel yn credu'n gryf ym mhwsigrwydd ysgogi myfyrwyr i ddod â'u sgiliau, neu eu cadw, er budd Cymru. Er hyn, roedd yna gydnabyddiaeth o gymhlethdodau gweinyddol a chyfreithiol cynllunio a gweithredu dileu benthyciadau'n rhannol ac felly mae'r Panel yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y cymhlethdodau hyn ac yn cyflwyno cynigion i ysgogi myfyrwyr i weithio yng Nghymru yn y tymor canolig.
10. Mae astudiaeth addysg uwch ran-amser yn ddewis cadarnhaol sy'n gweddu orau i amgylchiadau llawer o fyfyrwyr. Mae'r Panel Adolygu'n credu y dylid annog y llwybr hwn at addysg uwch, i raddau oherwydd bod bywyd gweithio'n hirach, bod galw am sgiliau uwch nag erioed a bod patrymau gyrfa newidiol i unigolion wedi dod yn bethau arferol. Mae'r Panel Adolygu'n cydnabod agweddau cadarnhaol y system gyllido ran-amser bresennol yng Nghymru ar gyfer astudio'n rhan-amser a'i nod yw adeiladu arnynt. Er mwyn hybu'r niferoedd sy'n astudio'n rhan-amser mewn ffordd sy'n annog ehangu mynediad, mae'r Panel Adolygu'n argymhell y canlynol:
 - Dylai cymorth tuag at gostau byw ar gyfer myfyrwyr rhan-amser fod ar gael. Dylai cymorth cynhaliaeth tebyg i'r hyn a argymhellir ar gyfer myfyrwyr israddedig llawn amser ddisodli'r Grant Cwrs ar sail prawf modd cymharol fach sydd ar gael ar hyn o bryd.

- Gan adlewyrchu'r dystiolaeth_glir bod galw myfyrwyr am ddarpariaeth ran-amser yn ddibynnol ar y gost, bydd ffioedd dysgu myfyrwyr israddedig rhan-amser yn y rhan fwyaf o achosion yn parhau i gael eu codi ar lefel fwy cymedrol er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr yn cefnu ar astudio'n rhan-amser oherwydd costau ffioedd afresymol.
- Dylai benthyciad ffioedd barhau i fod ar gael i'r rhai sy'n astudio'n rhan-amser.
- Dylai'r ffi fwy cymedrol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser gael ei hategu gan grantiau dysgu ac addysgu sefydliadol ar gyfer prifysgolion a darparwyr addysg uwch, yn seiliedig ar y ffaith fod benthyciadau ffioedd i'r myfyrwyr hyn yn costio llai i bwrs y wlad yn gyffredinol gan fod y rhan fwyaf eisoes yn gweithio.
- Dylai prifysgolion a darparwyr addysg uwch dderbyn taliadau atodol pro-rata ar gyfer pynciau cost uchel i fyfyrwyr rhan-amser, fel y byddent o dan gynigion ar gyfer myfyrwyr llawn amser.
- Ni ddylai'r system gyllido gyffredinol ar gyfer myfyrwyr rhan-amser gael ei chyfyngu gan drothwyon credyd neu astudiaethau blaenorol.

Astudiaethau ôl-radd ac ymchwil

11. Mae cymdeithasau seiliedig ar wybodaeth angen gweithwyr addysgedig ac mae'n bwysig bod mynediad i addysg ôl-radd wedi'i seilio ar uchelgais a gallu yn unig, fel yn achos addysg israddedig. Er mwyn cael gwared â'r rhwystr ariannol i raglenni addysg ôl-radd a addysgir ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a darparu buddsoddiad cydradd ar draws y gwahanol elfennau o addysg uwch, mae'r Panel Adolygu'n argymhell bod myfyrwyr graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir yn derbyn yr un lefel o gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu â myfyrwyr israddedig. Mae'r Panel Adolygu hefyd yn argymhell y dylai asesu am gymorth ar gyfer rhaglenni ôl-radd gael ei wneud ar ddechrau'r rhaglen.
12. Er mwyn datblygu carfan newydd o ymchwilwyr yng Nghymru, mae'r Panel Adolygu'n argymhell bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi rhaglenni ar gyfer ymchwilwyr ôl-radd. Cynigiwn ysgoloriaethau hyd at dair blynedd o hyd ar gyfer 150 o fyfyrwyr ymchwil bob blwyddyn, am dair blynedd yn gyntaf. Dylai'r ysgoloriaethau hyn, ar gyfer ffioedd a chynhaliaeth, gael eu hariannu mewn partneriaeth driphlyg hafal rhwng Llywodraeth Cymru, y brifysgol y mae'r myfyriwr ymchwil yn ei mynychu, a chyllidwr arall, un ai o'r sector preifat, cyhoeddus neu'r trydydd sector. Felly, dylai'r ysgoloriaeth fod am ddim i'r myfyriwr unigol a byddai'n ychwanegol at gyllid presennol CCAUC ar gyfer ymchwil ôl-radd.

Myfyrwyr â heriau ac anghenion penodol

13. Mae ein cynigion hyd yn hyn yn cydnabod yr heriau y mae llawer o bobl yn ei hwynebu wrth wneud cwrs addysg uwch yn llwyddiannus. Credwn fod yr heriau i dri grŵp o bobl wedi eu lluosio oherwydd eu cefndir neu eu hamgylchiadau, ac i'r bobl hyn, rydym yn cynnig cymorth ychwanegol fel eu bod nhw, a Chymru, yn gallu elwa ar astudiaeth addysg uwch. Y rhain yw'r myfyrwyr hynny â phrofiad o ofal, neu sydd wedi derbyn cymorth oddi wrth wasanaeth gofal cymdeithasol; y rheini sydd ag anabledd; a'r rheini sy'n rhieni.

14. Ar gyfer y darpar fyfyrwyr hynny â phrofiad o ofal yn blant, rydym yn cynnig bod darparwyr addysg bellach ac uwch yn darparu pecynnau cymorth wedi'u personoleiddio, eu bod yn barod i drosglwyddo credydau a'u bod â'r hyblygrwydd i ganiatáu dechrau'r flwyddyn academaidd sawl gwaith. Rydym yn cefnogi'r gydnabyddiaeth sydd eisoes wedi ei rhoi i'r rheini â phrofiad o ofal gan 'Reoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) 2011' a chredwn fod y system gyllido rydym wedi ei chynnig, ynghyd â'r bwrsari addysg uwch hwn, yn darparu sail gadarn i gefnogi pobl sy'n gadael gofal. Serch hynny, mae'r Panel Adolygu'n cynnig y dylai'r rheini sydd â phrofiad o ofal dderbyn y Grant Cynhaliath uchaf a gynigir yn yr adroddiad hwn.
15. Mae'r Panel Adolygu'n cydnabod bod myfyrwyr ag anabledd yn wynebu heriau penodol wrth gwblhau cwrs addysg uwch yn llwyddiannus. Rydym ni hefyd yn cydnabod bod camau breision wedi eu cymryd ar draws Cymru dros y blynyddoedd diwethaf i helpu myfyrwyr ag anableddau i allu elwa ar addysg uwch. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Thrysorlys EM er mwyn ystyried pa gymorth pellach y gellir ei gynig.
16. Mae myfyrwyr sy'n rhieni yn wynebu heriau penodol os yw eu plant o oedran ysgol neu'n iau. Mae'r Panel Adolygu yn nodi'r heriau cymdeithasol ac ariannol i fyfyrwyr sy'n rhieni ac rydym ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, yn gweithio gyda phrifysgolion ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) i sicrhau cymorth ariannol addas i helpu myfyrwyr sy'n rhieni i gyfuno eu hastudiaethau â'u cyfrifoldebau teuluol.

Addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ac astudiaethau Cymraeg

17. Derbyniodd y Panel Adolygu dystiolaeth sylweddol ar fuddioldeb a'r angen i addysg uwch gael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Adolygiad hefyd wedi derbyn tystiolaeth sy'n cefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn cydnabod y cynnydd pwysig a wnaed yn addysg uwch cyfrwng Cymraeg ers sefydlu'r Coleg. Mae'r Panel Adolygu'n argymhell y dylai'r Coleg, fel corff ar wahân a sefydlwyd ar y cyd gan bob prifysgol yng Nghymru, barhau i fod y prif gorff o ran cynllunio a chefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail strategol ar draws addysg uwch yng Nghymru. I gefnogi model cyllido cynaliadwy yn addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, dylai buddsoddiad blynyddol oddi wrth CCAUC yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i raglen ysgoloriaeth gael ei gadw ar lefel y flwyddyn academaidd 2016/17 (£5.8m) o leiaf.
18. Mae'r Panel Adolygiad yn credu bod gan y Coleg a phrifysgolion cydgyfrifoldeb i weithio gyda chyrrff a sefydliadau eraill i wella darpariaeth addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym felly yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CCAUC, prifysgolion a sefydliadau fel colegau AB, ysgolion, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chyflogwyr i sicrhau'r effaith uchaf posib a'r gwerth mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus mewn, a chymorth i, addysg uwch cyfrwng Cymraeg.
19. Mae'r Panel Adolygu yn cefnogi egwyddor buddsoddiad cyhoeddus, ochr yn ochr â dulliau masnachol, ar gyfer cyhoeddwr academaidd yng Nghymru. Rydym yn

credu y dylai amseru'r adolygiad annibynnol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru ganiatáu i'r holl rhanddeiliaid ddatblygu cynllun busnes cynaliadwy ar gyfer Gwasg Prifysgol Cymru.

Cyllido ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth

20. Mae'r system 'cymorth deuol' wrth galon llwyddiant ymdrechion ymchwil addysg uwch ar draws y Deyrnas Unedig. Mae cyllid ymchwil sy'n ymwneud ag ansawdd yn cael ei ddarparu i brifysgolion Cymru gan Lywodraeth Cymru, drwy CCAUC, yn seiliedig ar asesu ansawdd ymchwil yn gyfnodol drwy'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Mae prifysgolion hefyd yn canfod ac yn cystadlu am gyllid ymchwil/prosiect gan amrywiaeth o ffynonellau, rhai'n gyhoeddus a rhai ddim.
21. Mae cyllid ymchwil o ansawdd yn hollbwysig i ddarparu'r buddsoddiad sylfaenol sy'n galluogi datblygiad strategol ymchwil yn yr hirdymor ac i greu mas critigol o allu ymchwil. Mae sicrwydd a natur ragweladwy cyllid ymchwil o ansawdd yn bwysig oherwydd y gorwelion cynllunio hir sy'n llywio strategaethau ymchwil prifysgol. Oherwydd hyn a rhesymau eraill, cred y Panel Adolygu bod cyllid ymchwil o ansawdd yn parhau'n hollbwysig ac y dylai gael ei gynnal ar y lefel bresennol o £71m y flwyddyn o leiaf mewn termau real dros y pum mlynedd nesaf.
22. Cynigir system cymorth deuol debyg gan y Panel Adolygu i gefnogi trosglwyddo gwybodaeth. Mae angen y buddsoddiad hwn i sicrhau bod yr ymchwil a'r wybodaeth a gynhyrchir mewn prifysgolion yn darparu'r budd gorau posibl i'r economi a'r gymdeithas yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, ariannu dwy ganolfan trosglwyddo gwybodaeth yn gyntaf; ac yn ail annog ffrwd gyllido seiliedig ar brosiect sy'n ystwyth a hyblyg ac sydd wedi'i hanelu at brosiectau fydd yn dylanwadu ar economi Cymru. Dylai'r rhain gael eu gweinyddu, gan CCAUC, gyda chyn lleied â phosib o fiwrocratiaeth. Yn ogystal, dylai Sefydliad Ymchwil Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru dderbyn cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi cymdeithasol, dros bum mlynedd, yn hytrach na bod mwyafrif ei gyllid yn deillio o brosiectau.

Addysg alwedigaethol a thechnegol uwch

23. Bu'r Panel Adolygu, gyda chymorth is-banel arbenigol, yn ystyried y ffordd orau o ehangu cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglenni addysg uwch sy'n seiliedig ar waith neu sy'n gysylltiedig â swyddi galwedigaethol. Dilynodd hyn estyniad i gylch gwaith yr Adolygiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016. Gwelodd y Panel Adolygu gyfle i Gymru ddatblygu prentisiaethau gradd neu ddarpariaeth a noddir gan gyflogwr neu mewn ffordd sy'n gwireddu'r slogan 'dysgu wrth ennill'.
24. Mae modelau effeithiol o weithio mewn partneriaeth eisoes yn bodoli rhwng colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod myfyrwyr yn symud ymlaen rhwng rhaglenni AU lefel 4 a 5 (megis graddau Sylfaen neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch, HND) a graddau israddedig. Bwriedir i argymhellion a wnaed gan y Panel Adolygu yn y maes hwn wella gweithio mewn partneriaeth; ac ni ddylid bychanu rôl ganolog cyflogwyr. Mae'r cynigion yn y maes hwn yn cynnwys gwell prosesau i gymeradwyo fframweithiau uwch brentisiaethau a rhywfaint o

gyllid datblygu ar gyfer colegau AB sy'n ceisio cynnig rhywbeth gwahanol i fyfyrwyr a chyflogwyr ym maes addysg dechnegol uwch, yn amodol ar y gofynion arferol ynglŷn â sicrwydd ansawdd.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru

25. Yn ystod yr Adolygiad hwn, rydym ni wedi derbyn cyflwyniadau gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, corff cymharol newydd. Mae'r Gymdeithas yn ychwanegiad i'w groesawu i dirwedd ddeallusol Cymru, yn enwedig oherwydd ei chymrodoriaeth amlddisgyblaethol ac amlsector. Credwn fod ganddi'r potensial i ddatblygu i fod yn adnodd gwirioneddol ar gyfer gwella dealltwriaeth y cyhoedd ynglŷn â gwyddoniaeth ac ymchwil, cyfrannu at ddatblygiad 'pŵer meddal' Cymru drwy hyrwyddo rhwydweithiau rhyngwladol o ddiddordeb yng Nghymru, a thrwy ddarparu cyngor annibynnol a sganio'r gorwel ar draws meysydd o bob math drwy sicrhau bod gan lunwyr polisi Cymru fynediad i'r arbenigedd cenedlaethol (a byd-eang) gorau.
26. Er mwyn iddi weithredu'n effeithiol, mae'r Panel Adolygu'n argymhell y dylai'r Gymdeithas dderbyn yr un faint o gyllid craidd ag y mae cyrff tebyg yn ei dderbyn mewn awdurdodaethau eraill.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

27. Mae'r Panel Adolygu'n credu bod angen i'r CCAUC dderbyn swm o gyllid heb ei neilltuo i sbarduno newid mewn meysydd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; gan gynnwys prosiectau i effeithio ar agweddau cymdeithasol ehangu mynediad; effeithlonrwydd neu ymyrraeth gan brifysgolion i symleiddio taith y dysgwr. Mae'r Panel Adolygu felly yn argymhell darpariaeth ariannol ar gyfer cronfa datblygu strategol CCAUC, ond mae'n disgwyl y byddai prosiectau a ariannwyd drwy'r ffrwd gyllido hon yn cael eu noddi ar y cyd â phrifysgolion.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr

28. Mae'r Panel Adolygu yn argymhell y dylai Cydbwyllgor Gweinidogion y DU, ar y lefelau uchaf, ystyried cydgysylltu polisi cyllid myfyrrwyr rhwng gweinyddiaethau'r DU yn well, heb leihau effaith penderfyniadau datganoledig. Croesawn barodrwydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr i fynd ati gyda Llywodraeth Cymru i edrych am opsiynau i weithredu argymhellion yr adroddiad hwn yn ddi-oed. Yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith ar y cyd hwnnw, mae'r Panel yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gwmpasu system newydd o weinyddu benthyciadau i fyfyrrwyr yng Nghymru.

1. Diben yr adroddiad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cwblhau gwaith y Panel Adolygu. Mae'n cyflwyno ein dadansoddiad a'n canfyddiadau allweddol ac, yn unol â'n cylch gwaith, yn cynnig pecyn wedi'i gostio o argymhellion ar gyfer cyllido addysg uwch yng Nghymru yn y dyfodol.
- 1.2 Dechreuodd yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru yn Ebrill 2014. Yn Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y Panel Adolygu adroddiad interim¹ sy'n crynhoi llawer o'r sylfaen dystiolaeth sydd wedi llywio'r Adolygiad hwn. Mae'r adroddiad interim yn ddogfen ategol, ac felly mae llawer o'r adroddiad hwn yn dod ohoni.
- 1.3 Mae gwybodaeth a chyingor ychwanegol wedi'i geisio i ddiweddarau'r sylfaen dystiolaeth. Mae'r canfyddiadau, ar y cyfan, yn gyson â'r rhai a amlinellwyd yn yr adroddiad interim. Mae'r Panel Adolygu hefyd wedi hoelio'i sylw yn ystod rhan olaf yr Adolygiad ar fodlu amrywiaeth eang o senarios cyn dod at y system a'r pecyn o argymhellion arfaethedig yn Adran 9.
- 1.4 Un mater pwysig nad oedd y Panel yn gallu ei ystyried oherwydd amseriad yr adroddiad yw effaith canlyniad y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar 23 Mehefin 2016. Tystiolaeth anecdotaidd yn unig sydd ar gael ar hyn o bryd ynglŷn ag effaith y canlyniad ar addysg uwch yn y DU. Tan i Erthygl 50 y Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd gael ei gweithredu, mae sefydliadau addysg uwch a'u myfyrwyr yn parhau i fod yn gyfranogwyr llawn yn Horizon 2020, Erasmus+ a rhaglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru. Ni fydd unrhyw effaith gyllidol ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn hysbys tan ar ôl i Ganghellor y Trysorlys wneud ei Ddatganiad yr Hydref yn hwyr yn 2016.

¹ Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Interim <http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/highereducation/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?lang=cy>.

2. Cylch gwaith a blaenoriaethau

2.1 Ym mis Chwefror 2014, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd gylch gorchwyl a blaenoriaethau ar gyfer yr Adolygiad hwn². Ehangwyd y cylch hwnnw ac aelodaeth y Panel Adolygu ym mis Mawrth 2016 er mwyn ystyried materion yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr a chyllido addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach³. Mae'r cylch gorchwyl a ehangwyd yn Atodiad A. Mae Aelodaeth y Panel yn Atodiad B.

2.2 Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Adolygiad yn cynnwys:

- i. sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch – a bod angen sicrhau bod hynny'n un o anghenion craidd unrhyw system yn y dyfodol, a bod y system ei hun yn flaengar ac yn deg;
- ii. sicrhau bod yr angen am sgiliau yng Nghymru yn cael ei ddiwallu;
- iii. cryfhau'r ddarpariaeth ran-amser ac ôl-radd yng Nghymru; a
- iv. sicrhau cynaliadwyedd ariannol yn y tymor hir.

² Datganiad Ysgrifenedig ar yr Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, Chwefror 2014 <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2014/hefinance/?skip=1&lang=cy>

³ Datganiad Ysgrifenedig - Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru, 4 Mawrth 2016: <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016/hefunding/?lang=cy>.

3. Dull gweithredu

- 3.1 Mae'r Panel Adolygu wedi dilyn dull o lunio polisi ar sail tystiolaeth wrth baratoi ei argymhellion i Weinidogion Cymru. I sicrhau ein bod wedi cael mynediad i ddigon o dystiolaeth a safbwyntiau amrywiol i lywio ein trafodaethau, gweithredwyd cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid cynhwysfawr. Roedd gweithgareddau ymgysylltu'n cynnwys:
- i. aelodau'r Panel Adolygu: sefydlwyd panel o arbenigwyr a oedd yn cynnwys unigolion o sefydliadau allweddol;
 - ii. cyfarfodydd y Panel Adolygu;
 - iii. grwpiau ffocws;
 - iv. adroddiadau tystiolaeth wedi'u comisiynu;
 - v. cymorth polisi allanol ac Is-banel Addysg Bellach arbenigol i roi cyngor i'r Panel Adolygu ynglŷn â'i gylch gwaith estynedig (gweler Atodiad A); a
 - vi. galw am dystiolaeth, a ysgogodd 22 o gyflwyniadau llafar i'r Panel Adolygu a dros 160 o gyflwyniadau ysgrifenedig gan rhanddeiliaid.
- 3.2 Mae gwybodaeth wedi'i diweddarau yn ymwneud â gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid i'w gweld yn Atodiad D.
- 3.3 Yn ogystal â'r dystiolaeth a ddaeth i law drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, edrychodd y Panel Adolygu ar amrywiaeth eang o ddata a thystiolaeth ddogfennol arall. Mae hyn wedi cynnwys dros 320 o friffiau, adroddiadau, papurau ymchwil, erthyglau, dogfennau polisi a chylchlythyrau.

4. Egwyddorion arweiniol

4.1 Er mwyn datblygu strategaeth i gyllido addysg uwch mewn ffordd sy'n galluogi prifysgolion i gyflawni eu swyddogaethau ehangach a chyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu swyddi a thwf a sicrhau rhagor o gyfiawnder cymdeithasol, mae'n rhaid sefydlu egwyddorion fel sylfaen i ddatblygu strategaeth gyllido. Datblygodd y Panel Adolygu set o egwyddorion o'r fath⁴, sy'n datgan y dylai'r canlynol fod wrth wraidd y system gyllido addysg uwch, drwy sefydliadau sy'n perfformio'n uchel:

- i. Datblygu a lledaenu gwybodaeth a dealltwriaeth ddynol
- ii. Hyrwyddo economi sgiliau uchel a ffyniannus sy'n amgylcheddol gynaliadwy, hyrwyddo cymdeithas iach a chydlynus, a chyfoethogi diwylliant a chymdeithas sifil.
- iii. Dylai buddsoddiad mewn addysg uwch gael ei rannu rhwng y llywodraeth – yn gweithredu ar ran y gymdeithas ehangach – a'r rhai sy'n cael mantais uniongyrchol o addysg lefel prifysgol.
- iv. Dylai sefydliadau sy'n darparu addysg uwch gael eu cyllido ar lefel sy'n eu galluogi i wneud gwaith addysgu ac ymchwil o'r radd flaenaf, yn unol â'u cryfderau, eu harbenigeddau a'u cenadaethau penodol.
- v. Dylai trefniadau cyllido wella hygyrchedd addysg uwch er mwyn sicrhau nad yw cefndir economaidd neu gymdeithasol unigolyn yn cael effaith negyddol ar gyfranogiad.
- vi. Dylai'r system gyllido ystyried gwaith ymchwil a chydweithredol yn y DU a thramor, a'r angen i brifysgolion yng Nghymru gystadlu a llwyddo yn y meysydd hynny.
- vii. Dylai trefniadau cyllido gefnogi a gwella moddau astudio amrywiol, gan gynnwys astudio llawn amser a rhan-amser, a dysgu o bell; a dylent sicrhau rhyddid i symud rhwng sectorau addysgol gwahanol
- viii. Dylai trefniadau cyllido alluogi a hyrwyddo addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg os oes tystiolaeth o alw am y ddarpariaeth.
- ix. Dylai trefniadau cyllido alluogi a chefnogi astudio israddedig ac ôl-radd, gan gydnabod y gall mecanweithiau ar gyfer y naill a'r llall amrywio
- x. Dylai cost addysg uwch (naill ai israddedig neu ôl-radd) ar gyfer unigolyn ystyried y ffi uniongyrchol (a ddylai gynnwys unrhyw ddeunyddiau'r cwrs) ac amcangyfrif rhesymol o dreuliau byw.
- xi. Dylai'r system fod yn flaengar, gan roi'r cymorth mwyaf i unigolion sydd â'r anghenion mwyaf tra'n cynnal elfen o gyffredinoldeb sy'n adlewyrchu cyd-fuddsoddiad dinasyddion mewn addysg fel trethdalwyr.
- xii. Dylai trefniadau cyllido cyrsiau addysg uwch gydnabod y costau gwahanol o addysgu cyrsiau gwahanol, ond dylai unrhyw gyfraniad gan unigolyn fod gyson ledled pynciau gwahanol.
- xiii. Dylai'r system ffioedd a chyllido fod mor syml a thryloyw â phosibl ar gyfer ymgeiswyr a myfyrwyr, ac yn hawdd i'w gweinyddu ar gyfer sefydliadau ac asiantaethau perthnasol eraill.
- xiv. Dylai'r system gyllido fod yn gynaliadwy yng nghyd-destun cyd-destunau economaidd ehangach a marchnadoedd myfyrwyr y tu allan i Gymru.

⁴ Mae'r egwyddorion arweiniol hyn hefyd yn ymddangos yn yr *Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru: Adroddiad Interim* ('yr Adroddiad Interim' ar ôl hyn).

- xv. Un elfen hanfodol o system Addysg Uwch iach yng Nghymru yw'r 'system cymorth deuil' o gyllid ymchwil lle mae prifysgolion yn derbyn cyllid craidd ar sail fformiwla fel sylfaen i wneud ceisiadau am gyllid prosiectau cystadleuol; a dylai system debyg fod ar waith ar gyfer arloesi.
- xvi. Ni ddylai'r system gyllido gael effaith negyddol ar ymreolaeth sefydliadol a rhyddid academaidd.

4.2 Mae'r egwyddorion hyn, ynghyd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Adolygiad hwn, wedi llywio barn y Panel Adolygu gydol y broses ac maent yn sail i'r system arfaethedig a'r argymhellion sy'n cael eu cynnwys yma. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015⁵, sydd wedi'i chynllunio i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, ynghyd â blaenoriaethau eang ar gyfer AU yng Nghymru (sydd i'w gweld yn *Natganiad Polisi ar Addysg Uwch* Llywodraeth Cymru ym Mehefin 2013⁶), wedi cael eu hystyried hefyd.

⁵ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Yr Hanfodion
<http://www.ygymruagarem.co.uk/sites/default/files/Deddf%20Llesiant%20Cenedlaethau'r%20Dyfodol%20%28Cymru%29%202015%20Yr%20Hanfodion.pdf>

⁶ Llywodraeth Cymru, Datganiad Polisi ar Addysg Uwch, Mehefin 2013
<http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?lang=cy>

5. Buddsoddiad cyhoeddus

- 5.1 Tua dechrau'r Adolygiad hwn, derbyniwyd cyflwyniadau gan Brif Economegydd Cymru a Phennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau, Llywodraeth Cymru. Clywodd y Panel Adolygu fod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei wasgu mwy nag erioed a bod y cyllidebau sy'n ariannu elfennau o gyllid myfyrwyr a pholisi a strategaeth addysg uwch, yn benodol, o dan bwysau.
- 5.2 Mae'r wasgfa hon wedi parhau, gyda Llywodraeth y DU yn ymestyn y cyfnod o ostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus. Yn y cynlluniau presennol, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn parhau i ddisgyn, mewn termau real, dros y tymor Seneddol presennol. Yng Nghyllideb mis Mawrth 2016, cynyddodd Canghellor y Trysorlys ar y pryd lefel gyffredinol y gostyngiad yng ngwariant cyhoeddus 2019-20 gan ymestyn y gostyngiadau hyn am flwyddyn arall, i mewn i 2020-21. Mae'r gostyngiadau pellach hyn yng nghyllideb wirioneddol Llywodraeth Cymru yn gosod her arbennig o anodd, a hwythau'n dilyn cyfnod estynedig o doriadau cyson. Yn ogystal, mae'r pwysau yn sgil cynnydd yn y galw a disgwyliadau uwch, oherwydd newid demograffig er enghraifft, yn parhau i gynyddu. Yn ogystal, cyhoeddodd y cyn Canghellor gyfraniadau pensiwn uwch ar gyfer cyflogwyr sector cyhoeddus, a bydd Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Ardoll Brentisiaethau, beth bynnag fo'u rhinweddau, yn ychwanegu eto at gostau cyflawni gwasanaethau cyhoeddus.
- 5.3 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Gorffennaf 2016) mae'r darlun wedi ei gymhlethu ymhellach gan ganlyniad y refferendwm diweddar ar aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Fel y nodwyd yn adran 1, bydd effaith canlyniad refferendwm yr UE ar bolisi cyllidol yn y DU yn parhau'n ansicr tan Ddatganiad yr Hydref Trysorlys EM yn hwyr yn 2016 o leiaf. Mater hollbwysig yw'r graddau y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i ddigolledu colli cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd tan 2020 a'r effaith y byddai tynnu yn ôl o Horizon 2020 yn ei chael os nad yw'r DU yn ceisio aelodaeth o'r Ardal Ewropeaidd Economaidd⁷.
- 5.4 Er yn llai amlwg, gall goblygiadau hyd yn oed pwysicach godi o ganlyniad i'r gyfradd is o dwf economaidd y mae'r rhan fwyaf o arbenigwyr yn ei disgwyl wedi'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi amcangyfrif, ar sail amcangyfrifon pwylllog o'r gostyngiad posib mewn twf, y gallai'r effaith ar gyllid cyhoeddus y DU fod gyfwerth â chynnydd o £20-40 biliwn yn niffyg cyllideb y DU erbyn 2019-20. Y prif ffactor yn hyn yw gostyngiad mewn refeniw trethi y tu hwnt i'r hyn a fyddai wedi digwydd fel arall.
- 5.5 Byddai effaith y diffyg uwch hyn ar Gymru yn dibynnu ar sut y byddai Llywodraeth y DU yn dewis ymateb i ddirywiad o'r fath mewn cyllid cyhoeddus. Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid wedi awgrymu efallai y byddai Llywodraeth y DU yn fwy tebygol o ymestyn cyni cyllidol i mewn i'r 2020au, yn hytrach na'i gynyddu o ganlyniad i economi sy'n arafu. Yn wir, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o lacio tymor byr mewn ymateb i'r arafu yn y twf, ond byddai hyn mwy

⁷ Gweler troednodyn 57 am fwy o gyd-destun ar y pwynt hwn.

na thebyg wedi ei ganolbwyntio ar leihau treth a/neu gynyddu gwariant cyfalaf yn hytrach na chynyddu cyllidebau adnoddau.

6. Y cyd-destun ehangach

6.1 Mae ein Hadroddiad Interim yn gosod y cyd-destun ehangach ar gyfer yr Adolygiad⁸. Mae'n cyfeirio at ddogfennau polisi ac adolygiadau olynol sydd wedi'u comisiynu gan Lywodraeth Cymru, sy'n ymwneud yn benodol ag addysg uwch yng Nghymru, ac sydd wedi cael eu hystyried gan y Panel Adolygu, ynghyd â pholisïau a strategaethau cysylltiedig ym meysydd datblygu economaidd, sgiliau ac arloesi, dysgu gydol oes ac ehangu mynediad. Mae datblygiadau polisi yn Lloegr ac mewn mannau eraill yn y DU hefyd yn cael eu crybwyll. Ers paratoi'r adroddiad, mae nifer o ddatblygiadau ac adroddiadau mwy diweddar wedi llywio ein syniadau. Ymhlith y rhai allweddol mae:

- Papur Gwyrdd Llywodraeth y DU, *Fulfilling our Potential: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice*⁹, Tachwedd 2015. Mae hyn yn cynnwys y nod o sefydlu Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu¹⁰.
- Papur Gwyn Llywodraeth y DU, *Success as a Knowledge Economy: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice*, Mai 2016¹¹.
- *Ensuring a successful UK research endeavour – A Review of the UK Research Councils by Paul Nurse*¹², Tachwedd 2015.
- *Towards 2030: A Framework for Building a World-Class Post-Compulsory Education System for Wales – Final report of the Review of the Oversight and Regulation of Post-Compulsory Education and Training in Wales – Yr Athro Ellen Hazelkorn*¹³, Mawrth 2016. Bu'r Cadeirydd hefyd yn cynnal trafodaethau gyda'r Athro Hazelkorn.
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a graddau peirianeg, technoleg neu gyfrifiadureg rhan-amser, a lansiwyd ym mis Mawrth 2016¹⁴,
- Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymorth ar gyfer y cyfnod sylfaen, a lansiwyd ym mis Mawrth 2016¹⁵.
- *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, Llywodraeth Cymru, mis Mawrth 2016¹⁶.

⁸ Gwybodaeth yn dod o'r adroddiad interim a'i ddiweddarau â'r data diweddaraf sydd ar gael, lle bo'n addas.

⁹ Adran Busnes Arloesi a Sgiliau, *Fulfilling our Potential: Teaching Excellence, Social Mobility and Student Choice* Tachwedd 2015:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474227/BIS-15-623-fulfilling-our-potential-teaching-excellence-social-mobility-and-student-choice.pdf.

¹⁰ Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu: Blwyddyn 2 – ymgynghoriad dechnegol (2016):

<https://www.gov.uk/government/consultations/teaching-excellence-framework-year-2-technical-consultation>

¹¹ <https://www.gov.uk/government/publications/higher-education-success-as-a-knowledge-economy-white-paper>

¹² *Ensuring a successful UK research endeavour: A Review of the UK Research Councils by Paul Nurse* Tachwedd 2015: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/478125/BIS-15-625-ensuring-a-successful-UK-research-endeavour.pdf.

¹³ Adroddiad Hazelkorn: *Towards 2030: A Review of the Oversight and Regulation of Post-Compulsory Education and Training in Wales*: <http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/reports/review-of-the-oversight-and-regulation-of-post-compulsory-education-and-training-in-wales/?lang=en>.

¹⁴ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymorth ar gyfer astudiaeth ôl-radd a pheirianeg, technoleg neu gyfrifiadureg rhan-amser (Mawrth 2016): <http://gov.wales/consultations/education/support-for-postgraduate-study-and-part-time-engineering/?lang=cy>.

¹⁵ Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymorth ar gyfer y cyfnod sylfaen, (Mawrth 2016):

<http://gov.wales/consultations/education/support-for-foundation-years/?lang=cy>.

¹⁶ Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, (Mawrth 2016)

<http://gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?skip=1&lang=cy>.

- Cyhoeddiad am adolygiad annibynnol ynglŷn â chefnogaeth Llywodraeth Cymru i feysydd cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, Mawrth 2016¹⁷.
- Gweledigaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Addysg Gychwynnol yng Nghymru a meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, Mawrth 2016¹⁸.

6.2 O ran y cyd-destun economaidd-gymdeithasol, mae'r sefyllfa fel y cafodd ei datgan yn flaenorol: er bod hunaniaeth wleidyddol a diwylliannol Cymru yn gryf, mae economi'r wlad wedi'i chysylltu'n agos ag ardaloedd cyfagos yn Lloegr ac mae lefel uchel o symudedd ar draws y ffin o safbwynt cymdeithasol ac economaidd. Mae Cymru hefyd yn wynebu heriau economaidd amrywiol ac er ei bod yn perfformio'n waeth na'r DU yn ei chyfanrwydd o safbwynt economaidd, daw amrywiaeth o agweddau mwy cadarnhaol i'r amlwg wrth ystyried y cyd-destun mwy cynhwysfawr, gan gynnwys y ffaith fod y bwlc o safbwynt cyfraddau cyflogaeth o gymharu â gweddill y DU wedi lleihau ers 1999.

6.3 Mae amcanestyniadau *Working Futures 2014-2024*¹⁹ Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau²⁰ yn awgrymu bod disgwyl i'r lefel gyflogaeth yng Nghymru godi o 1.412m yn 2014 i 1.466m erbyn 2024. Hefyd, mae angen llenwi swyddi'r bobl sydd wedi gadael y farchnad lafur. Mae amcanestyniadau *Working Futures* yn awgrymu y bydd gofyniad net (galw am fwy o weithwyr a galw i lenwi swyddi gweithwyr presennol)²¹ o 607,000 o weithwyr rhwng 2014 a 2024. O ran y galw am fwy o weithwyr, rhagfynegir y bydd y cynnydd mwyaf ym maes swyddi proffesiynol. Rhagwelir cynnydd mawr hefyd gyda galwedigaethau sgiliau uwch ym maes rheoli ac mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cysylltiedig, a hefyd ym meysydd gofal, hamdden a gwasanaethau eraill.

6.4 Mae amcanestyniadau ar gyfer cyflogaeth yn ôl lefel cymhwyster yn awgrymu newidiadau mawr yn y farchnad lafur yng Nghymru. Erbyn 2024, rhagwelir y bydd gan dros hanner (50.9%) y rhai a gyflogir yng Nghymru gymwysterau Lefel 4²² neu uwch, o gymharu ag ychydig o dan ddwy ran o bump (39.0%) yn 2014, gyda disgwyl i tua 167,000 o bobl mewn gwaith gael cymwysterau Lefelau 7-8²³. Mae'r newid hwn tuag at gymwysterau uwch a thwf o ran ochr

¹⁷ Cyhoeddiad gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth (ar y pryd), Ken Skates, ynglŷn ag adolygiad annibynnol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru, 15 Mawrth 2016: <http://gov.wales/newsroom/cultureandsport/2016/160315-literature-review/?lang=cy>

¹⁸ Y Gweinidog yn lansio gweledigaeth newydd ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon yng Nghymru – datganiad i'r wasg (22 Mawrth 2016) <http://gov.wales/newsroom/educationandskills/2016/minister-launches-new-vision-for-initial-teacher-education/?lang=cy>

Addysgu Athrawon Yfory – Meini prawf drafft ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru: <http://www.erw.wales/media/109177/accreditation-criteria-english.pdf>.

¹⁹ Fel gyda phob amcanestyniad a rhagfynegiad, dylai'r canlyniadau a gyflwynwyd yn *Working Futures* gael eu gweld yn ddangosol o dueddiadau tebygol a bod trefn pwysigrwydd yn parhau i dderbyn patrymau o ymddygiad a pherfformiad y gorffennol, yn hytrach na rhagfynegiadau manwl o'r dyfodol.

²⁰ UKCES.

²¹ Mae 'galw am fwy o weithwyr' yn cyfeirio at y newid net yn nifer y swyddi. Mae 'galw i lenwi swyddi' yn cyfeirio at yr angen i gyflogwyr gael gweithwyr newydd oherwydd marwolaeth, ymddeoliad neu resymau eraill. Mae 'gofyniad net' yn cyfeirio at gyfanswm y galw am fwy o weithwyr ac i lenwi swyddi.

²² I gymharu gwahanol lefelau cymhwyster: <https://www.gov.uk/what-different-qualification-levels-mean/compare-different-qualification-levels>.

²³ Mae hyn yn gyfystyr â lefel cymhwyster ôl-radd.

sgiliau uwch y farchnad lafur yn creu her sylweddol i'r rhai sy'n cynllunio, yn cyllido ac yn darparu addysg a sgiliau, ar bob lefel.

- 6.5 Casglwyd tystiolaeth sylweddol yn ystod yr adolygiad hwn yn ymwneud ag enillion graddedigion a phremiymau cyflogau. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd graddedigion yn ennill mwy o gyflog yn ystod eu hoes na'r rhai sydd â'r cymwysterau ar y lefel nesaf a gydnabyddir yn ffurfiol²⁴. Mae lefelau uwch o addysg hefyd yn gysylltiedig ag amrywiaeth o fanteision cymdeithasol, llesiant a diwylliannol ar gyfer unigolion a'u teuluoedd a chymdeithas²⁵.
- 6.6 Mae data a gasglwyd ar faint a strwythur y sector AU yng Nghymru yn dangos bod y sector yn gwneud cyfraniad pwysig at fywyd a diwylliant Cymru, gan gyfrannu dros £3 biliwn²⁶ y flwyddyn o wariant gros at economi Cymru. Mae gan sector AU Cymru gryfderau sylweddol ym maes ymchwil hefyd, yn ogystal â chysylltiadau rhyngwladol helaeth.
- 6.7 Mae naw prifysgol yng Nghymru, gan gynnwys y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac maent yn cynnig darpariaeth amrywiol ar gyfer israddedigion a graddedigion. Mae data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch²⁷ yn dangos, yn 2014/15, bod yna 132,965 wedi ymrestru mewn sefydliadau AU yng Nghymru, gan gynnwys ymrestriadau yn y Brifysgol Agored.²⁸ O'r rhain, roedd 28,105 yn ymrestriadau ôl-radd (gostyngiad o 3% o'i gymharu â 2013/14) ac roedd 104,860 yn ymrestriadau israddedig (hefyd yn ostyngiad o 3% o'i gymharu â 2013/14). Yn 2014/15, bu cwmp o 4.6% yng nghyfanswm yr ymrestriadau AU rhan-amser o gymharu â'r flwyddyn flaenorol i 40,915²⁹, a bu gostyngiad yn yr ymrestriadau llawn amser o 2% o'i gymharu â lefelau 2013/14 i 92,050.
- 6.8 Mae'r tuedd cyffredinol yn nifer y myfyrwyr a ymrestrodd yn sefydliadau AU Cymru o 2003/04 i 2014/15, i'w weld yn Ffigur 1. Mae Tabl 1 yn darparu dadansoddiad o'r ymrestriadau yn sefydliadau AU Cymru ar gyfer 2014/15.

²⁴ Cadarnhawyd hyn yn yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau, Ystadegau Marchnad Lafur Graddedigion 2015 (Ebrill 2016): https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/518654/bis-16-232-graduate-labour-market-statistics-2015.pdf.

²⁵ Mae'r Adroddiad Interim yn amlinellu tystiolaeth gadarn ar gyfer hyn.


²⁶ Gweler Kelly, U., McNicoll, I., White, J., *The Economic Impact of Higher Education in Wales* (Hydref 2015), ffigur 14, tud.22 am ddadansoddiad cryno o effaith allbwn economaidd ar wariant prifysgolion yng Nghymru: <http://www.uniswales.ac.uk/wp/media/The-Economic-Impact-of-Higher-Education-in-Wales.pdf>.

²⁷ Wedi ei ddiweddarau ers cyhoeddi'r Adroddiad Interim i adlewyrchu'r data diweddaraf sydd ar gael. Lle bo'n briodol, mae'r ffigurau a gofnodwyd yn flaenorol ar gyfer 2013/14 wedi'u cynnwys er cymhariaeth.

²⁸ Yn 2013/14 nifer yr ymrestriadau AU yng Nghymru oedd 137,135.

²⁹ Nid oedd y 34,880 a gofnodwyd yn yr Adroddiad Interim yn cynnwys ymrestriadau'r Brifysgol Agored.

Ffigur 1: Myfyrwyr wedi ymrestru yn SAU Cymru (gan gynnwys y Brifysgol Agored), yn ôl blwyddyn academaidd



Ffynhonnell: HESA

Tabl 1: Myfyrwyr wedi ymrestru yn SAU Cymru 2014/15


	Ôl-radd		Israddedig		llawn amser		Rhan-amser		Pawb
Prifysgol Caerdydd	8,905	29%	21,575	71%	22,385	73%	8,100	27%	30,480
Prifysgol De Cymru	4,920	18%	22,795	82%	17,045	62%	10,665	38%	27,710
Prifysgol Abertawe	2,555	16%	13,465	84%	13,045	81%	2,980	19%	16,020
Prifysgol Metropolitan Caerdydd	4,750	35%	8,920	65%	12,010	88%	1,660	12%	13,670
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	2,660	25%	8,105	75%	8,910	83%	1,855	17%	10,765
Prifysgol Aberystwyth	1,760	17%	8,660	83%	7,040	68%	3,380	32%	10,425
Prifysgol Bangor	1,335	14%	8,500	86%	7,775	79%	2,065	21%	9,835
Prifysgol Glyndŵr	895	13%	5,875	87%	3,845	57%	2,925	43%	6,765
Y Brifysgol Agored yng Nghymru	325	4%	6,960	96%	*	*	7,285	100%	7,285
Pob SAU yng Nghymru ac eithrio'r Brifysgol Agored	27,780	22%	97,900	78%	92,050	73%	33,630	27%	125,680
Pob SAU yng Nghymru gan gynnwys y Brifysgol Agored	28,105	21%	104,860	79%	92,050	69%	40,915	31%	132,965

Mae pob ffigur wedi dalgrynnu i'r pump agosaf. Dynodir gw erthoedd 0, 1 a 2 gan ***

Ffynhonnell: Awdurdod Safonau Addysg Uwch

6.9 O ran llif y myfyrwyr dros y ffin, mae'r data'n dangos, er bod patrymau recriwtio yng Nghymru a'r DU yn newid, mae Cymru yn parhau i fod yn fewnforiwr net o fyfyrwyr. Yn 2014/15, roedd 24,105 o fyfyrwyr yn hano o Gymru wedi ymrestru mewn sefydliadau AU y DU y tu allan i Gymru (y rhan fwyaf mewn addysg llawn amser), a 32,739 o fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer rhywle arall yn y DU wedi ymrestru mewn sefydliadau AU yng Nghymru (eto, yn bennaf mewn addysg llawn amser). Rhwng 2013/14 a 2014/15, cynyddodd nifer y myfyrwyr sy'n hano o Gymru sy'n astudio mewn rhannau eraill o'r DU 6%, gyda nifer y myfyrwyr eraill o'r DU sy'n astudio yng Nghymru yn disgyn 2%. Gweler y tueddiadau yn y mynd a dod ar draws y ffin o 2003/4 i 2014/15 yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2: Llifau trawsffiniol rhwng Cymru a gweddill y DU, yn ôl blwyddyn academaidd



Ffynhonnell: HESA

6.10 Yn 2014/15, ymrestrodd 5,275 ar gyrsiau AB mewn sefydliadau AB, gyda 3,195 o'r rhain yn astudio'n rhan-amser³⁰. Mae'r gweithgarwch hwn yn cael ei drefnu drwy gytundeb masnachfrait yn bennaf gan sefydliadau AU. Pwysleisiwyd rôl bwysig sefydliadau AB wrth gynnig darpariaeth AU lefel 4 a 5 a Graddau Sylfaen yn adroddiad *Adolygiad o addysg bellach mewn sefydliadau addysg uwch* (Mehefin 2015) Llywodraeth Cymru. Roedd hwn yn dangos bod yna weithgarwch AU amrywiol yn digwydd mewn colegau AB ledled Cymru.

6.11 Canfu'r dadansoddiad a wnaed gan CCAUC, ar ran yr Adolygiad, mai Gwyddor Filfeddygol yw'r unig bwnc lle mae yna fwlch difrifol mewn darpariaeth ar lefel ôl-raddedig neu israddedig yng Nghymru.

6.12 Mae'r Adroddiad Interim yn cymharu trefniadau cyllido AU a chyllido myfyrwyr yng Nghymru gyda gwledydd eraill y DU, ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16³¹. Mae'r trefniadau ar gyfer Cymru yn darparu'r gwaelodlin ar gyfer modelu ariannol mewn rhannau eraill o'r ddogfen hon³².

6.13 Mae gwybodaeth a gasglwyd ar drefniadau ymhellach i ffwrdd wedi canfod, er bod gan lawer o wledydd amcanion tebyg ar gyfer addysg uwch, bod yna wahaniaethau sylweddol yn y ffordd mae cost addysg uwch yn cael ei rhannu ymysg llywodraethau, myfyrwyr a'u teuluoedd, ac endidau preifat eraill, ac yn y cymorth ariannol a ddarperir i fyfyrwyr³³. Cadarnhaodd adroddiad yr OCED *Education at a Glance 2015*, y sefyllfa hon. Mae data OCED hefyd yn dangos nad oes cysylltiadau cryf ar draws gwledydd rhwng lefelau ffioedd dysgu a'r

³⁰ Ffynhonnell: HESA.

³¹ Mae cymhariaeth o drefniadau cyllido myfyrwr ar gyfer 2016/17 hefyd wedi'i pharatoi ar gyfer y Panel.

³² Cymharu trefniadau cyllido myfyrwyr ym mhedair gwlad y DU.

³³ OECD (2014) *Education at a Glance* cyfeiriad <http://www.oecd.org/edu/Education-at-a-Glance-2014.pdf>.

nifer sy'n cymryd rhan mewn addysg drydyddol. Fodd bynnag, yn achos gwledydd sydd â ffioedd dysgu uchel, gall systemau cymorth ariannol sy'n cynnig benthyciadau gydag ad-daliad incwm wrth gefn, wedi'i gyfuno â grantiau sy'n amodol ar brawf modd, helpu i hyrwyddo mynediad a thegwch wrth rannu cost AU rhwng y wladwriaeth a myfyrwyr³⁴³⁵.

6.14 O ran cymorth i fyfyrwyr, mae'r data gwirioneddol diweddaraf yn dangos bod 59,900³⁶ o fyfyrwyr llawn asmer wedi derbyn cymorth drwy'r cynllun cymorth myfyrwyr yn 2014/15. Dyfarnwyd £755.3 miliwn i gyd, cynnydd o tua 14% ar y flwyddyn flaenorol. Mae Tabl 2 yn rhoi dadansoddiad o gymorth ar gyfer blynyddoedd academaidd 2012/13 i 2014/15. Mae'n adlewyrchu data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac yn cynnwys gwybodaeth am fyfyrwyr UE yn SAU Cymru, a'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n derbyn cymorth.

6.15 Yn 2014/15, talwyd Benthyciadau Ffioedd Dysgu o £186.6 miliwn i sefydliadau addysg uwch, ar ran 52,800 o fyfyrwyr llawn amser sy'n hanu o Gymru a myfyrwyr sy'n hanu o'r UE sy'n astudio yng Nghymru. Roedd hyn yn cymharu â thalu cyfanswm o £172.6 miliwn i 50,600 o fyfyrwyr yn 2013/14. Gwerth cyfartalog y Benthyciad Ffioedd Dysgu a gymerwyd gan fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2014/15 oedd £3,530, o gymharu â £3,410 ym mlwyddyn academaidd 2013/14.

Tabl 2: Cymorth i fyfyrwyr llawn amser a ddyfarnwyd neu a dalwyd*, yn ôl blwyddyn academaidd

	2012/13		2013/14		2014/15	
	£m	Myfyrwyr	£m	Myfyrwyr	£m	Myfyrwyr
Grantiau Talu Ffioedd	*	*	*	*	*	*
Grant AU	*	*	*	*	*	*
Benthyciadau Ffioedd Dysgu* a dalwyd i SAU	155.9	48,200	172.6	50,600	186.6	52,800
Grant Ffioedd Dysgu	108.9	23,600	167.5	37,300	237.6	52,500
Benthyciad Cynhaliath*	142.5	49,200	172.8	52,100	183.6	54,600
Grant Dysgu Cynulliad/Llywodraeth Cymru	121.9	32,900	132.5	33,900	130.9	34,300
Lwfans Myfyrwyr Anabl *	7.7	3,200	8.4	3,400	7.8	3,500
Grantiau wedi'u targedu eraill	7.4	2,700	8.3	2,900	8.7	3,000
Cyfanswm	544.4	54,300	662.1	57,100	755.3	59,900

.. – dim, ' * ' - dibwys ond ddim yn sero

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

* Ym mlynnyddoedd academaidd 2012/13, 2013/14 a 2014/15, mae'r ffigurau Lwfans Myfyrwyr Anabl, Benthyciadau Cynhaliath a Benthyciadau Ffioedd Dysgu uchod yn seiliedig ar daliadau nid dyfarniadau. Y rheswm am hyn yw bod y taliadau yn cynrychioli'r hyn mae myfyrwyr wedi'i dderbyn mewn gwirionedd. Gan fod y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn talu grantiau gyda'i gilydd mewn tri rhandaliad, nid yw'n bosibl pennu symiau a dalwyd ar gyfer grantiau unigol.

Mae holl ffigurau 2014/15 yn derfynol, ac eithrio Lwfans Myfyrwyr Anabl lle mae dyfarniadau a thaliadau'n parhau i'r flwyddyn ganlynol.

³⁴ OECD (*Education at a Glance 2015*) http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oeed/education/education-at-a-glance-2015_eag-2015-en#page266.

³⁵ Mae papur ymchwil - BIS RESEARCH PAPER NUMBER 10 Review of Student Support Arrangements in Other Countries 2010 hefyd yn cefnogi'r pwynt hwn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/31991/10-670-review-student-support-in-other-countries.pdf

³⁶ O gymharu â 57,100 o fyfyrwyr llawn amser a dderbyniodd gymorth drwy'r cynllun cymorth i fyfyrwyr yn 2013/14. Dyfarnwyd £661.8 miliwn o gymorth i gyd.

- 6.16 Dyfarnwyd £237.6 miliwn o Grant Ffioedd Dysgu ym mlwyddyn academaidd 2014/15 ar ran 52,500 o fyfyrwyr llawn amser. Roedd hyn yn cymharu â £167.5 miliwn ar ran 37,300 o fyfyrwyr yn 2013/14³⁷. Talwyd £183.6 miliwn o Fenthyciadau Cynhaliath i 54,600 o fyfyrwyr llawn amser ym mlwyddyn academaidd 2014/15, o gymharu â thalu £172.8 miliwn i 52,100 o fyfyrwyr yn 2013/14. Y swm cyfartalog a fenthyciwyd oedd £3,360 ym mlwyddyn academaidd 2014/15, o gymharu â £3,310 ym mlwyddyn academaidd 2013/14.
- 6.17 Dyfarnwyd £130.9 miliwn o Grant Dysgu y Cynulliad/Llywodraeth Cymru i ymgeiswyr llawn amser cymwys yn 2014/15; gostyngiad o 1% ers 2013/14, a lle dyfarnwyd £132.5 miliwn o hwn yn sgil blwyddyn ychwanegol o fyfyrwyr yn gymwys am y grant hwn. O ran grantiau wedi'u targedu eraill, yn 2014/15, talwyd £7.8 miliwn o Lwfans Myfyrwyr Anabl i 3,500 o fyfyrwyr³⁸, o gymharu â 3,400 o fyfyrwyr yn derbyn £8.4 miliwn ym mlwyddyn academaidd 2013/14. Yn ogystal, dyfarnwyd £8.7 miliwn o gymorth wedi'i dargedu heb gynnwys y Lwfans Myfyrwyr Anabl i 3,000 o fyfyrwyr ym mlwyddyn academaidd 2014/15, o gymharu â 2,900 o ymgeiswyr yn derbyn £8.3 miliwn yn 2013/14.
- 6.18 Mae Tabl 3 yn rhoi dadansoddiad o gymorth myfyrwyr a ddyfarnwyd i fyfyrwyr rhan-amser ym mlynnyddoedd academaidd 2012/13 i 2014/15. Yn 2014/15, talwyd £13.5 miliwn o grantiau a benthyciadau i 7,900 o fyfyrwyr rhan-amser, o gymharu â 7,000 o fyfyrwyr yn derbyn £15.3 miliwn ym mlwyddyn academaidd 2013/14³⁹.

Tabl 3: Cymorth i fyfyrwyr rhan-amser a ddyfarnwyd, yn ôl blwyddyn academaidd

	2012/13		2013/14		2014/15	
	£m	Myfyrwyr	£m	Myfyrwyr	£m	Myfyrwyr
Benthyciadau Ffioedd Dysgu	2.3	2,200
Grant Ffioedd Dysgu	4.2	6,400	4.1	6,200	2.2	3,300
Lwfans Myfyrwyr Anabl	0.7	300	0.8	300	0.6	300
Grant Cwrs a Grantiau i Ddibynyddion	10.7	7,200	10.4	6,900	8.4	5,700
Total	15.6	7,300	15.3	7,000	13.5	7,900

.. – dim ar gael, ' * ' - dibwys ond ddim yn sero

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr

Nid oes Benthyciadau Cynhaliath ar gael i fyfyrwyr rhan-amser ac nid oedd Benthyciadau Ffioedd Dysgu ar gael cyn 2014/15.

- 6.19 Mae gwybodaeth a gasglwyd am ddisbarthiad y Grant Ffioedd Dysgu a ddyfarnwyd i brifysgolion yng Nghymru ac i brifysgolion yng ngweddill y DU yn ystod 2012/13 i 2014/15 wedi'i chynnwys yn Nhabl 4 (mae'n cynnwys myfyrwyr o'r UE yn SAU Cymru, a'r holl fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n derbyn cymorth).

³⁷ Mae'r cynnydd i'w briodoli'n bennaf i ychwanegu cohort newydd at y niferoedd sy'n derbyn bob blwyddyn, yn dilyn cyflwyno'r Grant Ffioedd Dysgu yn 2012/13.

³⁸ Ffigur dros dro yw ffigur y Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gyfer 2014/15.

³⁹ Ar adeg ysgrifennu, mae data'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ar gyfer y swm o gymorth a ddyfarnwyd i fyfyrwyr rhan-amser yn 2014/15 yn ddata dros dro yn unig. Darperir y data terfynol ym mis Tachwedd 2016.

Tabl 4: Dosbarthiad y Grant Ffioedd Dysgu a ddyfarnwyd i ymgesiwyr sy'n hanu o Gymru a'r UE, yn ôl blwyddyn academiaidd

	Grantiau Ffioedd Dysgu a ddyfarnwyd i SAU Cymru (£m)	Grantiau Ffioedd Dysgu a ddyfarnwyd i weddill SAU y DU (£m)	Cyfanswm (£m) *
2012/13	73.4	35.6	109
2013/14	103.3	64.1	167.4
2014/15 Dros dro	144.7	93.9	238.6

* Amrywiad gyda'r cyfansymiau yn sgil talgrynnu.

Ffynhonnell: Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr

6.20 Mae Tabl 5 yn cynnwys gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru am incwm ffioedd dysgu i sefydliadau Cymru gan fyfrwyr o fannau eraill yn y DU.

Tabl 5: Incwm ffioedd dysgu i SAU Cymru gan fyfrwyr gweddill y DU, yn ôl blwyddyn academiaidd

	Incwm ffioedd dysgu (£m)
2012/13	59
2013/14	99
2014/15	129

Source: Ffynhonnell Llywoderaeth Cymru
(gan ddefnyddio data incwm mwyaf diweddar y sector)

6.21 Mae'r data'n dangos bod incwm ffioedd data i SAU Cymru gan fyfrwyr sy'n astudio'n llawn amser ac sy'n byw mewn rhannau eraill o'r DU fel arfer yn uwch na chyfanswm y taliadau o Grant Ffioedd Dysgu a delir i sefydliadau yn Lloegr, yr Alban ac Iwerddon. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, mae patrymau recriwtio yn newid.

6.22 Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2014-15, roedd cyfanswm gweddill y benthyciad myfyriwr ar ôl i'w dalu gan fyfrwyr sy'n byw yng Nghymru fel arfer yn £2.9 biliwn⁴⁰, 12% yn uwch na diwedd 2013-14. Erbyn diwedd 2014-15, roedd 264,100 o fenthycwyr benthyciad myfyriwr, gyda 163,600 (62%) ohonynt yn gorfod ad-dalu. Roedd y swm cyfartalog a ad-dalwyd gan bob benthyciwr a wnaeth ad-daliad ym mlwyddyn treth 2013-14 yn amrywio o £360, ar gyfer cohort 2013 yn ei flwyddyn ad-dalu cyntaf, i £940 i cohort 2006 (ar ôl saith mlynedd o hanes ad-dalu wedi'i gofnodi). Roedd y ddyled gyfartalog wrth ddechrau ad-dalu yn amrywio o £6,980 (cohort 2002) i £19,010 (cohort 2015).

⁴⁰ Mae yna wahaniaeth rhwng beth sy'n ddyledus a gwerth y llyfr benthyciad. Mae Cyfrifon Cyfunol Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 yn dangos bod gwerth llyfr benthyciad Cymru yn £2.02 biliwn (Nodyn 11 Tudalen 48) <http://gov.wales/about/civilservice/how-we-work/facts-figures/ourfinance/welsh-government-consolidated-accounts/welsh-government-annual-accounts-2014-2015/?lang=en>.

- 6.23 Mae amcangyfrifon darpariaeth Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (tâl RAB⁴¹) ar gyfer Cymru wedi'u diwygio ers cyhoeddi'r adroddiad interim. I israddedigion llawn amser, mae'r amcangyfrifion diwygiedig ar gyfer 2015/16 yn 26.4% ar gyfer benthyciadau sy'n gysylltiedig â chohortau myfyrwyr cyn-2012 a 9.8% ar gyfer benthyciadau sy'n ymwneud â'r drefn newydd⁴² (Yn Lloegr, mae'r amcangyfrif diwygiedig o'r tâl RAB i'r holl fenthycwyr sydd â benthyciad incwm wrth gefn rhwng 20% a 25%⁴³). Mae amcangyfrif y tâl RAB ar gyfer israddedigion rhan-amser gyda benthyciad yn 22%. Dylid nodi bod yr Adran Busnes, Arloesed a Sgiliau'n darparu'r amcangyfrif hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru a Lloegr; mae'r modelu a gwblhawyd i gefnogi'r Adolygiad hwn yn amcangyfrif y bydd tâl RAB ar gyfer myfyrwyr rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn llawer is (Adran 8.2).
- 6.24 Roedd cyflwyno ffioedd uwch yn 2012/13 a'r trefniadau newydd ar gyfer cymorth i fyfyrwyr yn golygu bod y drefn o gyllido israddedigion llawn amser yn symud i ffwrdd o gyllido seiliedig ar grant i SAU yng Nghymru i drefn gyllido sy'n fwy seiliedig ar ffioedd. Mae'r arwyddion yn awgrymu bod incwm gwirioneddol i'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi cynyddu'n gyffredinol mewn termau absoliwt ers 2011/12.
- 6.25 Mae cyflwyno ffioedd dysgu uwch wedi cael effaith sylweddol ar CCAUC, wrth i fwy o'r gyllideb addysg uwch gael ei dyrannu i dalu am y Grant Ffioedd Dysgu rhan-amser a'r incwm gan fyfyrwyr o fannau eraill yn y DU gael ei dalu'n uniongyrchol i sefydliadau. Mae hyn yn golygu, wrth i fwy o gyllid craidd CCAUC gael ei ddefnyddio i dalu cost ffioedd dysgu uwch i fyfyrwyr llawn amser sy'n hanu o Gymru, bod gan CCAUC lai o arian i'w ddsbarthu i sefydliadau i hyrwyddo blaenoriaethau Llywodraeth Cymru⁴⁴. Mae yna ganlyniad anfwriadol i hyn hefyd sef y bydd y toriadau yng nghyllideb presennol CCAUC yn cael effaith anghymesur, gan effeithio ar y meysydd hynny y mae'n eu hariannu'n unig (fel pynciau cost uchel neu ddarpariaeth i israddedigion rhan-amser), pe bai'r grant ffioedd llawn amser yn cael ei ddiogelu.
- 6.26 Yn ystod yr Adolygiad, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Athro Ellen Hazelkorn i gynnal adolygiad ar wahân o drefniadau llywodraethu addysg drydyddol. Rydym wedi ystyried adroddiad yr Athro Hazelkorn ac wedi nodi, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r adroddiad eto, bod argymhellion yr Adroddiad hwn yn gymharol debyg i argymhellion yr adroddiad. Yn arbennig, mae'r Adolygiad yn cefnogi cael corff hyd braich – fel CCAUC – ond yn nodi y

⁴¹ Y tâl RAB yw'r tâl canrannol a ddefnyddir i adlewyrchu costau llawn darparu benthyciadau myfyrwyr i'r Llywodraeth. Mae'n cynnwys llog darpariaeth cymhorthdal (cost amcanol cymorthdal benthyciadau myfyrwyr i'r Llywodraeth) a darpariaeth dileu dyled (cyfran o werth enwol rhoi benthyciad na ddisgwylir iddo gael ei ad-dalu).

⁴² Yn flaenorol, dyma oedd yr amcangyfrifon tâl RAB ar gyfer Cymru ar gyfer 2014/15: 38% ar gyfer cohortau cyn-2012 a 27% ar gyfer cohortau ar ôl 2012. Mae'r amcangyfrifon o dâl RAB diwygiedig ar gyfer 2015/16 yn is, yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt a ddefnyddir gan Drysorlys EM, o 2.2% i 0.7%.

⁴³ Cyn y gostyngiad yn y gyfradd ddisgownt, roedd y tâl RAB llawn amser yn Lloegr a oedd yn gysylltiedig â chohortau cyn-2012 o fyfyrwyr yn 42%, tra bod yr amcangyfrif cymharol o'r tâl RAB ar gyfer y drefn newydd (ôl-2102) yn 46%. Cyfeirir at y cyfraddau diwygiedig ac is yn y Cwestiwn Ysgrifenedig amgaeedig a atebwyd gan Jo Johnson, Gweinidog y Wladwriaeth, Prifysgolion a Gwyddoniaeth ar 1 Chwefror 2016 <http://www.theyworkforyou.com/wrans/?id=2016-01-27.24589.h>.

⁴⁴ Dywedodd CCAUC fod eu cyllid i ddarparwyr AU yng Nghymru wedi gostwng o £216 miliwn i £151 miliwn (yn seiliedig ar gyllid gwirioneddol a dalodd CCAUC i ddarparwyr) rhwng blynyddoedd academaidd 2011/12 a 2015/16. Dywedodd CCAUC hefyd: erbyn 2015/16, mae disgwyl i gost y Grant Ffioedd Dysgu fod yn sylweddol uwch na chyfanswm y cyllid a ddyrannodd CCAUC ar gyfer addysgu israddedigion llawn amser/TAR yn 2011/12.

bydd angen iddo gael dylanwad ariannol yn ogystal â dylanwad rheoleiddiol er mwyn gallu gweithredu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

6.27 Mater allweddol sydd wedi datblygu yn ystod yr Adolygiad oedd gallu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr i ymateb yn gyflym a hyblyg i unrhyw newidiadau arfaethedig i'r system cymorth a chyllido myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru.

7. Themâu a negeseuon sy'n dod i'r amlwg yn sgil y sylfaen dystiolaeth

7.1 Yn ystod cyfnod ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu tystiolaeth yr Adolygiad, mae rhai themâu a negeseuon cyffredin wedi dod i'r amlwg⁴⁵. Mae'r rhain hefyd wedi llywio barn ac argymhellion y Panel Adolygu.

7.2 Mae'r set gyntaf o themâu yn gyffredinol:

- i) Mae'r sector prifysgol yng Nghymru yn uchel ei barch ac yn sector y gall y wlad ymfalchïo ynddo. Mae'r holl grwpiau o randdeiliaid a chyfranwyr at yr Adolygiad yn rhannu uchelgais glir ar gyfer sector AU cyfartal, cynaliadwy o ansawdd uchel sy'n gystadleuol yn rhyngwladol, yn gallu diwallu anghenion Cymru ac yn gyrchfan o ddewis ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru ac o'r tu allan i Gymru.
- ii) Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr a fynegodd farn yn credu nad yw cadw'r trefniadau presennol yn opsiwn.
- iii) Yn gyffredinol, mae diffyg consensws ynglŷn â'r ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod y bydd angen gwneud dewisiadau anodd.
- iv) Mae pryderon ynglŷn â'r peryglon posibl i'r sector AU yng Nghymru yn sgil newidiadau i bolisi Llywodraeth y DU.

7.3 Daeth set o themâu i'r amlwg yn ymwneud ag incwm, cynaliadwyedd a lefelau ffioedd y sector AU:

- v) Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi elwa'n gyffredinol ar y cynydd net mewn incwm ers cyflwyno'r drefn bresennol o ffioedd a chyllido – er mae'n bosibl na fydd y cynnydd mor uchel â'r amcangyfrifon, ac mae newidiadau mewn lefelau incwm yn amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau⁴⁶.
- vi) Ceir pryderon, yn enwedig ymysg ymatebwyr y sector AU, ynglŷn â bwlch cyllido mawr a chynyddol yn lefel y buddsoddiad mewn addysg uwch yng Nghymru o gymharu â llefydd eraill yn y DU. Credir bod hyn yn effeithio ar allu sefydliadau AU i fuddsoddi, sy'n golygu bod sefydliadau yng Nghymru yn llai cystadleuol ac yn llai abl i ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

⁴⁵ Mae'r themâu a'r negeseuon yr adroddwyd arnynt cynt yn yr Adroddiad Interim yn dal mewn bod. Mae'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob thema a neges wedi'i darparu yn yr adroddiad interim.

⁴⁶ Cyn ac ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Interim, cyngorodd CCAUC y Panel Adolygu na fydd y cynnydd mewn incwm i'r sector AU yng Nghymru mor uchel â'r disgwyl o bosibl a bod yr effaith yn wahanol iawn ar draws y sector. Cafodd y Panel gip cynnar ar ddogfen a gomisiynwyd gan CCAUC ond nad yw wedi'i chwblhau eto sy'n dadansoddi cyllid ac incwm ffioedd cyn ac ar ôl cyflwyno'r drefn ffioedd newydd. Mae eu gwaith hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar ddwy flynedd o ddata'r drefn newydd (2012/13 a 2013/14).

- vii) Ceir teimlad cryf nad yw trefn gyllido'r sector AU a chyllid myfyrwyr bresennol yng Nghymru yn gynaliadwy yn y dyfodol.
- viii) Oherwydd pryderon yn ymwneud â chynaliadwyedd, mae llawer o ymatebwyr yn credu bod angen ailedrych ar bolisi'r grant ffioedd dysgu – nodwyd ymateb cytbwys yn y cyswllt hwn.
- ix) Ceir teimlad nad yw'r uchafswm ffioedd dysgu £9,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser yn bodloni'r gost o ddarparu pynciau cost uchel, a'i fod yn creu tensiynau mewnol mewn sefydliadau AU oherwydd traws-gymhorthdal.
- x) Ceir teimlad nad yw'r uchafswm ffioedd dysgu £9,000 y flwyddyn ar gyfer cyrsiau israddedig llawn amser yn cynnig gwerth am arian rhesymol ar gyfer myfyrwyr.

7.4 Daeth set o themâu i'r amlwg yn ymwneud â dyled myfyrwyr a chymorth cynhaliaeth:

- xi) Mae tâl darpariaeth Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB) Cymru yn isel o gymharu â Lloegr, ac mae lefelau dyled myfyrwyr AU sy'n hanu o Gymru yn is na lefelau dyled myfyrwyr sy'n hanu o Loegr.
- xii) Mae'r ymatebwyr yn credu bod lefel y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn hael o gymharu â llefydd eraill yn y DU.
- xiii) Roedd pryderon, yn enwedig ymysg gweithwyr proffesiynol cymorth i fyfyrwyr ac ehangu cyfranogiad, ynglŷn â llythrennedd ariannol a myfyrwyr yn dod i arfer â lefelau uchel o ddyled myfyrwyr – a all fod â goblygiadau ar gyfer benthyg yn y dyfodol.
- xiv) Ar y llaw arall, mae'r sylfaen dystiolaeth yn awgrymu bod 'ofn dyled' yn elfen allweddol mewn cyfres gymhleth o ffactorau sy'n dylanwadu ar y penderfyniad i astudio a pharhau mewn addysg uwch, a bod effaith anghymesur ar bobl o deuluoedd incwm is neu ardaloedd tlawd.
- xv) Ceir consensws cryf, yn enwedig ymysg myfyrwyr, cyrff sy'n cynrychioli myfyrwyr, staff cymorth a gweithwyr proffesiynol ehangu cyfranogiad, bod lefel y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael yn annigonol i dalu'r costau gwirioneddol sy'n cael eu hysgwyddo gan fyfyrwyr, a bod y mater hwn yn bwysicach i fyfyrwyr na lefel y ffioedd dysgu a'r cymorth ffioedd dysgu. Hefyd, ceir teimlad nad yw'r trefniadau presennol yn darparu'n ddigonol ar gyfer myfyrwyr o aelwydydd incwm canolig yn benodol.

7.5 Daeth set o themâu i'r amlwg yn ymwneud â'r cyd-destun gweithredol:

- xvi) Pryder ynglŷn â rôl newidiol CCAUC ac, yn benodol, y ffaith fod y gostyngiad yn lefel dyraniad Llywodraeth Cymru i'r Cyngor yn effeithio ar ei allu i weithredu a chyflwyno polisi Llywodraeth Cymru.

xvii) Yr angen i ymgysylltu yn y dechrau â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar newidiadau polisi yn y dyfodol neu fentrau newydd.

7.6 Daeth set o themâu i'r amlwg yn amlwg yn amlwg yn gryfhau gallu ymchwil:

xviii) Pwysigrwydd sylfaen ymchwil gref a chynaliadwy gyda'r gorau yn y byd o safbwynt enw da'r sector AU yng Nghymru a chysylltiadau â pherfformiad economaidd.⁴⁷

xix) Pryder ynglŷn â phrinder ymchwilwyr academaidd yng Nghymru; diffyg o ran pynciau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth); a phryder ynglŷn â gallu'r sector AU i ddenu incwm Research Council UK.

7.7 Daeth set o themâu i'r amlwg yn ymwneud â'r angen am sgiliau a chymwysterau lefel uwch, hyfforddiant proffesiynol, a phwysigrwydd cydweithredu a llwybrau dysgu AB ac AU:

xx) Cyfraniad pwysig darparwyr addysg uwch (prifysglion a cholegau) at godi'r sylfaen sgiliau lefel uwch yng Nghymru, a'r ymateb i'r cynnydd rhagamcanol yn y galw (galw ehangu a disodli) am sgiliau a chymwysterau lefel uwch.

xxi) Safbwyntiau cwbl wahanol ynglŷn ag a ddylai trefniadau cyllido'r dyfodol gael eu haddasu i dargedu darpariaeth cyrsiau neu anghenion sgiliau penodol – yn enwedig er mwyn hyrwyddo pynciau STEM.

xxii) Cyfraniad canolog darparwyr addysg uwch Cymru at sicrhau llif cyson o newydd-ddyfodiaid cymwysedig i swyddi proffesiynol yng Nghymru ac at ddatblygu'r gweithlu presennol.

xxiii) Pwysigrwydd gwaith cydweithredol, llwybrau effeithiol rhwng AB ac AU a'r angen i ddiffinio rôl AU oddi mewn i AB yn glir – mae angen mynegi hyn yn gliriach a diffinio fframwaith gwell i gyllido a chynllunio'r gwaith.

7.8 Daeth set o themâu i'r amlwg yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Gymraeg:

xxiv) Pwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Gymraeg; barn gymysg ynglŷn ag i ba raddau y mae'r trefniadau presennol yn cefnogi mesurau i ehangu mynediad i AU drwy gyfrwng y Gymraeg; a chydabyddiaeth o rôl y Coleg Gymraeg Cenedlaethol.

xxv) Cyfraniad allweddol darparwyr addysg uwch at ddatblygu gweithlu dwyieithog medrus iawn ac at baratoi ar gyfer cenedl ddwyieithog.

xxvi) Cymorth i addysgu diwylliant a hanes Cymru, Gwasg Prifysgol Cymru a Geiriadur Prifysgol Cymru.

⁴⁷ Gellir gweld crynodeb o'r prif faterion yn y cyd-destun hwn yn: Jones, R., *The UK's Innovation Deficit & How to Repair it*, Papur Rhif 6 SPERI, Prifysgol Sheffield (2013).

7.9 Daeth set o themâu i'r amlwg yn ymwneud â moddau a lefelau astudio gwahanol:

xxvii) Roedd llawer o ymatebwyr yn credu'n gryf nad yw'r trefniadau presennol yn sicrhau cydbwysedd cyllido priodol rhwng moddau a lefelau astudio gwahanol. Roedd y rhan fwyaf yn pryderu am flaenoriaethu cyllid ar gyfer darpariaeth i israddedigion llawn amser, yn enwedig ar ffurf y grant ffioedd dysgu, a'r ffaith fod llai o gymorth ar gael ar gyfer myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr ôl-radd.

xxviii) Daeth nifer o themâu a negeseuon i'r amlwg mewn perthynas ag astudio'n rhan-amser yn benodol:

- Er bod y gostyngiad mewn darpariaeth ran-amser yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf yn peri pryder, ni fu cynddrwg â'r gostyngiad yn Lloegr. Ni fu gostyngiad ym mhob maes darpariaeth chwaith (roedd nifer y myfyrwyr gradd gyntaf rhan-amser wedi cynyddu) – sy'n golygu ei bod yn anodd cyfeirio at un sector rhan-amser ac un duedd wrth ystyried patrymau newid mewn darpariaeth ran-amser.
- Mae astudio rhan-amser yn cael ei gysylltu'n gryf â chyflogadwyedd a'r economi, a chyda symudedd cymdeithasol.
- Mae cymhwysedd ar gyfer cymorth benthyciad rhan-amser yn gyfyngedig i'r rhai sy'n astudio ar lefel ddwysedd o 25% ac uwch. Mae pryderon bod hyn yn cyfyngu ar nifer yr unigolion sy'n gallu manteisio ar gymorth i fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser.
- Nododd yr ymatebwyr elfennau cadarnhaol o'r system bresennol yn ymwneud ag astudio'n rhan-amser, gan gynnwys ffioedd pro-rata is ar gyfer astudio'n llawn amser, cyflwyno benthyciadau ar gyfer astudio'n rhan-amser a grantiau cwrs ar gyfer myfyrwyr cymwys (er bod cyfyngiadau ar yr hawl i fenthyciadau).

Roedd ymchwil a gomisiynwyd yn ymwneud â darpariaeth ran-amser yn amlygu nifer o broblemau pwysig o safbwynt darpariaeth ran-amser⁴⁸:

- Nid yw cymorth ar gyfer darpariaeth ran-amser mewn datganiadau polisi yn arwain bob amser at gymorth ariannol diriaethol.
- Mae cymorth ariannol sy'n cael ei gynnig yn ganolog a gan sefydliadau unigol yn ffafrio darpariaeth llawn amser.
- Caiff myfyrwyr llawn amser eu trin fel 'y norm', tra bod dysgwyr rhan-amser yn cael eu gweld fel rhai 'ychwanegol'.

⁴⁸ Tystiolaeth i'r Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru: Addysg Uwch Ran-amser yng Nghymru: Adroddiad Terfynol WISERD (Mawrth 2015). Nodwyd yn ystod cyfweiliadau gyda chyfranwyr allweddol yn y sector AU.

- Er mwyn sicrhau trefniadaeth fwy effeithiol ym maes darpariaeth addysg uwch ran-amser, mae angen parchu'r ddwy fath o ddarpariaeth i'r un graddau.
- xxix) Daeth nifer o themâu a negeseuon i'r amlwg mewn perthynas â darpariaeth ôl-radd yn benodol:
- Pryder bod buddsoddiad mewn darpariaeth ôl-radd yng Nghymru yn is nag yng ngweddill y DU a'i fod yn bygwth niweidio'r sector AU ac effeithio ar berfformiad economaidd.
 - Pryder ynglŷn â cholli cylidd ar gyfer myfyrwyr ôl-radd llawn amser o 2014/15 ymlaen – sefyllfa sy'n unigryw i'r DU.
 - Teimlad cryf bod Cymru o dan anfantais gymharol ac yn wynebu her sylweddol wrth geisio denu myfyrwyr ôl-radd yn y dyfodol os nad yw'n gwella mynediad i gyllid myfyrwyr – oherwydd y gystadleuaeth y bydd yn ei hwynebu o gynlluniau cyllido mewn rhannau eraill o'r DU.
- xxx) Daeth set o themâu a negeseuon i'r amlwg mewn perthynas ag ehangu cyfranogiad:
- Mae cysylltiad cryf rhwng anfantais economaidd a chymdeithasol a lefelau cyfranogiad mewn AU yng Nghymru.
 - Mae llawer o'r cysylltiad rhwng cefndir economaidd-gymdeithasol a chyfranogiad mewn AU i'w briodoli i gyrhaeddiad addysgol blaenorol, a hwn yw'r ffactor pwysicaf.
 - Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod amodau economaidd neu gymdeithasol unigryw neu'r gwahaniaethau polisi rhwng Cymru a Lloegr mewn perthynas â chyfranogiad mewn AU wedi arwain at wahaniaethau mawr mewn ffactorau sy'n effeithio ar batrymau cyfranogi, heblaw bod wedi gostwng mwy nifer y rhai sy'n astudio'n rhan-amser yn Lloegr ers cyflwyno'r diwygiadau cyllido yno yn 2012/13.
 - Ar ôl ystyried ffactorau eraill (cyrhaeddiad addysgol blaenorol, cefndir ethnig, manteisio ar brydau ysgol am ddim, math o ysgol ac ati), nid y rhai mwyaf difreintiedig (y cwintel sydd ar waelod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) sydd leiaf tebygol o gyfranogi mewn AU, ond y grŵp sy'n uwch na nhw (y pedwerydd cwintel).

- Mae cyfraddau mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch yng Nghymru yn is na mewn rhannau eraill o'r DU⁴⁹. Fodd bynnag, mae rhai arwyddion cadarnhaol yn amlwg, yn enwedig o safbwynt gallu myfyrwyr o Gymru sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig i ymgymryd ag addysg uwch.
- Mae cysylltiadau cryf rhwng cyllid myfyrwyr a pholisïau ehangu mynediad, a rhaid ystyried y naill gyda'r llall. Wrth asesu'r dulliau mwyaf effeithiol o ehangu mynediad i AU, cydnabyddir bod angen ystyried gwaith ysgolion a cholegau, yn ogystal â gwaith prifysgolion.
- Mae angen edrych yn ofalus ar ysgogwyr polisi a sut mae cyllid yn cael ei ddefnyddio gan SAU i gyflawni'r canlyniadau dymunol – gan fod ehangu mynediad a chyfranogiad mewn addysg uwch yn ymwneud â helpu myfyrwyr i gyraedd sefydliadau a'u cynorthwyo i aros a llwyddo.

xxxi) Daeth set o themâu a negeseuon i'r amlwg yn ymwneud â'r llif trawsffiniol o gyllid a myfyrwyr:

- Mae ffiniau daearyddol system AU Cymru yn hynod hydraiddd, ac mae llif sylweddol o fyfyrwyr i mewn i Gymru ac allan o Gymru.
- Mae rhai ymatebwyr yn pryderu bod sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU (Lloegr yn benodol) yn manteisio ar gyllid o'r grant ffioedd dysgu ar draul y sector AU yng Nghymru; tra bod eraill yn nodi bod cyfanswm y grant ffioedd dysgu a ddyfarnwyd i fyfyrwyr sy'n astudio yng ngweddill y DU yn is na'r incwm o ffioedd dysgu sy'n dod i sefydliadau AU yng Nghymru gan fyfyrwyr sy'n huanu o rannau eraill o'r DU.
- Mae pryderon wedi'u mynegi ynglŷn â doniau graddedigion yn llifo o'r wlad, a'r posibilrwydd y bydd polisi'r grant ffioedd dysgu yn gwaethygu'r sefyllfa. Fodd bynnag, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu nad yw'r graddedigion yn llifo allan o'r wlad ar raddfa fawr – yn rhannol oherwydd bod y llif o raddedigion i mewn i Gymru yn gwneud iawn am yr all-lif.
- Ar lefel gyfunol, mae myfyrwyr sy'n croesi'r ffin o Gymru i Loegr (ac i rannau eraill o'r DU) yn tueddu, fel grŵp, i ddod o gefndir ychydig yn fwy breintiedig na'r rhai sy'n aros ac yn astudio yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw myfyrwyr sy'n huanu o Gymru sy'n croesi'r ffin i astudio mor gyfoethog â'r rhai sy'n croesi'r ffiniau yn yr Alban a Lloegr – mae myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd yn croesi'r ffin.

⁴⁹ Mae'r adroddiad interim yn dangos ffigurau 2013. Ers hynny, cyfranogiad myfyrwyr sy'n huanu o Gymru sydd wedi cynyddu fwyaf. Mae'r bylchau rhwng Cymru a Lloegr, a rhwng Cymru a Gogledd Iwerddon yn arbennig wedi lleihau <https://www.ucas.com/sites/default/files/eoc-report-2015-v2.pdf> tud.33


8. Gwaelodlin cymorth myfyrwyr

- 8.1 Derbyniodd y Panel Adolygu dystiolaeth ar amcangyfrifon o gostau pecynnau cyllido posibl i gefnogi addysg uwch a chyllid myfyrwyr i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, i lywio'r gwaith o ddatblygu ei argymhellion. Cymharwyd pecynnau cyllido posibl yn erbyn amcangyfrifon o gostau'r system bresennol, y cyfeirir atynt fel y 'gwaelodlin'. Mae'r amcangyfrifon o gostau sy'n gysylltiedig â'r gwaelodlin a'r pecyn gyllido a argymhellir, a amlinellir yn yr adrannau sy'n dilyn, yn adlewyrchu cyfnod astudio cyfan y cohort o fyfyrwyr, nid un flwyddyn.
- 8.2 Cyflawnwyd gwaith modelu senario i bennu uchafswm y cwmpas costau, yn seiliedig ar fyfyrwyr yn manteisio'n llawn ar y cymorth oedd ar gael iddynt⁵⁰. Mae gwaelodlin y cwmpas costau'n seiliedig ar bolisiau cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2015/16, ond yn defnyddio niferoedd myfyrwyr 2014/15 fel y data diweddaraf sydd ar gael pan gwblhawyd y gwaith modelu senario ar gyfer y Panel Adolygu. Mae'r cymorth gwaelodlin sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig sy'n hanu o Gymru wedi'i ddisgrifio yn yr adran hon.

Cymorth i israddedigion llawn amser

- 8.3 Mae gwaelodlin cyfredol y pecyn cymorth sylfaenol blynyddol i fyfyrwyr israddedig llawn amser sy'n hanu o Gymru yn cynnwys cyfuniad o fenthyciadau a grantiau i dalu ffioedd dysgu a chynorthwyo gyda chostau byw (y cyfeirir atynt fel 'cynhaliath' yn aml). Mae'r pecyn sydd ar gael yn cael ei ddangos yn ôl incwm yr aelwyd yn Ffigur 3 a'r manylion wedi'u hegluro isod:

Ffigur 3: Gwaelodlin cymorth blynyddol i fyfyrwyr llawn amser*, fesul incwm yr aelwyd



* Mae'r Benthyciad Cynhaliath a ddangosir ar gyfer myfyrwr sy'n byw i ffwrdd o gartref, y tu allan i Lundain

⁵⁰ Nid yw myfyrwyr cymwys byth wedi manteisio'n llawn ar y gwahanol elfennau o gymorth myfyrwyr sydd ar gael iddynt, gan fod dulliau eraill o gymorth ar gael i leiafrif o fyfyrwyr. At ddibenion modelu, mae cymryd y bydd pawb yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael yn sicrhau cymhariaeth glir rhwng yr opsiynau.


- 8.4 Mae cymorth ar gyfer ffioedd yn cynnwys Benthyciad Ffioedd Dysgu nad yw'n amodol ar brawf modd o hyd at £3,810 a Grant Ffioedd Dysgu nad yw'n amodol ar brawf modd, i dalu'r gwahaniaeth rhwng uchfaswm y Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael a'r ffioedd dysgu gwirioneddol a godir gan brifysgol a ariennir gan arian cyhoeddus yn y DU. £5,190 yw uchafswm y Grant Ffioedd Dysgu sydd ar gael (os codir ffioedd dysgu o £9,000), sef cost o hyd at £945 miliwn i'r cohort cyfan.
- 8.5 Mae cymorth ar gyfer costau byw'n cynnwys Grant Cynhaliaeth sy'n amodol ar brawf modd o hyd at £5,161 i fyfyrwyr sydd ag incwm aelwyd o hyd at £18,370, gyda grant rhannol ar gael ar gyfer incwm aelwyd uwchben hynny ac o dan £50,020. Cost amcanol y grant hwn i'r cohort astudio yw £440 miliwn. Mae symiau grant is yn cael eu disodli'n rhannol gan Fenthyciad Cynhaliaeth sy'n amodol ar brawf modd, gyda'r uchafswm yn dibynnu ar leoliad (£4,162 i fyfyrwyr sy'n byw gartref, £5,376 i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain a £7,532 i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref yn Llundain). Mae chwarter (25%) y Benthyciad Cynhaliaeth yn amodol ar brawf modd i fyfyrwyr sydd ag incwm aelwyd yn uwch na'r trothwy cymhwysedd y Grant Cynhaliaeth (£50,020). Mae grantiau a lwfansau wedi'u targedu eraill hefyd ar gael i fyfyrwyr llawn amser, lle bo'n briodol, yn cynnwys: Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Mae'r Panel Adolygu'n credu'n gryf bod y rhain yn bwysig ac fe'u trafodir ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.
- 8.6 Mae'r corff cyllido/rheoleiddio dynodedig (Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru - CCAUC)⁵¹ yn talu cyllid grant ychwanegol yn uniongyrchol i SAU Cymru, i gefnogi darparu pynciau cost uchel i israddedigion llawn amser. Mae prifysgolion yn derbyn £9,600 am bob myfyriwr Meddygaeth Glinigol a Deintyddiaeth Glinigol a £3,600 am bob myfyriwr Celfyddydau Perfformio Conservatoire y flwyddyn, ar gost amcanol o £46 miliwn i'r cohort.

Cymorth i israddedigion rhan-amser

8.7 Mae gwaelodlin y pecyn cymorth sylfaenol blynyddol i fyfyrwyr israddedig rhan-amser sy'n hanu o Gymru yn cynnwys benthyciad i dalu ffioedd dysgu a Grant Cwrs sy'n amodol ar brawf modd. Mae'r pecyn sydd ar gael yn cael ei ddangos yn ôl incwm yr aelwyd yn Ffigur 4 a'r manylion wedi'u hegluro isod.

⁵¹ CCAUC yw'r corff cyllido dynodedig ac felly ceir cyfeiriadau at y corff hwnnw yn yr adroddiad drwyddo draw. Mae'r Panel yn nodi cynigion yn Adroddiad Hazelkorn, *Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru* (Mawrth 2016), am gorff dynodedig newydd ar gyfer yr holl ddarpariaeth addysg ôl-orfodol a ariennir gan arian cyhoeddus, ond yn disgwyl ymateb Llywodraeth Cymru i'r cynnig hwnnw.

Ffigur 4: Gwaelodlin cymorth blynyddol i fyfyrwyr rhan-amser*, fesul incwm yr aelwyd



*Myfyrwr mewn prifysgol yng Nghymru, yn astudio ar ddwystr o 50% neu fwy

- 8.8 Mae'r Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar ddwystr o 25% neu fwy (cyfwerth â myfyrwyr llawn amser) yn hyd at £2,625, i fyfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, a £6,750 i fyfyrwyr mewn prifysgolion y DU a ariennir gan arian cyhoeddus y tu allan i Gymru. Yn achos myfyrwyr ar gyrsiau sydd â dwystr o 50% neu fwy, mae Grant Cwrs sy'n amodol ar brawf modd o hyd at £1,155 ar gael. Mae myfyrwyr sydd ag incwm aelwyd o dan £26,095 yn derbyn y grant llawn ac mae grant rhannol ar gael pan fo incwm yr aelwyd rhwng y trothwy hwn a £28,180. Cost amcanol y grant hwn ar gyfer y cohort astudio yw £16 miliwn. Mae grantiau a lwfansau wedi'u targedu eraill hefyd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser, lle bo'n briodol, yn cynnwys: Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynol, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Mae'r Panel Adolygu'n credu'n gryf bod y rhain yn bwysig ac fe'u trafodir ymhellach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn
- 8.9 Mae CCAUC yn talu grant dysgu ac addysgu sefydliadol i SAU Cymru ar gyfer myfyrwyr rhan-amser. Mae'r grant hwn yn cefnogi darpariaeth ran-amser ac yn lliniaru cynnydd sylweddol mewn ffioedd. Mae'n amhosibl rhagweld beth yw'r gost yn union ar gyfer y cohort, ond yn seiliedig ar y £27 miliwn a ddyrannwyd yn 2015/16, mae'r gost amcanol tua £94 miliwn ar gyfer y cohort cyfan.

9. Y system arfaethedig – argymhellion y Panel Adolygu

- 9.0.1 Rydym nawr yn symud at ein cynigion ar gyfer system Addysg Uwch yng Nghymru a fydd yn sbarduno twf ac yn ysgogi swyddi a hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol. Nodwn yn y lle cyntaf ein bod yn cytuno â'r Athro Hazelkorn bod rhaid i Addysg Uwch fod yn rhan o system addysg drydyddol a bod rhaid ymdrechu o'r newydd i annog a hwyluso dilyniant o Addysg Bellach (AB) i AU, i alluogi myfyrwyr i astudio yn y modd sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau; ac i weithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr o bob sector i sicrhau bod Cymru'n datblygu a chynnal y sgiliau angenrheidiol dros y degawdau nesaf. Mae ein hargymhellion, felly, yn cynnig dulliau newydd, syml ar gyfer cyllido myfyrwyr israddedig ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i'r maes hwn o gwbl - yn ysbryd y rhan gyntaf y paragraff hwn maent yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o feysydd addysg uwch ac yn creu pecyn o gynigion cydgysylltiedig a fydd o fantais i Gymru yn y tymor byr, tymor canolig a'r tymor hir yn ein barn ni.
- 9.0.2 Yn ganolog i'n cynigion mae ail-lunio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr i symud tuag at system syml sy'n cydnabod costau cyfannol astudiaethau addysg uwch i fyfyrwyr; ac sy'n gwrandao ar y sylwadau cyson gan fyfyrwyr mai cymorth cynhaliaeth sy'n rhoi'r hyblygrwydd iddynt reoli eu sefyllfa ariannol ac, yn achos rhai myfyrwyr, i oresgyn yr heriau ariannol sy'n gysylltiedig â chyfnod o astudiaeth addysg uwch. Yn wahanol i'r system yn Lloegr, lle mae cymorth cynhaliaeth yn seiliedig ar fenthyciadau, rydym yn cynnig system sy'n gyson â'r egwyddor o gyffredinolïaeth gynyddol sydd wedi llywio polisïau yng Nghymru ers datganoli.
- 9.0.3 Rydym yn argymhell, felly: bod cymorth cynhaliaeth yn ddigon i dalu costau byw pob myfyriwr israddedig llawn amser; bod myfyrwyr israddedig rhan-amser yn derbyn cymorth sy'n sicrhau lefel ehangach o gymorth cyfwerth ar draws y ddau ddull astudio a bod pecyn cymorth yn cael ei ddarparu i gyllido graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir. Gan ystyried y cyd-destun ariannol a amlinellwyd yn flaenorol, a'r gofyniad sylfaenol am gynaliadwyedd yr unig ffordd o gyflawni'r gwelliannau argymelledig i'r pecyn cymorth i fyfyrwyr cyffredinol a amlinellir yw trwy ryddhau arian a ddefnyddir i ddarparu Grantiau Ffioedd Dysgu i israddedigion llawn amser ar hyn o bryd.
- 9.0.4 Yr argymhelliad cyffredinol, felly, yw bod ffocws cymorth i israddedigion yn symud tuag at drefniadau cymorth cynhaliaeth gwell i'r holl fyfyrwyr israddedig llawn amser a rhan-amser, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn talu cost lawn cynhaliaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf, a benthyciadau i dalu ffioedd dysgu. Byddai hyn yn darparu pecyn cymorth y gellid ei ymestyn i gynnwys myfyrwyr graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir, o dan yr un telerau, gan fynd i'r afael â'r canfyddiad bod israddedigion llawn amser yn cael blaenoriaeth o ran cymorth o dan y system bresennol. Dylai'r grantiau a'r lwfansau wedi'u targedu ar gyfer myfyrwyr llawn amser a rhan-amser (sef y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol a Lwfans Dysgu i Rienï) barhau ac fe'u trafodir isod.
- 9.0.5 Rydym yn cydnabod mai prifysgolion, fel sefydliadau annibynnol, sydd i benderfynu ar brisiau nwyddau fel llety y mae'n ei werthu i fyfyrwyr. Fodd

bynag, rydym hefyd yn credu na ddylai myfyrwyr ddisgwyl gweld cynnydd mawr mewn nwyddau o'r fath o dan y cynigion newydd hyn. Felly, rydym yn cynnig y dylai CCAUC gasglu prisiau basged o nwyddau ar gyfer pob prifysgol bob blwyddyn, a'u cyhoeddi.

9.0.6 Dylid nodi bod yna gyfres o ragdybiaethau'n sail i'r modelu ariannol a wnaed i gefnogi'r Adolygiad hwn. Yn gyntaf, mae'r dadansoddiadau'n seiliedig ar yr uchafswm ffioedd dysgu cyfredol o £9,000 a threfniadau cymorth cynhaliaeth ym mlwyddyn y gwaelodlin. Bydd pwysau chwyddiant ar gostau a ffioedd yn effeithio ar y paramedrau hyn y tymor byr i'r tymor canolig. Credwn y dylid rhannu'r pwysau hwn rhwng y myfyriwr (trwy'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Benthyciad Cynhaliaeth) a'r wladwriaeth (trwy'r Grant Cynhaliaeth a grantiau dysgu ac addysgu CCAUC). Byddai cynnydd o 2% mewn chwyddiant ar y trefniadau a grant a benthyciad gwaelodlin yn costio tua £24 miliwn. Yn ail, mae'r costau'n dibynnu ar nifer y myfyrwyr sydd yn y system; byddai cynnydd neu ostyngiad o 2% yn nifer y myfyrwyr yn arwain at gost neu arbediad o £33 miliwn, o dan drefniadau gwaelodlin. Byddwn yn trafod y dibyniaethau hyn yn adran olaf yr adroddiad hwn, mewn perthynas â'r system cymorth i fyfyrwyr a argymhellir.

9.0.7 Cyn llunio manylion y pecyn cymorth yn derfynol bydd rhaid i Lywodraeth Cymru gael cymeradwyaeth Trysorlys EM i allu darparu benthyciadau ychwanegol i fyfyrwyr. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol os yw'r cynigion ar gyfer y cymorth cyffredinol a gynigir yng Nghymru yn uwch na'r pecyn o gymorth sydd ar gael yn Lloegr. Mae tystiolaeth a dderbyniwyd gan y Panel Adolygu'n dangos y byddai yna rwystrau i beidio â pharhau i ddilyn y polisi ad-dalu cyfredol sy'n weithredol ledled y DU; 9% o gyflog unigolyn graddedig dros £21,000 (wedi'i rewi nes 2021) a'r gyfradd ddisgownt a ddefnyddir ar gyfer ad-daliadau a bennir gan Drysorlys EM (0.7% ar hyn o bryd). CThEM sy'n rhedeg y polisi ad-dalu cyfredol a byddai'n rhaid darparu adnoddau ar gyfer gweinyddu polisi gwahanol yng Nghymru. Mae'r cyngor a gafwyd yn awgrymu efallai y byddai'n amhosibl gwneud hyn, ac yn y man lleiaf fe fyddai'n achosi oedi sylweddol o ran gweithredu'r argymhellion hyn.

9.0.8 Mae rhestr gryno o argymhellion yn Atodiad C. Bydd yr holl argymhellion, sydd gyda'i gilydd yn ffurfio pecyn cyllid myfyrwyr cyflawn, yn cael eu hamlinellu'n fanylach yn yr adran hon a'u cysylltu â phrif egwyddorion yr Adolygiad. Bydd goblygiadau ariannol pob argymhelliad, o gymharu â'r gwaelodlin, hefyd yn cael eu cynnwys ac maent wedi'u crynhoi yn Nhabl 6 (tudalen 52). Mae'r argymhellion wedi'u crynhoi neu eu cyflwyno ar ddiwedd pob isadran er cyfleuster hefyd.


Argymhellion:

- Dylai ffocws cymorth i israddedigion symud tuag at drefniadau cymorth cynhaliaeth gwell i'r holl fyfyrwyr israddedig llawn amser a rhan-amser, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn talu cost lawn cynhaliaeth i'r rhai sydd ei angen fwyaf, a benthyciadau i dalu ffioedd dysgu.
- Dylai CCAUC gasglu prisiau basged o nwyddau ar gyfer pob prifysgol bob blwyddyn, a'u cyhoeddi.

9.1 Darpariaeth i israddedigion llawn amser

9.1.1 Mae ein prif argymhelliad ar gyllid myfyrwyr yn adlewyrchu'r dystiolaeth a dderbyniwyd sy'n dangos, o gymryd bod benthyciadau yn bodoli ar gyfer ffioedd, mai cymorth ar gyfer costau byw yw'r brif flaenoriaeth i fyfyrwyr. Felly, argymhellir bod ffocws cymorth i israddedigion llawn amser yn symud tuag at gymorth cynhaliaeth, gan ddarparu benthyciadau ar gyfer ffioedd. Argymhellir gwella trefniadau cymorth cynhaliaeth ar gyfer yr holl fyfyrwyr cymwys sy'n hanu o Gymru, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn cael ei ddarparu i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae'r pecyn cymorth i fyfyrwyr a argymhellir i israddedigion llawn amser yn cael ei ddangos yn ôl incwm aelwyd yn Ffigur 5 ac mae'r manylion a'r sail resymegol wedi'u hegluro isod.

Ffigur 5: Cymorth a argymhellir i fyfyrwyr llawn amser*, fesul incwm aelwyd



* Mae'r cymorth cynhaliaeth a ddangosir ar gyfer myfyriwr sy'n byw i ffwrdd o gartref, y tu allan i Lundain

Lefelau a chymorth ffioedd dysgu

9.1.2 Argymhellir y dylai prifysgolion allu codi ffi o hyd at £9,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr am eu cwrs, waeth beth fo'r pwnc. Dylid cyflwyno benthyciad myfyrwyr ychwanegol yn lle'r Grant Ffioedd Dysgu presennol i fyfyrwyr israddedig llawn amser, hyd at uchafswm lefel ffioedd. Byddai dileu'r Grant Ffioedd Dysgu yn darparu £945 miliwn, gydol cyfnod astudio'r cohort gwaelodlin, i'w ddefnyddio i gyllido argymhellion eraill y Panel Adolygu a darparu pecyn cyllido cytbwys a chynaliadwy ar gyfer sector AU Cymru. Bydd cynyddu maint llyfr y Benthyciad Ffioedd Dysgu yn arwain at gost ychwanegol yn y dyfodol o ddileu benthyciadau heb eu had-dalu, cost amcanol o £135 miliwn i'r cohort gwaelodlin. Dylai myfyrwyr nad ydynt am gael benthyciad neu sydd am ad-dalu eu benthyciad yn gyflym gael y dewis i wneud taliadau uniongyrchol neu ad-dalu'n gynnar o hyd.

9.1.3 Yn achos pynciau lle mae cost addysgu fel a fesurir gan TRAC(T)⁵² (neu ryw ddull cymharol) yn fwy na £9,000, argymhellir bod SAU Cymru yn derbyn incwm digonol gan CCAUC i gynorthwyo gyda'r gost o ddarparu'r pynciau drud hyn. Yn seiliedig ar hyn, byddai prifysgolion yn derbyn swm atodol o £660 y flwyddyn ar gyfer pob myfyriwr sy'n astudio un o sawl pwnc gwyddoniaeth a pheirianeg, yn ogystal â'r symiau a dderbynnir eisoes ar gyfer Meddygaeth Glinigol, Deintyddiaeth Glinigol a Chelfyddydau Perfformio Conservatoire. Byddai hyn yn cynyddu cost darpariaeth lawn amser i CCAUC tua £38 miliwn.

Cymorth cynhaliaeth

9.1.4 Yn wahanol i'r system yn Lloegr, credwn yn yr egwyddor o ddarparu cymorth cyhoeddus ar gyfer cynhaliaeth gyda'r cymorth mwyaf yn mynd i'r rhai sydd ei angen fwyaf. Mae yna gonsensws cryf yn y dystiolaeth a dderbyniodd y Panel Adolygu bod lefel y cymorth cynhaliaeth sydd ar gael yn annigonol i dalu costau gwirioneddol myfyrwyr, a bod hyn yn fwy o broblem i fyfyrwyr na lefel y ffioedd dysgu a'r cymorth ffioedd dysgu. Mae yna farn hefyd nad yw myfyrwyr o aelwydydd incwm canolig, yn arbennig, yn derbyn cymorth digonol o dan y trefniadau presennol, yn sgil y disgwyliad y bydd gadawyr ysgol (sef mwyafrif llethol y rhai sy'n astudio'n llawn amser) yn gwneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn incwm drwy gyfraniadau gan rieni, benthyciadau masnachol, gorddrafft ac ôl-ddyledion. Rydym yn argymhell system syml lle byddai'r un lefel o gymorth ar gyfer costau byw yn cael ei ddarparu i'r holl fyfyrwyr, ond yn cael ei rannu rhwng grant a benthyciad a'r cyllid grant yn cael ei gyfeirio fwyfwy at y rhai â'r incwm aelwyd isaf. Bydd hyn yn cefnogi ehangu mynediad a chadw myfyrwyr o bob cefndir, yn cynnwys y rhai o gefndiroedd tlotach, teuluoedd incwm canolig gwasgedig a'r rhai sydd wedi gwahanu oddi wrth eu rhieni neu nad yw eu rhieni'n dewis cyfrannu at eu haddysg uwch.

9.1.5 Argymhellir y dylid darparu Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000 i'r holl israddedigion llawn amser sy'n huanu o Gymru, gyda Grant Cynhaliaeth incwm-gysylltiedig ychwanegol, ar ei lefel uchaf, i dalu costau byw yn ystod y tymor yn llawn i fyfyrwyr cymwys o'r aelwydydd â'r incwm isaf. Dylai'r gyfradd uchaf o gymorth Grant Cynhaliaeth, ar gyfer myfyriwr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain, fod cyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol⁵³ ac yn seiliedig ar 37.5 awr yr wythnos dros sesiwn academaidd 30 wythnos (£8,100 ar hyn o bryd⁵⁴). Dylid darparu uchafswm grant o 25% yn fwy (£10,125) i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref yn Llundain a 15% yn llai (£6,885) i fyfyrwyr sy'n byw yng nghartref eu rhieni (yn seiliedig ar wahaniaethau cyfredol mewn cymorth cynhaliaeth).

⁵² Adroddiad CCAUC ar ddadansoddiad o bynciau cost uchel gan ddefnyddio TRAC(T) http://www.hefce.ac.uk/media/hefce/content/data/2012/trachighcost/TRAC_methodology_for_high-costs_subjects.pdf.

⁵³ £7.20 yw'r gyfradd awr gyfredol: <https://www.gov.uk/government/publications/national-living-wage-nlw>. Dylai newidiadau i'r gyfradd hon yn y dyfodol gael eu hadlewyrchu yn y pecyn cymorth cynhaliaeth o ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf. Bydd myfyrwyr yn derbyn y gyfradd hon waeth beth fo'u hoedran.

⁵⁴ Gallai cyfradd awr y Cyflog Byw Cenedlaethol godi i £9.00 erbyn 2020; byddai'r ffigur hwn yn £10,125 wedyn: <https://www.gov.uk/government/publications/national-minimum-wage-low-pay-commission-remit-2016>.

- 9.1.6 Dylid parhau i ddarparu'r Grant Cynhaliaeth uchaf i'r holl fyfyrwyr sydd ag incwm aelwyd o hyd at £18,370, ond dylai'r tapr amodol ar brawf modd ar gyfer y Grant Cynhaliaeth fod yn fwy graddol na'r tapr presennol. Awgrymir y dylid cynyddu'r trothwy incwm aelwyd uchaf ar gyfer yr elfen prawf modd o £50,020 (y lefel cymhwysedd grant uchaf gyfredol i'r myfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain) i adlewyrchu dechrau gyfradd dreth uchaf ar gyfer aelwyd dau incwm yn fras. At ddibenion modelu, mae'r trothwy cymhwysedd uchaf wedi bod yn seiliedig ar y nawfed degradd ar gyfer incwm aelwyd (Prydain), £81,000⁵⁵. Amcangyfrifir y byddai angen £519 miliwn⁵⁶ o'r arian a ryddhawyd o'r Grant Ffioedd Dysgu i ddarparu Grantiau Cynhaliaeth i'r cohort gwaelodlin ar y sail hwn.
- 9.1.7 Gan fod disgwyl i'r lefel uchaf o Grant Cynhaliaeth a argymhellir fod yn ddigon i dalu costau byw ni ddylid darparu Benthyciad Cynhaliaeth ychwanegol i'r rhai sy'n derbyn y grant uchaf. Dylai Benthyciadau Cynhaliaeth fod ar gael i'r rhai nad ydynt yn gymwys am grant llawn ac argymhellir bod y benthyciadau'n disodli'n llwyr unrhyw leihad i'r Grant Cynhaliaeth yn sgil prawf modd. Ni ddylid cynnal prawf modd ar aelwydydd incwm uchaf ar gyfer Benthyciad Cynhaliaeth chwaith. Dylai swm y benthyciad sydd ar gael fod yn gyfwerth â'r uchafswm grant, llai unrhyw grant sy'n amodol ar brawf modd. Dylai pob myfyriwr, felly, allu cael gafael ar ddigon o gymorth i dalu costau byw, ond dylid targedu'r cymorth grant tuag at y rhai sydd ei angen fwyaf, mewn ffordd gynyddol. Mae'r set yma o argymhellion yn lleihau maint cyffredinol y llyfr Benthyciadau Cynhaliaeth llawn amser ar gyfer y cohort gwaelodlin, gan leihau cost dileu benthyciadau sydd heb eu had-dalu yn y dyfodol gan £6 miliwn yn ôl amcangyfrifon.
- 9.1.8 Yn olaf, argymhellir talu cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr bob mis. Mae tystiolaeth a dderbyniwyd gan gynrychiolwyr myfyrwyr yn dangos y byddai hyn o fudd i fyfyrwyr gan y bydd yn eu galluogi i gynllunio a chyllidebu eu harian yn fwy effeithiol.

Lefelau uchaf benthyciadau myfyrwyr

- 9.1.9 Wrth lunio'r argymhellion hyn mae'r Panel Adolygu wedi ystyried y dylai'r trefniadau cymorth i fyfyrwyr gorau fod yn bartneriaeth rhwng y wladwriaeth a'r unigolyn; y dylai cymorth ar gyfer addysg uwch gwmpasu ffioedd a chynhaliaeth; y dylai'r system fod yn gynyddol; ac y dylid cadw lefelau dyledion myfyrwyr ar lefelau rhesymol. Mae Ffigur 6 yn dangos y benthyciad uchaf sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru, gydag incwm aelwyd gwahanol. Yn achos incwm aelwyd o hyd at £35,000, byddai'r benthyciad uchaf sydd ar gael tua £1,500 yn uwch o dan y pecyn a gynigir na'r trefniadau gwaelodlin a ddiffiniwyd ar gyfer 2016/17. O gymharu â Lloegr, byddai dyled benthyciad myfyriwr yng Nghymru sydd ag incwm aelwyd o lai na £18,000 ychydig dros hanner (£9,000 y flwyddyn) dyled myfyrwyr sy'n hanu o Loegr ac yn dod o'r un cefndir economaidd-gymdeithasol (£17,200 y flwyddyn). Mae

⁵⁵ ONS Wealth and Income 2010-12:


<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/rel/was/wealth-in-great-britain-wave-3/wealth-and-income--2010-12/stb--wealth-and-income--2010-12.html>.

⁵⁶ Byddai'r ffigur hwn yn £735 miliwn pe bai cyfradd awr y Cyflog Byw Cenedlaethol yn £9.00.

hyn yn adlewyrchu'r argymhelliad am Grant Cynhaliaeth mwy, a mwy cynyddol na'r hyn sydd ar gael i fyfyrwyr Cymru ar hyn o bryd; mewn cyferbyniad, bydd myfyrwyr sy'n hanu o Loegr yn derbyn lefel debyg o uchafswm cymorth fel benthyciad i'w ad-dalu.

9.1.10 Er bod yr argymhelliad yn cynnwys Grant Cynhaliaeth cyffredinol, sydd ar gael i holl fyfyrwyr Cymru, mae disgwyl y bydd teuluoedd myfyrwyr o aelwydydd incwm canolig ac uwch yn cyfrannu at gostau byw. Dylid nodi ein bod hefyd yn argymhell rhyw fath o grant sy'n amodol ar brawf modd, yn ogystal â'r elfen gyffredinol, nes nawfed deigradd incwm aelwyd y DU. Mae'r Panel Adolygu, felly, yn cymeradwyo cymorth gan rieni i helpu myfyrwyr i dalu eu costau wrth astudio, yn lle cymryd y benthyciad uchaf posibl, ond yn cydnabod y dylid darparu i sicrhau nad yw'r ffaith bod y cymorth hwn ar gael yn rhagofyniad i fyfyrwyr o aelwydydd incwm canolig ac uwch allu dilyn cwrs addysg uwch. Yn sgil yr argymhelliad hwn, byddai myfyrwyr Cymru sydd ag incwm aelwyd o £58,000 neu uwch yn gallu cael mwy o fenthyciad na'r hyn a fydd ar gael i fyfyrwyr tebyg o Loegr yn 2016/17; amgylchiadau'r myfyrwyr unigol fydd yn penderfynu faint o'r benthyciad uchaf sydd ar gael (ac felly, dyled) a gymerir mewn gwirionedd.

Ffigur 6: Uchafswm y benthyciad sydd ar gael i fyfyrwr, blwyddyn academiaidd 2016/17



*Yn seiliedig ar gymorth cynhaliaeth i fyfyrwr llawn amser sy'n byw i ffwrdd o gartref, y tu allan i Lundain

Argymhellion:

Lefel ffioedd dysgu i israddedigion llawn amser:

- Dylai prifysgolion allu codi ffi flynyddol o hyd at £9,000 (neu beth bynnag mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai uchafswm y ffi fod) ar fyfyrwyr am eu cwrs, waeth beth fo'r pwnc.

Ar gyfer pynciau cost uwch:

- CCAUC i ddarparu swm atodol gyda thaliadau premiwm yn uniongyrchol i SAU Cymru. Taliad i adlewyrchu cost addysgu fel y mesurir gan TRAC(T)¹ (neu ddull tebyg).

Cymorth ffioedd dysgu ar gyfer israddedigion llawn amser - benthyciadau:

- Dylid cyflwyno benthyciad myfyriwr ychwanegol yn lle'r Grant Ffioedd Dysgu cyfredol i israddedigion llawn amser, hyd at yr uchafswm ffioedd o £9,000 (neu beth bynnag mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai uchafswm y ffi fod).
- Dylid darparu opsiwn talu'n uniongyrchol neu ad-dalu cynnar i'r rhai sy'n dymuno ad-dalu eu benthyciad.
- Byddai ad-daliadau benthyciadau yn parhau ar gyfradd o 9% o gyflog graddedigion uwchben £21,000 (wedi'i rewi nes 2021) a'r gyfradd ddisgownt ar ad-daliadau'n cael ei phennu gan Drysorlys EM (0.7% ar hyn o bryd). Dyma bolisi ad-dalu y DU gyfan.


Cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr llawn amser – grantiau a benthyciadau:

- Grant Cynhaliaeth cyffredinol nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000 ar gael i bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru.
- Grant ychwanegol sy'n amodol ar brawf modd i dalu costau byw.
- Benthyciadau Cynhaliaeth i'r rhai nad ydynt yn gymwys am grant.
- Dylai cyfradd uchaf y Grant Cynhaliaeth a/neu'r cymorth benthyciad, i fyfyriwr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain, fod yn gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol – yn seiliedig ar 37.5 awr yr wythnos dros gyfnod o 30 wythnos (£8,100 ar hyn o bryd). Uchafswm grant o 25% arall (£10,125) ar gael i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref yn Llundain a 15% yn llai (£6,885) i fyfyrwyr sy'n byw gartref (yn seiliedig ar wahaniaethau cyfredol mewn cymorth cynhaliaeth).
- Dylai'r tapr prawf modd ar gyfer cymorth Grant Cynhaliaeth fod yn fwy gwastad na'r tapr cyfredol. Awgrymir y dylid cynyddu'r lefel cymhysedd/trothwy incwm aelwyd uchaf ar gyfer yr elfen prawf modd o £50,020 (y lefel cymhwysedd grant uchaf cyfredol i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain) i ychydig o dan gyfradd uchaf y dreth ar gyfer aelwyd dau incwm. (At ddibenion modelu, defnyddio'r symiau sy'n seiliedig ar ddata incwm aelwydydd diweddaraf ONS (Prydain) ar gyfer y nawfed degradd = aelwydydd £81,000).
- Ni ddylid darparu Benthyciad Cynhaliaeth ychwanegol i'r rhai sy'n derbyn yr uchafswm grant (a/neu benthyciad disodli pan fo'r Grant Cynhaliaeth yn is).
- Ni ddylid cynnal prawf modd ar gyfer Benthyciad Cynhaliaeth ar fyfyrwyr o aelwydydd incwm uwch sy'n derbyn llai o grant na'r uchafswm. Dylai swm y benthyciad sydd ar gael fod yn gyfwerth â'r uchafswm grant, llai unrhyw grant sy'n amodol ar brawf modd.
- Dylid talu cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr bob mis fel y gallu myfyrwyr gynllunio a chyllidebu eu harian yn fwy effeithiol.

9.2 Darpariaeth i israddedigion rhan-amser

9.2.1 I lawer o fyfyrwyr, mae astudiaeth addysg uwch ar sail ran-amser yn ddewis cadarnhaol sy'n gweddu orau i'w hamgylchiadau a chredwn y dylid annog myfyrwyr o'r fath, yn enwedig gan fod bywydau gweithio hirach, newidiadau technolegol, galw am sgiliau gwell nag erioed a phatrymau gyrfa newidiol i unigolion wedi dod yn bethau arferol. Dylid cael partneriaeth driphlyg rhwng darparwyr addysg uwch a ddylai ddarparu addysg uwch ran-amser mewn ffordd sy'n galluogi myfyrwyr i 'ddysgu wrth ennill'; y wladwriaeth, a ddylai ddarparu system sy'n cymell ac yn ehangu mynediad i astudiaeth ran-amser; a'r myfyrwr. Dangosir y pecyn cymorth a argymhellir i israddedigion rhan-amser yn ôl incwm aelwyd yn Ffigur 7 gyda'r manylion wedi'u hegluro isod.

Ffigur 7: Cymorth a argymhellir i fyfyrwyr rhan-amser*, fesul incwm aelwyd



* Myfyrwr mewn prifysgol yng Nghymru, yn astudio ar ddwyster o 50%

Lefelau a chymorth ffioedd dysgu

9.2.2 Mae yna agweddau cadarnhaol ar system gyllido gyfredol astudiaeth ran-amser y dylid eu cadw. Mae'r Panel Adolygu'n argymhell y dylid parhau i godi ffioedd wedi'u cymedroli ar fyfyrwyr rhan-amser, i sicrhau nad yw myfyrwyr yn cefnu ar astudio'n rhan-amser oherwydd ffioedd uchel, fel yr ymddengys sy'n digwydd o dan system Lloegr o ddarparu cymorth i israddedigion rhan-amser. Bydd SAU yn parhau i bennu eu strwythur prisio ar gyfer darpariaeth ran-amser; at ddibenion modelu, awgrymwyd y byddai ffi pro-rata yn seiliedig ar ffigur llawn amser cyfwerth o £6,000 yn gymharol briodol. Dylai Benthyciad Ffioedd Dysgu dalu'r ffi wedi'i chymedroli'n llawn a dylai fod ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio ar unrhyw ddwyster. Mae benthyciadau i fyfyrwyr rhan-amser yn 'fuddsoddiad da'; mae modelu'n awgrymu byddant yn ad-dalu'n gymharol gyflym yn gyffredinol. Yn amlach na pheidio, bydd myfyrwyr rhan-amser eisoes mewn gwaith, ar lwybrau gyrfa wedi'u sefydlu, ac efallai y byddant yn ennill yn fwy na'r trothwy ad-dalu benthyciad yn barod. Felly, amcangyfrif y bydd y ddarpariaeth Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (tâl RAB) - a lefel y buddsoddiad cyhoeddus mae hyn yn ei gynrychioli - yn llai ar gyfer myfyrwyr rhan-amser na myfyrwyr llawn amser.

- 9.2.3 Dylid parhau i ategu ffioedd wedi'u cymedroli gyda grantiau dysgu ac addysgu sefydliadol i SAU, a delir drwy CCAUC. Er mwyn sicrhau bod buddsoddiad cyhoeddus mewn myfyrwyr rhan-amser yn cymharu â'r buddsoddiad mewn myfyrwyr llawn amser, mae'r Panel Adolygu'n argymhell y dylai'r cyfanswm darpariaeth grant gael ei bennu drwy gymhwyso'r gwahaniaeth rhwng y tâl RAB llawn amser a rhan-amser i'r benthyciad cyfartalog (ffi a chynhaliaeth) sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser. Mae'r dull hwn yn cynhyrchu grant addysgu tybiannol o tua £1250 y myfyriwr (cyfradd nodweddiadol yn seiliedig ar 50% o gwrs llawn amser cyfwerth). Argymhellir hefyd bod SAU yn derbyn taliadau atodol pro-rata am bynciau cost uchel ar gyfer myfyrwyr rhan-amser, yn union fel y byddent yn parhau i wneud o dan ein cynigion ar gyfer myfyrwyr llawn amser, a ddyrennir yn uniongyrchol i SAU gan CCAUC. I fod yn gymwys am y taliad atodol hwn mae'n rhaid i SAU allu dangos i CCAUC eu bod yn darparu addysg ran-amser mewn modd sy'n annog myfyrwyr i allu ennill wrth ddysgu (h.y. caiff y cyllid ei ddarparu i'r sefydliad cyn belled â'i fod yn cael ei reoleiddio i sicrhau ansawdd a threfniadaeth).
- 9.2.4 Dylid cydnabod ein bod wedi gorfod gwneud rhai rhagdybiaethau gyda'r modelu rhan-amser (yn enwedig mewn perthynas â lefelau ffioedd rhan-amser y dyfodol a chyllid grant CCAUC yn y gwaelodlin). Mae'r rhagdybiaethau hyn yn ein galluogi i amcangyfrif sut y bydd seilio cyllid grant i SAU ar y gwahaniaeth rhwng tâl RAB llawn amser a rhan-amser ac yn cynnwys symiau atodol pynciau cost uchel yn effeithio ar gost cyllid grant. Mae modelu'r cynnig hwn yn amcangyfrif gostyngiad o £33 miliwn yng nghost darparu grantiau dysgu ac addysgu CCAUC (yn cynnwys ar gyfer pynciau cost uchel).

Cymorth cynhaliaeth

- 9.2.5 Mae'r Panel Adolygu'n argymhell y dylid darparu cymorth gyda chostau byw er mwyn ehangu mynediad yn wirioneddol i astudiaeth ran-amser a sicrhau bod astudiaeth ran-amser yn cael yr un parch ag astudiaeth llawn amser. Dylid cyflwyno cymorth cynhaliaeth tebyg i'r hyn a argymhellir ar gyfer israddedigion llawn amser yn lle'r Grant Cwrs cymharol fach sy'n amodol ar brawf modd sydd ar gael ar hyn o bryd. Dylai'r cymorth hwn, a'n cynigion ar gyfer trefniadau cyllido rhan-amser yn eu holl agweddau, fod ar gael i fyfyrwyr rhan-amser sy'n astudio fesul modiwl, yn ogystal â'r rhai sy'n cofrestru am gymhwyster, heb gyfyngu ar y rhai sydd wedi ennill cymwysterau lefel gyfwerth yn flaenorol ar lefel AU. Mae darparu cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr rhan-amser yn sicrhau yr un lefel o fuddsoddiad ag astudiaeth llawn amser ac mae disgwyl iddo annog a chryfhau'r dull hwn o ddarparu AU yng Nghymru.
- 9.2.6 Argymhellir bod myfyrwyr rhan-amser yn derbyn Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000 ar sail pro-rata, gyda grant amodol ar brawf modd ychwanegol hyd at uchafswm yn seiliedig ar £6,000 ar gyfer cwrs llawn amser cyfwerth. Fel yn achos myfyrwyr llawn amser, dylai'r rhai sy'n gymwys am y Grant Cynhaliaeth llawn gael Benthyciadau Cynhaliaeth i wneud iawn am y gwahaniaeth. Mae'r lefel cymorth uchaf a argymhellir yn is na'r swm cyfwerth a argymhellir ar gyfer myfyrwyr llawn amser, er mwyn i ni argymhell ei

ddarparu hyd at incwm aelwyd o £25,000. Mae hyn yn adlewyrchiad gwell o wahanol amgylchiadau myfyrwyr llawn amser a rhan-amser. Dylai'r prawf modd dapro ar yr un lefel incwm ag yr argymhellir i fyfyrwyr llawn amser (9^{fed} degradd ar gyfer incwm aelwyd (Prydain), £81,000). Bydd disodli'r Grant Cwrs gyda Grantiau Cynhaliaeth, fel y disgrifiwyd, i fyfyrwyr rhan-amser yn gofyn am £108 miliwn o'r arian a ryddhawyd o'r Grant Ffioedd Dysgu llawn amser. Byddai'r buddsoddiad gofynnol yn £97 miliwn os yw'n seiliedig ar yr opsiwn na ffafriar ar gyfer tapro'r elfen prawf modd yn is (8^{fed} degradd ar gyfer incwm aelwyd, £59,200).

Argymhellion:

Lefelau a chymorth ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig rhan-amser:

- Bod myfyrwyr rhan-amser yn derbyn ar sail pro-data fersiwn wedi'i haddasu o'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig llawn amser (h.y. Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000, gyda grant amodol ar brawf modd ychwanegol hyd at uchafswm yn seiliedig ar £6,000 ar gyfer cwrs llawn amser cyfwerth ond dylai'r uchafswm grant fod ar gael hyd at incwm aelwyd o £25,000).
- Ac fe godir ffioedd wedi'u cymedroli arnynt (ffi pro-rata yn seiliedig ar £6,000 ar gyfer cwrs llawn amser cyfwerth) wedi'u hategu gan grant i'r SAU drwy CCAUC. Mae'r grant yn cael ei bennu drwy gymhwyso'r gwahaniaeth rhwng y tâl RAB llawn amser a rhan-amser i'r benthyciad cyfartalog (ffi a chynhaliaeth) sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser. Y nod yw sicrhau bod yr un faint o arian yn cael ei fuddosoddi mewn myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr llawn amser.
- Mae Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael i dalu'r ffi wedi'i chymedroli llawn.
- Dylai'r benthyciad ffioedd dysgu, cymorth cynhaliaeth a'r grant sefydliadol i'r SAU fod ar gael yn achos myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio fesul modiwl, yn ogystal â'r rhai sy'n cofrestru am gymhwyster, heb gyfyngu ar y rhai sydd wedi ennill cymwysterau lefel cyfwerth blaenorol ar lefel AU.
- Dylai'r grantiau a'r lwfansau wedi'u targedu sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig rhan-amser, sef Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni a Lwfans Myfyrwyr Anabl, barhau.

Pynciau cost uchel:

- SAU i dderbyn taliadau atodol sy'n adlewyrchu'r gost addysgu - a ddyrennir yn uniongyrchol i SAU gan CCAUC ar sail nifer y myfyrwyr. I fod yn gymwys am y taliad atodol hwn mae'n rhaid i SAU allu dangos i CCAUC eu bod yn darparu addysg ran-amser mewn modd sy'n annog myfyrwyr i allu ennill wrth ddysgu.

Addysg alwedigaethol a thechnegol uwch

9.2.7 Mae ehangu addysg alwedigaethol a thechnegol uwch, sy'n cael ei hastudio'n rhan-amser yn bennaf, yn addo llu o fanteision i economi a chymdeithas Cymru. O gael ei theilwra i anghenion cyflogwyr, mae addysg uwch seiliedig

ar waith neu gysylltiedig â gwaith yn cynnig llwybr canolog i sgiliau a chyflogaeth lefel uchel i bobl Cymru.

- 9.2.8 Mae amryw o ddarparwyr yn darparu addysg uwch galwedigaethol ei natur yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae prifysgolion yn cynnig llawer o raglenni ar gyfer y proffesiynau iechyd, cyfreithiol ac eraill ac maent wrthi'n cynllunio i gynyddu eu darpariaeth sy'n canolbwyntio ar waith neu'n seiliedig ar brentisiaethau. Mae colegau, rhai ohonynt yn aelodau o grwpiau prifysgolion, yn darparu darpariaeth leol a hygyrch sy'n gysylltiedig â galwedigaeth yn aml, neu wedi'i lleoli yn y gweithle ei hun. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr AU sy'n astudio mewn colegau AB, er enghraifft yn astudio'n rhan-amser gyda chyfran uchel â swydd eisoes. Dylai cyflogwyr, colegau, prifysgolion a chyrrff dyfarnu gydweithio i alluogi mynediad ehangach a mwy hyblyg i'r math arbennig hwn o addysg uwch.
- 9.2.9 Mae yna gyfle gwirioneddol i Gymru ddatblygu darpariaeth a noddir gan gyflogwyr neu uwch brentisiaethau mewn ffordd sy'n gwireddu'r slogan 'ennill wrth ddysgu'. Mae yna fodelau gwaith partneriaeth effeithiol eisoes yn bodoli rhwng colegau, prifysgolion a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod myfyrwyr yn symud yn ddidrafferth rhwng rhaglenni AU lefel 4 a 5 a graddau israddedig ac ni fyddem am effeithio ar y rhain. Ein nod yw cryfhau'r partneriaethau hyn pan fo hynny o fudd i ddysgwyr a chyflogwyr. Dylid nodi y byddai pob myfyriwr sy'n astudio AU mewn coleg AB yn gymwys am yr un pecynnau grantiau a benthyciadau a gynigir yn rhannau eraill yr adroddiad hwn.
- 9.2.10 Bydd gweithredu'r argymhellion a nodir isod yn helpu i greu cyfleoedd newydd i ddarpar fyfyrwyr a darparu sgiliau y mae cyflogwyr yn galw amdanynt. Nod yr argymhellion hyn yw sicrhau newid sylweddol yn nifer y myfyrwyr cyfwerth ag amser llawn mewn addysg uwch seiliedig ar waith galwedigaethol (yn cynnwys AU mewn coleg), gan weld cynnydd o 20% o leiaf rhwng 2015 a 2020.

Argymhellion:

- Llywodraeth Cymru i ddarparu arian i gefnogi'r gwaith o ddatblygu rhaglenni AU newydd a noddir gan gyflogwyr neu Brentisiaethau Uwch/Gradd yn cynnwys prifysgolion, colegau neu ddarparwyr hyfforddiant, drwy fuddosddiad cyhoeddus newydd o £1 miliwn y flwyddyn.
- Llywodraeth Cymru i gynyddu'r adnoddau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd yn y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau, gan gynyddu gallu Colegau i ddarparu cymwysterau lefel 4, 5 a, lle bo'n briodol, 6 sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth. Gellid helpu colegau sydd am recriwtio myfyrwyr AU yn uniongyrchol i gael statws Sefydliad Rheoleiddiedig o dan Ddeddf AU (Cymru) 2015, ar ôl i ansawdd darpariaeth ar y lefel hon gael ei sicrhau'n allanol. Gall colegau eraill ddefnyddio'r buddsoddiad hwn i ddatblygu eu capasiti i gynyddu darpariaeth freiniol. Cyllid o'r llywodraeth i ddod trwy broses hyblyg a syml gyda chyllideb o £1m y flwyddyn.
- Llywodraeth Cymru i gyhoeddi fframweithiau prentisiaethau addas ei hun, pan fo angen, fel bod yr holl ddarparwyr AU yn gallu manteisio'n well ar arian Ardollau Prentisiaethau. Byddai'r hyblygrwydd hwn o fudd i gyflogwyr a dysgwyr. Efallai y bydd angen newid deddfwriaethol.
- Llywodraeth Cymru i weithio gyda Cymwysterau Cymru a llywodraeth y DU ar gynigion am Gyngor Achredu Addysg Dechnegol, gan alluogi amrywiaeth well o gymwysterau AU cylch byr sy'n canolbwyntio ar waith. Llywodraeth Cymru i ystyried cynigion ym Mhapur Gwyn yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau, *Success as a Knowledge Economy*, ar bwerau dyfarnu Graddau a'u goblygiadau ar gyfer trefniadau partneriaeth cyfredol, gyda'r nod o annog darpariaeth AU fwy hyblyg ac ymatebol i fyfyrwyr a chyflogwyr.

9.3 Graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir

- 9.3.1 Mae cymdeithasau seiliedig ar wybodaeth angen gweithwyr sydd wedi derbyn addysg o safon uchel ac mae'n bwysig bod mynediad i addysg ôl-raddedig yn seiliedig ar ddyhead a gallu'n unig, fel sy'n wir am addysg israddedig. Ni ddylid cael nenfwd gwydr uwchben addysg uwch israddedig. Er mwyn dileu'r rhwystr ariannol i addysg ôl-raddedig a addysgir i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a darparu'r un buddsoddiad ar draws gwahanol elfennau o AU, argymhellir y dylai myfyrwyr graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir dderbyn yr un lefel o gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu â myfyrwyr israddedig (h.y. Benthyciad Ffioedd Dysgu; Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd gyda grant amodol ar brawf modd ychwanegol a/neu Fenthyciad Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd). Mae hon yn system gymorth fwy hael a chynhwysfawr ar gyfer darpariaeth gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir na'r benthyciad o £10,000 (i'w ad-dalu yr un pryd ag unrhyw ddyled benthyciad israddedig) sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Loegr o 2016/17.
- 9.3.2 Awgrymir proses ailymgeisio am gymorth i unrhyw fyfyrwr sydd am ddilyn cwrs ôl-raddedig a addysgir (boed yn gyfnod o astudio ychwanegol wedi'i ychwanegu at eu cwrs gradd israddedig neu'n gwrs Gradd Meistr annibynnol). Dylid nodi y bydd hyn yn dod â myfyrwr sy'n gwneud cwrs israddedig tair

blynedd yna rhaglen Feistr am flwyddyn i'r un lefel â myfyrwyr sy'n gwneud cwrs pedair blynedd cychwynol sy'n arwain at radd Meistr. Rydym hefyd yn nodi, yn unol ag Adolygiad Furlong o Hyfforddiant Cychwynol Athrawon, y dylid darparu'r pecyn hwn am ddwy flynedd i'r myfyrwyr sy'n gwneud rhaglen hyfforddiant athrawon i raddedigion sy'n para dwy flynedd.

- 9.3.3 I reoli swm y buddsoddiad cyhoeddus yng nghost darpariaeth ôl-raddedig a addysgir, argymhellir bod SAU yng Nghymru'n parhau i bennu eu lefelau ffioedd eu hunain, ond dylid cytuno ar lefel uchaf y cymorth ffioedd drwy CCAUC at ddibenion benthyciadau ffioedd (hyd at yr uchafswm cyfredol o £9,000). Ni fyddai myfyrwyr Cymru'n gorfod talu mwy nag uchafswm y ffioedd. Byddai gofyn hefyd i CCAUC gael tystiolaeth fanwl o ddata costau hanesyddol wrth bennu'r gyfradd ffioedd a benthyciad uchaf i osgoi hapchwarae sefydliadol a chwyddiant prisiau o bosibl. Yn achos pynciau cost uchel, dylid ategu'r ffi gyda thaliadau CCAUC i SAU, sy'n adlewyrchu'r gost addysgu y cytunwyd arni. Ni ddylai'r Benthyciad Ffioedd Dysgu uchaf sydd ar gael i fyfyrwr o Gymru sy'n astudio y tu allan i Gymru fod yn fwy na'r hyn sy'n ofynnol yng Nghymru; os yw cost ffioedd yn uwch yn rhywle arall byddai'n rhaid talu'r gost drwy ddulliau eraill.
- 9.3.4 Byddai ymestyn y cymorth a argymhellir i fyfyrwyr graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir (niferoedd ar hyn o bryd; tua 2,700 llawn amser a 1,000 rhan-amser) yn gofyn am £22 miliwn o'r arian a ryddhawyd o'r Grant Ffioedd Dysgu i israddedigion llawn amser. Amcangyfrifir y byddai yna gost ychwanegol gymharol fach o £3 miliwn yn sgil dileu benthyciadau yn y dyfodol. Mae'r argymhellion hyn yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phrif flaenoriaethau'r Adolygiad, sef cryfhau trefniadau darparu, ac ehangu mynediad i, ddarpariaeth ôl-raddedig yng Nghymru. Maent hefyd yn darparu cydbwysedd o gymorth ariannol a buddsoddiad cyfartal ar draws gwahanol ddulliau a lefelau astudio, a byddant yn cefnogi anghenion sgiliau Cymru yn ogystal â swyddi a thwf.
- 9.3.5 Mae'r costau y cyfeirir atynt yn yr adran hon ac mewn adrannau cynharach, wrth i'r argymhellion ar gyfer cymorth i fyfyrwyr gael eu hamlinellu, wedi'u nodi yn Nhabl 6.

Tabl 6: Costau cyllido'r cymorth gwaelodlin a'r cymorth a argymhellir i fyfyrwyr

	Trefniadau cymorth i fyfyrwyr a argymhellir					
	Cymorth myfyrwyr gwaelodlin	Israddedig (IG)	Gwahaniaeth o'r gwaelodlin	Meistr Ôl-raddedig a Addysgir (ÔLA)	Cyfanswm (IG ac ÔLA)	Gwahaniaeth o'r gwaelodlin
Llawm amser						
Grant Cynhaliaeth [1]	(£440m)	(£960m)	(£519m)	(£15m)	(£974m)	(£534m)
Benthyciad Cynhaliaeth RAB [2]	(£57m)	(£51m)	£6m	(£1m)	(£52m)	£6m
Grant Ffioedd Dysgu [3]	(£945m)	£0m	£945m	£0m	£0m	£945m
Benthyciad Ffioedd Dysgu RAB [4]	(£66m)	(£201m)	(£135m)	(£3m)	(£204m)	(£138m)
Diddymiad Rhannol [5]	(£76m)	(£74m)	£2m	£0m	(£74m)	£2m
Grant CCAUC [6]	(£46m)	(£84m)	(£38m)	(£1m)	(£85m)	(£39m)
Rhan-amser						
Grant Cwrs [7]	(£16m)	£0m	£16m	£0m	£0m	£16m
Grant Cynhaliaeth [8]	£0m	(£124m)	(£124m)	(£4m)	(£128m)	(£128m)
Benthyciad Cynhaliaeth RAB [9]	£0m	£6m	£6m	£0m	£6m	£6m
Benthyciad Ffioedd Dysgu [10]	£38m	£29m	(£9m)	£1m	£30m	(£8m)
Grant CCAUC [11]	(£94m)	(£61m)	£33m	(£2m)	(£63m)	£31m
RAB llawn amser [12]	9.6%	12.3%	2.7%		12.3%	2.7%
RAB rhan-amser [12]	-27.8%	-17.9%	10.0%		-17.9%	10.0%
Cyfanswm arian parod [13]	(£1,541m)	(£1,228m)	£313m	(£22m)	(£1,251m)	£291m
Cyfanswm nad yw'n arian parod [14]	(£162m)	(£291m)	(£130m)	(£3m)	(£294m)	(£132m)
Cyfanswm cwmpas costau [15]	(£1,703m)	(£1,520m)	£183m	(£25m)	(£1,545m)	£158m

Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn dangos gwariant trysorlys a'r ffigurau cadarnhaol yn adlewyrchu incwm neu arbediad.

* Cyfradd disgownt a throthwyon ad-dalu wedi'u rhewi am bum mlynedd.

[1] Grant Cynhaliaeth Cyfartalog fesul myfyriwr israddedig llawn amser o £2,541 yn y waelodlin a £5,541 yn yr argymhelliad.

[2] Benthyciad Cynhaliaeth Cyfartalog fesul myfyriwr israddedig llawn amser o £3,454 yn y waelodlin a £2,394 yn yr argymhelliad. RAB yw amcangyfrif o gyfanswm y benthyciad na fydd yn cael ei ad-dalu.

[3] Grant Ffioedd Dysgu o hyd at £5,190 fesul myfyriwr israddedig llawn amser yn y waelodlin.

[4] Benthyciad Ffioedd Dysgu fesul myfyriwr israddedig llawn amser o hyd at £3,810 yn y waelodlin a £9,000 yn yr argymhelliad. RAB yw amcangyfrif o gyfanswm y benthyciad na fydd yn cael ei ad-dalu.

[5] Diddymiad o hyd at £1,500 ar Fenthyciadau Cynhaliaeth pan fo'r ad-dalu'n dechrau. Mae'r cynllun wedi'i gynnwys yn y system a argymhellir hefyd, fel swm dal ar gyfer y cymhelliant i raddedigion a amlinellir yn Adran 8.5.

[6] Cyllid grant ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyrsiau sy'n costio mwy na £9,000 i'w haddysgu.

[7] Grant Cwrs Cyfartalog fesul myfyriwr israddedig rhan-amser o £527 yn y waelodlin.

[8] Grant Cynhaliaeth Cyfartalog fesul myfyriwr israddedig rhan-amser o £1,995 yn yr argymhelliad.

[9] Grant Cynhaliaeth Cyfartalog fesul myfyriwr israddedig rhan-amser o £509 yn yr argymhelliad. RAB yw amcangyfrif o gyfanswm y benthyciad na fydd yn cael ei ad-dalu (mae gwerth cadarnhaol yn dangos bod disgwyl i unigolion ad-dalu benthyciadau llawn, yn ogystal â rhywfaint o'r llog neu'r cyfan ohono).

[10] Benthyciadau ar gyfer ffioedd dysgu rhan-amser yn y waelodlin a'r argymhelliad. RAB yw amcangyfrif o gyfanswm y benthyciad na fydd yn cael ei ad-dalu (mae gwerth cadarnhaol yn dangos bod disgwyl i unigolion ad-dalu benthyciadau llawn, yn ogystal â rhywfaint o'r llog neu'r cyfan ohono).

[11] Cyllid grant ychwanegol a ddarperir i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i gymedroli ffioedd dysgu rhan-amser ac i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyrsiau sy'n costio mwy na £9,000 cyfwerth llawn amser i'w haddysgu.

[12] RAB yw canran a fodelwyd a ddefnyddir i amcangyfrif costau llawn darparu benthyciadau i'r Llywodraeth. Mae'n cynnwys darpariaeth cymorthdal llog (cost amcanol i'r Llywodraeth o gymorthdal benthyciadau myfyrwyr) a darpariaeth dileu dyled (swm nad yw'n cael ei ad-dalu yn sgil marwolaeth, anabled neu beidio ag ennill dros y trothwy ad-dalu yn ystod oes y benthyciad). Mae RAB negyddol (yn achos rhan-amser) yn dangos bod disgwyl i unigolion ad-dalu'r benthyciad a rhywfaint o'r llog.

[13] Mae costau arian parod yn cynnwys yr holl grantiau a delir ymlaen llaw: Cynhaliaeth [1][8], Ffioedd Dysgu [3], CCAUC [6] [11] a Chwrs [7].

[14] Mae costau nad ydynt yn arian parod yn cynnwys yr holl gostau amcanol yn y dyfodol (mewn termau arian cyfredol) a fydd yn codi o beidio ag ad-dalu benthyciad, naill ai drwy RAB [2] [4] [9] [10] neu ddiddymiad rhannol o Fenthyciadau Cynhaliaeth [5].

[15] Cyfanswm amcanol y costau arian parod a'r costau nad ydynt yn arian parod y pecyn cymorth i fyfyrwyr yn gyffredinol.

Argymhellion:

Cymorth ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir:

- Mae myfyrwyr ôl-raddedig yn derbyn yr un lefel o gymorth cynhaliath a ffioedd dysgu â myfyrwyr israddedig (h.y. Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at yr uchafswm cyfredol o £9,000; Grant Cynhaliath nad yw'n amodol ar brawf modd; a grant sy'n amodol ar brawf modd neu fenthyciad nad yw'n amodol ar brawf modd).
- Ni ddylai'r Benthyciad Ffioedd Dysgu uchaf sydd ar gael i fyfyrwr o Gymru sy'n astudio y tu allan i Gymru fod yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol yng Nghymru.
- Dylid cyflwyno proses ailymgeisio am gymorth i unrhyw fyfyrwr sydd am ddilyn cwrs ôl-raddedig a addysgir (boed yn flwyddyn astudio ychwanegol wedi'i hychwanegu at eu cwrs gradd israddedig neu'n gwrs gradd Meistr annibynnol).

Lefel ffioedd dysgu myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir:

I reoli swm y buddsoddiad cyhoeddus/cyfraniad y llywodraeth yng nghost darpariaeth ôl-raddedig a addysgir, argymhellir bod:

- SAU yng Nghymru'n parhau i bennu eu lefelau ffioedd eu hunain ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig a addysgir.
- Ond dylid cytuno ar lefel uchaf y cymorth ffioedd drwy CCAUC ar gyfer myfyrwyr Cymru at ddiebnon cyllido/benthyciadau ffioedd (hyd at yr uchafswm cyfredol o £9,000).
- Byddai gofyn hefyd i CCAUC gael tystiolaeth fanwl o ddata costau hanesyddol hefyd wrth bennu'r gyfradd ffioedd/benthyciadau uchaf.
- Disgwylir i'r Cwrs Meistr fod yn gwrs blwyddyn ond rydym yn nodi Adolygiad Furlong o Hyffordiant Cychwynnol Athrawon ac yn cefnogi rhaglen ddwy flynedd ar gyfer y myfyrwyr hyn.

Pynciau ôl-raddedig a addysgir cost uchel:

- Dylid ategu'r ffi gyda thaliadau premiwm CCAUC yn uniongyrchol i SAU. Taliad i adlewyrchu y gost addysgu y cytunwyd arni.

9.4 Astudiaeth drawsffiniol

9.4.1 Mae'r Panel Adolygu wedi ystyried yn ddwys a ddylid ariannu myfyrwyr o Gymru i astudio y tu allan i Gymru ac wedi dod i'r casgliad bod galluogi myfyrwyr i astudio ar draws ffiniau cenedlaethol yn cynnwys yn Ewrop, ac ymhellach o bosibl, o fudd i fyfyrwyr a Chymru. Argymhellir y dylid darparu cymorth i fyfyrwyr sy'n hano o Gymru sy'n dewis astudio mewn manau eraill o'r DU neu mewn aelod-wladwriaethau eraill yn yr Undeb Ewropeaidd, yn dibynnu ar natur perthynas barhaus y DU â'r UE ar ôl i'r trafodaethau gadael ddod i ben.⁵⁷

⁵⁷ Cyfeirio at a fydd y DU, er enghraifft, yn ymuno â'r Cytundeb Ardal Economaidd Ewropeaidd yn dilyn Brexit ac yn cymryd rhan yn ei pholisïau mewn perthynas ag ymchwil (yn cynnwys Horizon 2020) a symudedd myfyrwyr/dysgwyr (yn cynnwys Erasmus+).

9.4.2 Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd hefyd o gynnal cynllun peilot i weld a yw hi'n bosibl ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu hwnt i'r DU a'r UE ar gyfer myfyrwyr sy'n hano o Gymru sy'n dewis astudio ymhellach o gartref ar gyfer eu rhaglen radd gyfan⁵⁸. Byddai'r cynllun peilot arfaethedig hwn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n hano o Gymru sy'n dymuno astudio gyda darparwyr addysg uwch dielw y tu allan i'r UE a sefydliadau sydd â hanes llwyddiannus o gynnig darpariaeth o safon (fel y cytunir arno gyda CCAUC).

9.4.3 Ers cyhoeddi'r Adroddiad Interim, mae'r Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau wedi cyhoeddi Papur Gwyn⁵⁹ yn amlinellu newidiadau arfaethedig i'r sector AU yn Lloegr. Datgelodd y papur hwn y gall ffioedd dysgu mewn SAU yn Lloegr godi'n uwch na'r £9,000 cyfredol yn amodol ar gymeradwyaeth y senedd, yn gysylltiedig ag ansawdd yr addysgu. Credwn y dylid cynyddu'r Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael i israddedigion llawn amser o Gymru sy'n astudio yn Lloegr er mwyn parhau i dalu costau dysgu pe bai ffioedd yn codi.

Argymhellion:

Yn amodol ar reoleiddio angenrheidiol:

- Dylai cymorth i fyfyrwyr fod yn gludadwy ac ar gael i fyfyrwyr sy'n hano o Gymru sy'n dewis astudio mewn manau eraill o'r DU neu mewn aelod-wladwriaethau eraill yn yr UE (yn amodol ar y DU yn aros yn yr UE).
- Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o gynnal cynllun peilot i weld a yw hi'n bosibl neu'n ddymunol ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu allan i'r DU a'r UE – i fyfyrwyr sy'n hano o Gymru sy'n dewis astudio ymhellach o gartref ar gyfer eu rhaglen radd gyfan. (Byddai'r cynllun peilot arfaethedig ar gyfer astudiaethau mewn sefydliadau dielw sydd â hanes llwyddiannus o gynnig darpariaeth o safon).

9.5 Cymhellion i raddedigion

9.5 Mae'r Panel Adolygu'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gymell myfyrwyr, yn y tymor canolig, i ddod â'u sgiliau neu i gadw eu sgiliau er lles Cymru. Felly, dylid cymell myfyrwyr sy'n gweithio yng Nghymru neu'n dychwelyd i weithio yma i wneud hynny er enghraifft, drwy ddileu rhan o'u benthyciad. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cydnabod yr anawsterau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu hyn ac yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cyflawni hyn, mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM, er mwyn caniatáu diddymiad rhan o fenthyciad y rhai sy'n gweithio mewn swyddi yng Nghymru sy'n gofyn am ad-dalu benthyciad. At ddibenion modelu ariannol, mae cost amcanol y cynllun dileu rhannol cyfredol (£74miliwn) wedi'i gynnwys fel swm dal, y gellir ei ddefnyddio ar gyfer y cymhelliant arfaethedig i raddedigion.

⁵⁸ Nid yw'r cynnig hwn o gynllun peilot yn cyfeirio at raglenni astudio dramor na rhaglenni cyfnewid cyfredol fel Erasmus+, ble mae rhan o raglen radd yn cael ei hastudio y tu allan i'r DU, ond mae'n cyfeirio at fyfyrwyr sydd am wneud rhaglen astudio gyfan y tu allan i'r DU.

⁵⁹ Gweler Adran 6: Y cyd-destun ehangach.

Argymhelliad:

- Llywodraeth Cymru i gymell myfyrwyr, yn y tymor canolig, i ddod â'u sgiliau neu i gadw eu sgiliau er lles Cymru. Llywodraeth Cymru i ystyried sut i gyflawni hyn er mwyn caniatáu dileu rhan o fenthyciad y rhai sy'n gweithio mewn swyddi yng Nghymru a oedd yn gofyn am ad-daliad benthyciad.

9.6 Cymorth wedi'i dargedu

9.6.1 Mae ein cynigion hyd yma yn cydnabod yr heriau mae llawer o bobl yn eu hwynebu wrth geisio dilyn cwrs addysg uwch yn llwyddiannus. Fodd bynnag, credwn fod yna dri grŵp o bobl sy'n wynebu mwy o heriau oherwydd eu cefndir neu eu hamgylchiadau, ac rydym yn cynnig darparu cymorth ariannol a chymdeithasol ychwanegol i'r rhain fel y gallant hwy, a Chymru, elwa ar astudiaeth addysg uwch. Y grwpiau hyn yw myfyrwyr sydd â phrofiad o ofal, neu sydd wedi derbyn cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol; myfyrwyr ag anabledd; a'r rhai sy'n rhieni. Mae'r paragraffau canlynol yn cynnwys y cynigion a'r sail resymegol iddynt.

Myfyrwyr â phrofiad o ofal

9.6.2 Mae plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal, neu sydd wedi derbyn cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol, yn dioddef llawer o anfanteision, yn enwedig colli ysgol weithiau a'r stigma sy'n gysylltiedig â bod mewn gofal. Rydym yn nodi bod ystadegau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru⁶⁰ yn dangos yn glir bod cyrhaeddiad ysgol y rhai sydd â phrofiad o ofal, ac sydd wedi derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn llawer is na'r rhai sydd heb brofiad o'r fath. Rydym yn bendant, felly, na all addysg uwchoresgyn yr anfantais hon ar ei phen ei hun a'i bod hi'n hanfodol i holl rannau'r system addysg a'r system gofal cymdeithasol gydweithio i godi dyhead ac i sicrhau bod llwybrau ar gael i sicrhau cymaint o gyfleoedd addysgol â phosibl i bawb sydd â'r profiad hwn. Rydym yn cydnabod hefyd nad yw'r rhai sy'n gadael gofal yn cael eu nodi gan ddangosyddion daearyddol anfantais ac felly rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i nodi'r rhai â phrofiad o wasanaethau gofal cymdeithasol.

9.6.3 Ymhellach, mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru⁶¹ yn dangos bod yr anfanteision niferus mae'r rhai â phrofiad o ofal yn eu hwynebu yn golygu nad oes ganddynt, efallai, y sgiliau niferus a'r cymorth angenrheidiol i symud yn ddidrafferth drwy'r system addysg uwch. Rydym felly'n cynnig y dylai darparwyr addysg bellach ac uwch ddarparu pecynnau cymorth wedi'u personoli i'r rhai â phrofiad o ofal, a bod yn barod i drosglwyddo credydau a bod yn hyblyg i ganiatáu i fyfyrwyr gychwyn cyrsiau sawl gwaith. Rydym hefyd yn nodi ac yn cefnogi'n llawn y gydnabyddiaeth a roddir eisoes i'r rhai â

⁶⁰ <http://gov.wales/statistics-and-research/wales-children-need-census/?lang=cy>

⁶¹ <http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-educational-experiences-opinions-attainment-achievement-aspirations-looked-after-children-wales/?lang=cy>

phrofiad o ofal gan 'Reoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru) 2011'.

- 9.6.4 O ystyried yr uchod, credwn fod y system gyllido a gynigiwyd gennym, a'r Fwrsariaeth Addysg Uwch a nodwyd uchod, yn darparu sylfaen i gefnogi'r rhai sy'n gadael gofal; gyda'r cafeat y dylai'r rhai sydd â phrofiad o ofal, yn ôl diffiniad, dderbyn y Grant Cynhaliaeth uchaf; ac y dylid bod yn hyblyg i ganiatáu i fyfyrwyr gychwyn cwrs sawl gwaith.

Myfyrwyr ag anabledd

- 9.6.5 Rydym yn cydnabod bod myfyrwyr ag anabledd yn wynebu heriau penodol wrth gwblhau cwrs addysg uwch yn llwyddiannus ac yn cydnabod hefyd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ledled Cymru dros y blynyddoedd diwethaf i gynorthwyo myfyrwyr ag anableddau i allu elwa ar gwrs addysg uwch. Clywodd yr Adolygiad gan aseswr Lwfans i Fyfyrwyr Anabl gyda phrofiad eang o asesu myfyrwyr y Brifysgol Agored, a gan eraill, am rai o'r heriau sy'n parhau ac mae'r Panel Adolygu'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a ellid cynnig cymorth pellach yma, mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM.

Myfyrwyr sy'n rhieni

- 9.6.6 Mae myfyrwyr sy'n rhieni yn wynebu heriau penodol os yw eu plant o oedran ysgol neu'n iau. Mae'r Panel Adolygu yn cydnabod bod y ddarpariaeth statudol bresennol drwy'r Grant Gofal Plant, lle gellir talu 85% o gostau gofal plant hyd at uchafswm o £161.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn dibynnol (£274.55 yr wythnos ar gyfer dau blentyn neu fwy). Mae cymorth drwy'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn (FCF), sy'n gronfa yn ôl disgrisiwn, yn cael ei gyfyngu i fyfyrwyr sy'n astudio yn y Brifysgol Agored yng Nghymru, er bod y FCF ar gael yn gyffredinol i fyfyrwyr sy'n astudio mewn colegau AB yng Nghymru. Mae'r Panel Adolygu yn nodi bod heriau cymdeithasol ac ariannol i fyfyrwyr sy'n rhieni ac argymhellwn fod Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, yn gweithio gyda'r prifysgolion ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) i sicrhau cymorth ariannol priodol i helpu myfyrwyr sy'n rhieni i gyfuno eu hastudio â'u cyfrifoldebau teuluol.

Argymhellion:

Myfyrwyr gyda phrofiad o ofal

- Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud pob ymdrech i nodi'r rhai sydd â phrofiad o ofal.
- Dylai darparwyr addysg bellach ac uwch ddarparu pecynnau cymorth wedi'u personoli a bod yn barod i drosglwyddo credydau a bod yn hyblyg i ganiatáu dechrau cwrs sawl gwaith.
- Dylai'r rhai â phrofiad o ofal dderbyn uchafswm y Grant Cynhaliaeth.

Myfyrwyr ag anableddau

- Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM, i ystyried pa gymorth pellach y gellir ei gynnig.

Myfyrwyr sy'n rhieni

- Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, i weithio gyda'r prifysgolion ac UCM i ddatblygu strategaethau i helpu myfyrwyr sy'n rhieni i gyfuno eu hastudio â'u cyfrifoldebau teuluol.

9.7 Argymhellion ychwanegol

- 9.7 Mae'r adrannau canlynol yn mynd y tu hwnt i'r pecyn cymorth sylfaenol i fyfyrwyr a addysgir israddedig ac ôl-raddedig, i fynd i'r afael â rhai o'r meysydd allweddol eraill o'r system addysg uwch sy'n gofyn am gyllid gan y llywodraeth. Lle bo'n gymwys, amlinellir y buddsoddiad ariannol sydd ei angen i gefnogi pob argymhelliad. Bydd cyllid ar gael o ganlyniad i'r argymhellion mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr, a ddisgrifir yn yr adran flaenorol.

9.8 Cyllid ymchwil ôl-raddedig

- 9.8.1 Mae ymchwil wrth wraidd y system addysg uwch a fydd yn gwasanaethu Cymru orau ac yn helpu i sbarduno swyddi a thwf i Gymru. Mae'n hanfodol datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr os yw Cymru am gael gweithlu sy'n gallu sbarduno arloesedd a chynnal ymchwil sylfaenol sy'n ategu'r arloesedd hwnnw. Rydym wedi clywed gan Brif Gyngorydd Gwyddonol Cymru ac eraill nad oes digon o fàs critigol o ymchwilwyr yng Nghymru mewn rhai meysydd pwysig ac felly cynigiwn fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu rhaglen uchelgeisiol i hyfforddi cenedlaeth newydd o ymchwilwyr yng Nghymru.

- 9.8.2 I ddatblygu carfan o ymchwilwyr yng Nghymru ac i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg, argymhellir y dylid sicrhau bod rhywfaint o gyllid Llywodraeth Cymru ar gael i gynorthwyo darpariaeth ymchwil ôl-raddedig. Cynigiwn ysgoloriaethau ymchwil ôl-raddedig o hyd at dair blynedd, yn y lle cyntaf, ac y dylid denu 150 o fyfyrwyr ymchwil newydd bob blwyddyn.⁶² Nid ydym yn

⁶² Awgrymir y dylid gosod y bwrsari ar lefel sy'n ddigonol i dalu'r ffi a chyflog ar gyfraddau'r Cyngor Ymchwil – amcangyfrif bod hynny'n £25,000 y flwyddyn ar gyfer pynciau gwyddoniaeth.

gweld hon fel rhaglen tair blynedd, ond cynigiwn raglen tair blynedd i ddechrau gydag adolygiad.

9.8.3 Dylid cyllido'r ysgoloriaethau hyn mewn partneriaeth gyfartal driphlyg rhwng Llywodraeth Cymru, y Brifysgol lle bydd y myfyriwr ymchwil wedi'i leoli, a chyllidwr arall naill ai o'r sector preifat, cyhoeddus neu'r trydydd sector. Felly, dylai'r ysgoloriaeth fod am ddim i'r myfyriwr unigol. Byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu (ar sail cost amcangyfrifedig o £25,000 y flwyddyn i gyllido Rhaglen Hyfforddiant Doethurol tair blynedd) £1.25 miliwn yn y flwyddyn gyntaf, yn codi i £3.75 miliwn y flwyddyn ym mlwyddyn tri (ar gyfradd sefydlog, 450 bwsari). Byddai'r buddsoddiad hwn ar ben y Cyllid Ymchwil Ôl-raddedig a ddyrennir yn flynyddol gan CCAUC (£5 miliwn). Dros gyfnod o bum mlynedd, byddai angen i Lywodraeth Cymru gyfrannu cyfanswm o £1.5 miliwn o'r arian a fyddai'n cael ei ryddhau o'r Grant Ffioedd Dysgu israddedig llawn amser.

9.8.4 Credwn y byddai'r ysgoloriaethau hyn ar gael i astudio mewn unrhyw faes ymchwil, cyhyd â bod y bartneriaeth driphlyg a ddisgrifir uchod yn bodoli; a chynigiwn y gellid gweinyddu'r ysgoloriaethau hyn yn flynyddol gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, yn amodol ar gytuno ar y cynnig mewn perthynas â'r Gymdeithas yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Argymhellion:

Dylid llunio Cynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ôl-raddedig Cymru fel a ganlyn:

- Dylai fod 150 o ysgoloriaethau y flwyddyn am dair blynedd i ddechrau ac yna dylid cynnal adolygiad, gyda'r ysgoloriaethau'n cwmpasu ffioedd a chynhaliaeth
- Byddai'r gost yn cael ei rhannu'n gyfartal rhwng prifysgol y myfyriwr; y sefydliad partner (busnes, sefydliad trydydd sector neu sefydliad rhoddwr arall); a Llywodraeth Cymru.

9.9 Cyllid ymchwil o ansawdd a throsglwyddo gwybodaeth

(i) Ymchwil o Ansawdd

9.9.1 Mae'r system cymorth deuol wedi bod wrth wraidd llwyddiant yr ymdrech ymchwil addysg uwch ledled y Deyrnas Unedig. Yn y system hon, mae'r wladwriaeth yn darparu ffrwd o gyllid i brifysgolion ar sail asesiad cyfnodol o ansawdd ymchwil (cyllid ymchwil o ansawdd) – aseswyd hyn ddiwethaf drwy Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014. Mae prifysgolion hefyd yn canfod a chystadlu am gyllid ymchwil/prosiect o ffynonellau cyhoeddus a ffynonellau nad ydynt yn gyhoeddus amrywiol (fel partneriaid cyngor ymchwil o fewn partneriaeth Cynghorau Ymchwil y DU, diwydiant a llywodraeth).

9.9.2 Darperir cyllid ymchwil o ansawdd i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru gan Lywodraeth Cymru, drwy CCAUC⁶³. Mae'r ffrwd gyllido hon yn hanfodol wrth

⁶³ Dyranwyd £71 miliwn o Gyllid Ymchwil o Ansawdd gan CCAUC i Brifysgolion yng Nghymru yn 2015/16. http://www.hefcw.ac.uk/policy_areas/research/funding_research_cy.aspx.

ddarparu'r buddsoddiad gwaelodlin sy'n galluogi datblygiad strategol hirdymor ymchwil a chreu màs critigol o allu ymchwil. Mae sicrwydd a natur ragweladwy cyllid ymchwil o ansawdd yn bwysig o ystyried y gorwelion cynllunio hir y mae'n rhaid i strategaethau ymchwil prifysgolion fynd i'r afael â nhw. Mae'r cyllid hwn yn galluogi i adnoddau gael eu dyrannu i ymchwil sy'n cael blaenoriaeth uchel, sy'n newydd neu na fyddai'n sicrhau cyllid gan Gynghorau Ymchwil o bosibl. Hefyd, gellir defnyddio ymchwil o ansawdd i ddenu cyllid ymchwil allanol o'r UE neu o ffynonellau elusennol. Mae pwysigrwydd cyllid ymchwil o ansawdd wedi cael sylw eang⁶⁴.

9.9.3 Am y rhesymau hyn, mae'r Panel yn credu bod cyllid ymchwil o ansawdd yn hollbwysig ac y dylid ei gynnal, yn y man lleiaf, ar y lefel gyfredol o £71 miliwn y flwyddyn mewn termau real dros y pum mlynedd nesaf⁶⁵. Mae'r Panel hefyd yn credu ei bod yn rhesymol disgwyl bod sefydliadau addysg uwch yn dangos i CCAUC bob blwyddyn sut maent wedi defnyddio'r cronfeydd hyn yn strategol.


9.9.4 Yn ystod y degawd cyn 2015/16 roedd cyfradd y cyllid ymchwil o ansawdd yng Nghymru ar ystod o fesurau yn gyson is na holl wledydd eraill y DU⁶⁶. Fodd bynnag, yn 2015/16, mae cyfradd y cyllid ymchwil o ansawdd yng Nghymru am bob ymchwilydd yn uwch na chyfradd Lloegr a'r DU - er ei bod dal yn is na chyfraddau'r Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Ffigur 8 yn dangos y darlun cyffredinol.

⁶⁴ Gweler *A Review of QR Funding in English HEIs*, Public and Corporate Economic Consultants a Centre for Business Research, Prifysgol Caergrawnt (2014): http://www.hefce.ac.uk/media/hefce/content/pubs/indirreports/2014/A.review.of.QR.funding.in.English.HEIs/2014_qrreview.pdf.

⁶⁵ Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid cyffredinol i SAU i ddatblygu rhagoriaeth ymchwil drwy'r cynlluniau canlynol

- Sêr Cymru I (2013-2018): £50 miliwn, ac mae £28 miliwn o hwn yn cael ei gyfrannu gan Lywodraeth Cymru.
- Sêr Cymru II (2015-2023): £39 miliwn, ac mae £7.7 miliwn o hwn yn cael ei gyfrannu gan Lywodraeth Cymru.
- Cynllun MSCA COFUND (2015-2020): £17 miliwn, ac mae £1.8 miliwn o hwn yn cael ei gyfrannu gan Lywodraeth Cymru.
- Buddsoddiad cyfalaf strategol unigol o £1.7 miliwn gan Lywodraeth Cymru yn 2015, ar gyfer offer ymchwil. Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn yn: <https://businesswales.gov.wales/expertisewales/cy/cymorth-chyllid-i-ymchwilwyr>

Ffigur 8: Cyllid ymchwil o ansawdd wedi'i normaleiddio yn ôl nifer yr ymchwilwyr⁶⁶



Ffynhonnell: Cylchlythron grantiau rheolaidd cyrff cyllido AU; cofnod staff HESA

Argymhellion:

Cyllid ymchwil o ansawdd

- Dylid cynnal cyllid ymchwil o ansawdd Cymru mewn termau real ar ei lefel gyfredol o £71 miliwn y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf.
- Dylai sefydliadau addysg uwch Cymru ddangos i CCAUC bob blwyddyn sut maent wedi defnyddio'r cronfeydd hyn yn strategol.

(ii) Trosglwyddo Gwybodaeth

9.9.5 Mae'r Panel Adolygu yn argyhoeddedig bod angen gwell partneriaeth rhwng prifysgolion, llywodraeth a diwydiant os yw Cymru am elwa'n iawn ar ei phrifysgolion er mwyn sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol gorau posibl o'r prifysgolion. Mae pob prifysgol yn cyfrannu at yr economi ac at y gymdeithas drwy eu gweithgareddau craidd, sef addysgu ac ymchwil, a drwy ddarparu sgiliau sy'n berthnasol i gyflogaeth ar bob lefel.

9.9.6 Rydym yn cydnabod mai un o'r ffyrdd allweddol y mae prifysgolion yn darparu manteision economaidd a chymdeithasol yw drwy addysg graddedigion. Er ein bod yn cydnabod yn llawn mai dim ond un o blith llawer o nodweddion addysg brifysgol yw sgiliau cyflogadwyedd, byddem yn disgwyl y bydd nifer o israddedigion yn derbyn addysg mewn entrepreneuriaeth a bydd gan y rhan fwyaf o raglenni israddedig ac ôl-raddedig fyrdau cynghori cyflogwyr⁶⁷.

9.9.7 Fodd bynnag, er mwyn sicrhau'r manteision economaidd a chymdeithasol gorau posibl gan addysg uwch rydym yn argymhell ffrwd gyllido fel a ganlyn.

⁶⁶ Ffigurau wedi'u cymryd o wefannau cynghorau cyllido a ffynonellau eraill, ac sy'n amodol ar gael eu dilysu ar hyn o bryd, mae ffigurau staffio HESA ar gyfer 2015/16 wedi'u hamcangyfrif gan nad yw'r ystadegau hyn ar gael eto. Mae ffigur ymchwil o ansawdd Gogledd Iwerddon ar gyfer 2015/16 hefyd wedi'i amcangyfrif.

⁶⁷ Gall myfyrwyr gael eu cynrychioli ar y byddau cynghori cyflogwyr hyn hefyd, fel sy'n briodol.

Gan ddechrau gyda gweithgarwch economaidd, mae ymchwil yn dangos^{68,69} y gall y prifysgolion hynny sydd â digon o weithgarwch ymchwil o ansawdd digonol gael mwy o effaith (ac effaith drawsnewidiol) ar dwf economaidd yn eu rhanbarth. Mae ffactorau galluogi eraill sy'n ehangu'r potensial hwn ar gyfer effaith economaidd yn cynnwys hyd a lled y gweithgarwch gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, mathemateg a meddygaeth a chyrhaeddiad byd-eang y sefydliad.

- 9.9.8 Felly, argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu fframwaith cyllido pellach gyda'r nod o gefnogi trosglwyddo gwybodaeth sy'n adlewyrchu hyd a lled y gwaith ac ymgysylltu â diwydiant. Yr egwyddor arweiniol yw y dylid sicrhau cymaint o hyblygrwydd â phosibl ac y dylid defnyddio system debyg i'r system cymorth deuol sy'n gweithio cystal wrth gyllido ymchwil.
- 9.9.9 Bydd dwy elfen i'r system cefnogi trosglwyddo gwybodaeth hon (system 'cymorth deuol' ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth). Yr elfen gyntaf fydd ffrwd gyllid sydd â'r nod o gefnogi sefydliadau ac a fydd yn cael ei sbarduno, fel gyda chyllid ymchwil o ansawdd, gan hyd a lled gweithgarwch STEMM 3* a 4* fel y'i mesurir gan y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil. Byddai'r elfen hon yn cael ei sbarduno hefyd gan incwm blynyddol o grantiau a chontractau ymchwil, myfyrwyr ymchwil a gyllidir yn allanol, a lefel o weithgarwch masnachol cydweithredol fel y'i mesurir, er enghraifft, gan yr Arolwg Rhyngweithiad Addysg Uwch-Busnes a'r Gymuned.
- 9.9.10 Mae màs critigol yn hanfodol i sicrhau'r manteision economaidd mwyaf, ond byddai cyllido i raddfa gan mwyaf yn debygol o ddileu rhai prifysgolion â gweithgareddau hynod arbenigol neu os yw eu daearyddiaeth yn bwysig i economïau lleol. Felly, argymhellir y dylai elfen gyntaf y cymorth trosglwyddo gwybodaeth gyllido nifer fach o ganolfannau. Dylai'r canolfannau hyn gael eu gweithredu mewn a gan y prifysgolion mwyaf ond gyda dull colegol sy'n galluogi prifysgolion llai i elwa ar effeithiau graddfa a'r ystod o arbenigedd sydd ar gael (gweithredu drwy staff cyswllt a benodir gan y prifysgolion llai ac sy'n atebol i'r prifysgolion hynny ond a gyllidir gan y ganolfan). Byddai disgwyl i'r canolfannau hyn fod yn hyblyg ac ystwyth er mwyn iddynt allu ymateb yn gadarnhaol ac yn gyflym i gyfleoedd masnachol newydd a galw'r diwydiant. Gallai'r gweithgareddau y byddai'r canolfannau hyn yn eu galluogi gynnwys

⁶⁸ Mae effeithiau 'gorlifant gwybodaeth', yn ogystal â'r effeithiau clystyru/cydgrynhoi sy'n gysylltiedig ag agosrwydd prifysgolion/sefydliadau ymchwil a chwmnïau, yn nodwedd o'r deunydd darllen ar systemau arloesedd rhanbarthol a datblygiad economaidd rhanbarthol. Mae 'effaith [Prifysgol] Caergrawnt' ar dwf diwydiant yn y meysydd technoleg a gwyddorau bywyd yn cael ei dyfynnu'n aml fel achos paradeim, felly hefyd y clwstwr gwybodaeth sy'n gysylltiedig â phrifysgolion/sefydliadau yn a ger Boston, Mass.. Gweler hefyd: Gunasekara, C., 'Reframing the role of universities in the development of regional innovation systems', *The Journal of Technology Transfer* (2006) 31: 101–113; a Mowery, D. C., Sampat, B. N., 'The Bayh-Dole Act of 1980 and university–industry technology transfer: a model for other OECD governments?', *Journal of Technology Transfer* (2005) 30: 115–127.

⁶⁹ Mae tystiolaeth o fàs critigol ac ansawdd ymchwil o'r DU yn cael ei chyflwyno a'i chrynhai yn Benna, R., Berche, B., 'Managing research quality: critical mass and optimal academic research group size', *IMA Journal of Management Mathematics* (2012) 23: 195–220, sy'n nodi yn (tud 196) fod "research quality does improve with the size of a group of researchers, [but] this is a continuous and transient phenomenon... There is also a lower critical mass that marks the size which a group should achieve for it to be viable in the long term. Both the upper and lower critical masses are discipline dependent." Mae'r awduron yn dod i'r casgliad "the optimal research group size for a given discipline is frequently slightly above its upper critical mass."

timau i hyrwyddo a rheoli'r berthynas rhwng y brifysgol a diwydiant a galluogi gweithgarwch trosglwyddo technoleg drosiadol effeithiol.

- 9.9.11 Dylai ail elfen y system cefnogi trosglwyddo gwybodaeth fod yn gynllun ymateb sy'n caniatáu i brifysgolion, mewn cydweithrediad â diwydiant, gynnig am gymorth ar gyfer prosiectau penodol. Er bod angen i'r meysydd a gyllidir adlewyrchu cyfle ac angen a chael eu creu ar y cyd gan ddiwydiant a'r byd academaidd, gallai rhai enghreifftiau gynnwys cyllid i alluogi datblygiad ymchwil i brawf o gysyniad; cyllid i wella'r cyfle ar gyfer cynyddu gwerth rhanddeiliaid drwy ddatblygiadau technolegol; cyllid i gefnogi buddsoddiad uniongyrchol tramor mewn ymchwil a datblygu yng Nghymru; cyllid i gefnogi gwell ymgysylltu rhwng timau'r brifysgol a diwydiant fel secondiadau; gwasanaethau cymorth busnes; cyllid i gynorthwyo i greu allgynhyrchion gwerth uchel; a chyfleusterau deori. Dylid pwysleisio hefyd na ddylid cyfyngu'r meysydd a all elwa ar y prosiectau hyn i feysydd sy'n seiliedig ar STEMM. Gallai cyfleoedd fodoli, er enghraifft, yn y diwydiannau creadigol neu ym maes cyllid.
- 9.9.12 Cynigir y dylai CCAUC alluogi dwy elfen y system cefnogi trosglwyddo gwybodaeth hon. Byddai'r rhan gyntaf yn gofyn am ryw £5 miliwn y flwyddyn a'r ail, yn y lle cyntaf, tua £20 miliwn y flwyddyn - dylid cydnabod nad oes algorithm i bennu'r symiau hyn. Y nod yn hytrach yw y dylai'r cyllid a gynigir fod yn ddigon i wneud gwahaniaeth, ac rydym yn argymhell y dylai'r symiau gael eu hadolygu ar ôl tair blynedd. Rhan allweddol o'r gwaith o gyflwyno'r cynlluniau hyn yw y dylai arweinyddiaeth ddod o du partneriaeth well rhwng diwydiant, prifysgolion a llywodraeth ac y dylai pob partner ddisgwyl darparu arweinyddiaeth. Hefyd, mae angen gwneud penderfyniadau'n gyflym iawn er mwyn sicrhau'r hyblygrwydd a'r ystwythder a fydd yn hanfodol i lwyddiant y cynllun.
- 9.9.13 Er bod yr hyn rydym yn ei gynnig rywfaint yn wahanol o ran ffurf i'r gweithgarwch a gyllidir o dan y Gronfa Arloesedd Addysg Uwch (HEIF) gan y Cyngor Cyllido AU yn Lloegr (HEFCE), mae traean o'r holl incwm o weithgarwch trosglwyddo gwybodaeth prifysgolion yno yn cael ei briodoli i effaith y gronfa hon,⁷⁰ gan amcangyfrif bod pob punt o'r gronfa yn cynhyrchu tua £7.90 mewn incwm trosglwyddo gwybodaeth.⁷¹ Nid oes cronfa gyfatebol yng Nghymru.
- 9.9.14 Gan droi at bolisi cymdeithasol, gall Cymru elwa'n fawr ar sylfaen dystiolaeth gref, a dylai barhau i ddyheu am fod yn gymdeithas sy'n gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae'r Adolygiad wedi elwa ar nifer o astudiaethau a gomisiynwyd gan Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) ac mae'n amlwg bod WISERD wedi datblygu i fod yn adnodd pwysig ar gyfer darparu trosglwyddo gwybodaeth mewn ystod eang o'r gwyddorau cymdeithasol. Er y dylai mwyafrif y cyllid ar gyfer WISERD fod

⁷⁰ Coates Ulrichsen, T. *Assessing the Economic Impacts of the Higher Education Innovation Fund: Report for HEFCE*, (2015) tabl 2, t. 19. Mae'r adroddiad yn ymhelaethu hefyd ar fanteision anariannol sylweddol HEIF.

⁷¹ *Ibid.*, t. 40. Mae methodoleg yr adroddiad yn canolbwyntio ar 'ychwanegedd net' ymylol incwm trosglwyddo gwybodaeth o HEIF, gan waredu effeithiau 'diffirwythedd', amnewid mewnbynnau a disodli allbynnau cymaint â phosibl. Y cyfnod dan sylw yn yr adroddiad yw 2006-14.

yn seiliedig ar brosiectau, yn gwbl briodol, argymhellir bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid craidd i WISERD bob pum mlynedd. Trwy wneud hynny, mae disgwyl y dylai WISERD gyd-gynhyrchu ymchwil gyda darpar fuddiolwyr yr ymchwil honno lle bo'n briodol.

Argymhellion:

Trosglwyddo gwybodaeth

- Prifysgolion yn sicrhau bod eu myfyrwyr yn cael eu haddysgu fel y gallant lywio'r economi a'r gymdeithas yn y dyfodol – myfyrwyr yn aml yn cael addysg ar entrepreneuriaeth; a bydd byrddau cynghori cyflogwyr yn gyffredin.
- Prifysgolion yn ymrwmo i sicrhau bod eu hymchwil yn cael yr effaith gymdeithasol ac economaidd fwyaf posibl, a lle bo'n briodol yn cyd-gynhyrchu ymchwil gyda darpar fuddiolwyr.
- Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, i ddarparu system cymorth deuol o gyllido cyfnewid gwybodaeth, gydag oddeutu dwy ganolfan yn cael cyllid craidd i alluogi ymgysylltuad ystwyth a hyblyg rhwng SAU a diwydiant; ynghyd â threfn syml a hyblyg ar gyfer cyllido ar sail prosiect ar gyfer prosiectau a fydd yn effeithio ar economi Cymru.
- Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru i gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi cymdeithasol, bob pum mlynedd, gyda'r disgwyl y bydd mwyafrif ei gyllid yn dod o brosiectau.

9.10 AU drwy gyfrwng y Gymraeg

9.10.1 Rydym wedi derbyn tystiolaeth sylweddol ar fuddioldeb a'r angen i addysg uwch gael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cefnogi gant y cant yr angen i ddatblygu model cyllido cynaliadwy, nid yn unig ar gyfer y sefyllfa bresennol ond, yn bwysig, er mwyn gwella'r ddarpariaeth. Mae'n hanfodol y dylai'r model cyllido hwn alluogi cynnydd graddol yn nifer y pynciau y gellir eu hastudio drwy gyfrwng y Gymraeg; ac y dylai bod potensial hefyd i fyfyrwyr pynciau eraill ddysgu'r Gymraeg fel rhan o'u hastudiaethau, yn enwedig mewn meysydd lle mae'n debygol y bydd angen iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gyrfaoedd maes o law. Mae'r Adolygiad yn cydnabod, a) bod angen datrysiad cenedlaethol; a b) y bydd y datrysiad hwn, yn ôl pob tebyg, yn cynnwys addysg wasgaredig, ond eto cydweithredol, sy'n cynnwys darpariaeth ar-lein a darpariaeth gyfunol. Mae'r Adolygiad wedi derbyn tystiolaeth sy'n cefnogi gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac yn cydnabod y cynnydd pwysig sydd wedi'i wneud o ran AU cyfrwng Cymraeg ers sefydlu'r Coleg.

9.10.2 Credwn y dylai'r Coleg, fel corff ar wahân a sefydlwyd ar y cyd gan holl brifysgolion Cymru, ac sy'n cael ei oruchwylio gan fwrdd o aelodau o brifysgolion ac aelodau annibynnol⁷², barhau i arwain y gwaith o gynllunio a

⁷² Sefydlwyd y Coleg fel cwmni cyfyngedig drwy warant ac elusen gofrestrdig yn 2011. Sail gyfansoddiadol y Coleg yw'r Memorandwm ac Erthyglau Cwmni sydd wedi cael eu cytuno a'u llofnodi gan bob Sefydliad Addysg Uwch yng Nghymru. Mae'r Memorandwm a'r Erthyglau, neu'r Cyfansoddiad, yn sail i ymgorffori'r Coleg ac yn pennu hawliau, disgwyliadau a chyfrifoldebau'r Coleg yn ogystal â'r rheolau Aelodaeth. Mae pob prifysgol yng Nghymru yn aelod, ynghyd â 10 aelod arall o blith rhanddeiliaid a Chadeirydd annibynnol.

chefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar sail strategol yn sector addysg uwch Cymru drwyddo draw. Rydym yn argymhell y dylid cynnal neu gynyddu lefel gyfredol y cyllid ar gyfer y Coleg, a ddarperir drwy CCAUC.

9.10.3 Mae'r Adolygiad o'r farn bod gan y Coleg a SAU gydgyfrifoldeb i weithio gyda chyrff a sefydliadau eraill i gynyddu'r ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Rydym yn argymhell felly bod Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CCAUC, SAU a sefydliadau fel colegau addysg bellach, ysgolion, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol cenedlaethol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf posibl a'r gwerth mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus mewn, a chymorth i, addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Lle bo'n briodol, dylai gwaith y Coleg gael ei gynnwys yn strategaethau ehangach y Llywodraeth sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg. I gefnogi model cyllido cynaliadwy, dylai buddsoddiad blynyddol gan CCAUC y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i raglen ysgoloriaeth gael ei gadw ar lefel y flwyddyn academaidd 2016/17 (£5.8 miliwn) o leiaf.

Argymhellion:

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CCAUC, SAU a rhanddeiliaid eraill fel sefydliadau addysg bellach, ysgolion, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol cenedlaethol er mwyn sicrhau'r effaith uchaf posibl a'r gwerth mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus mewn, a chymorth ar gyfer, addysg uwch cyfrwng Cymraeg
- I gefnogi model cyllido cynaliadwy, dylai buddsoddiad blynyddol gan CCAUC y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i raglen ysgoloriaeth gael ei gadw ar lefel y flwyddyn academaidd 2016/17 (£5.8 miliwn) o leiaf.

9.11 Gwasg Prifysgol Cymru (GPC)

9.11.1 Derbyniodd y Panel Adolygu safbwyntiau cryf am bwysigrwydd Gwasg Prifysgol Cymru o ran cefnogi'r Gymraeg ac astudiaethau Cymraeg yn ehangach; ac mae'r Panel Adolygu wedi'i argyhoeddi ynghylch y rôl bwysig hon. Felly mae'n llwyr gefnogi penderfyniad y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth ar y pryd, ar 15 Mawrth 2016, i gyhoeddi adolygiad annibynnol o gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru.

9.11.2 Mae'r Panel yn llwyr gefnogi cylch gwaith yr adolygiad, a fydd yn edrych ar: a) nodau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd wrth gefnogi'r diwydiant cyhoeddi a llenyddiaeth yng Nghymru ac a yw'r nodau hyn yn cael eu cyflawni; b) datblygiadau digidol yn y diwydiant cyhoeddi ac a yw'r system gyfredol o gymorth yn addas ar gyfer y diwydiant modern; ac c) cymorth ar gyfer cyhoeddi a llenyddiaeth mewn ardaloedd dan anfantais ledled Cymru. Mae'r Panel yn cefnogi egwyddor buddsoddi cyhoeddus, ochr yn ochr â dulliau masnachol, ar gyfer tŷ cyhoeddi

academaidd yng Nghymru ac mae o'r farn y dylai amseru'r adolygiad ganiatáu i'r holl randdeiliaid ddatblygu cynllun busnes cynaliadwy ar gyfer GPC.

9.12 Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW)

9.12.1 Nod Cymru yw bod yn economi seiliedig ar wybodaeth, ac er mwyn llwyddo, rhaid i economïau o'r fath fanteisio ar yr aelodau mwyaf dawnus o'u cymdeithas i roi cyngor; herio a thrafod. Mewn llawer o wledydd mae hyn yn digwydd drwy Gymdeithas Ddysgedig fel y Royal Society of Edinburgh neu'r Royal Society of London. Yn ystod yr Adolygiad hwn rydym wedi cael cyflwyniadau gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, corff cymharol newydd. Mae'r Gymdeithas yn ychwanegiad i'w groesawu i dirwedd ddeallusol Cymru, yn enwedig oherwydd ei gymrodoriaeth amlddisgyblaethol ac amlsector.

9.12.2 Credwn fod ganddi'r potensial i ddatblygu i fod yn adnodd gwirioneddol ar gyfer a) gwella dealltwriaeth y cyhoedd ynglŷn â gwyddoniaeth ac ysgogi a chyfrannu at drafodaethau ac ymgysylltiad y cyhoedd mewn perthynas â materion cyfoes allweddol; b) cyfrannu at ddatblygiad 'pŵer meddal' Cymru drwy hyrwyddo rhwydweithiau rhyngwladol o ddiddordeb yn sefydliadau, diwylliant a gwerthoedd Cymru; c) ysbrydoli a chefnogi doniau ifanc mwyaf disglair Cymru yn y sectorau ymchwil, busnes a chyhoeddus, er mwyn creu gwerth ar gyfer yr economi a'r gymdeithas; ch) darparu cyngor annibynnol a sganio'r gorwel ar draws meysydd o bob math drwy sicrhau bod gan y bobl sy'n llunio a dylanwadu ar bolisi yng Nghymru fynediad i'r arbenigedd cenedlaethol ac yn wir, byd-eang, gorau; d) sicrhau cydnabyddiaeth well o ansawdd yr ysgolheictod sy'n bodoli yng Nghymru ac sy'n gysylltiedig â Chymru; ac dd) hyrwyddo buddiannau ac enw da Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

9.12.3 Fodd bynnag, er mwyn iddi weithredu'n effeithiol, rydym o'r farn bod y Gymdeithas angen y math o gyllid craidd a welir mewn awdurdodaethau eraill. Rydym wedi edrych ar drefniadau cyllido mewn rhannau eraill o'r DU ac yn cydnabod bod sawl model gwahanol ar gyfer cyllido cymdeithasol dysgedig. Rydym yn argymhell y dylai'r Gymdeithas gael cyllid o £1 miliwn bob blwyddyn, drwy law CCAUC yn erbyn cyfres o amcanion y mae'r Gymdeithas a CCAUC wedi cytuno arnynt, gan ystyried heriau a blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Argymhelliad:

- Rydym yn argymhell y dylai Cymdeithas Ddysgedig Cymru gael cyllid o £1 miliwn bob blwyddyn, drwy law CCAUC yn erbyn cyfres o amcanion y mae'r Gymdeithas a CCAUC wedi cytuno arnynt, gan ystyried heriau a blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

9.13 Rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

9.13.1 Cytunwn gydag argymhelliad yr Athro Hazelkorn fod rôl bwysig ar gyfer corff hyd braich sy'n gyfrifol am sicrhau bod addysg uwch yn cael ei darparu yn

erbyn blaenoriaethau eang Llywodraeth Cymru. Er na fyddai'n briodol i ni gyflwyno sylwadau ar union strwythur y corff hwn tan i Lywodraeth Cymru ymateb i Adolygiad yr Athro Hazelkorn, serch hynny mae'n briodol ein bod ni'n gwneud ambell argymhelliad.

9.13.2 Yn gyntaf, yn ein barn ni, er mwyn iddo allu bwrw rhagddi gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, bydd CCAUC angen rhywfaint o gyllid heb ei neilltuo. Er enghraifft, rydym yn argyhoeddedig, er y bydd ein cynigion yn cael effaith gadarnhaol iawn ar economeg ehangu mynediad, mae yna achos cryf o blaid cyllid, a hynny ar y cyd â darparwr AU neu gonsortia o ddarparwyr AU yn ôl pob tebyg, i hyrwyddo a chymell codi dyheadau ac agweddau cymdeithasol ar ehangu mynediad. Yn yr un modd, gall buddsoddi i sbarduno effeithlonrwydd ledled y sector neu ddarparu cyllid had ar gyfer gweithgarwch arloesol fod yn bwysig iawn; neu eto o ran annog hyblygrwydd a symleiddio taith y dysgwr. Gallai rhai blaenoriaethau o'r fath fod wedi cael eu cefnogi cynt drwy Gronfa Datblygu Strategol CCAUC, sydd bellach yn brin iawn o adnoddau.

9.13.3 Nid oes dwywaith bod angen cronfa fuddsoddi i sbarduno a sefydlu gweithgareddau o'r fath er mwyn sicrhau system addysg uwch lwyddiannus. Yn Nhabl 7 (tudalen 69), rydym yn cynnig y dylai'r gronfa fod werth £50 miliwn y flwyddyn. Rydym yn cydnabod nad oes algorithm sy'n gallu penderfynu'n union beth ddylai'r rhif hwn fod ac yn cydnabod hefyd y gallai rhai cronfeydd o'r fath gefnogi, er enghraifft, cynnydd yn y galw am gyrsiau rhan-amser. Fodd bynnag, credwn fod angen swm tebyg i hyn i wneud gwahaniaeth. Credwn hefyd ei bod hi'n hanfodol bod y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i sbarduno mentrau ac ysgogi newid; ac nad yw'n cael ei ddefnyddio i gynorthwyo elfennau sydd heb eu hariannu'n ddigonol mewn meysydd eraill.

9.13.4 Yn ail, fel y nodwyd gennym uchod, mae gan CCAUC rôl bwysig o ran cydgysylltu cyllid ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth a sicrhau dwy elfen y system cymorth deuol arfaethedig, gan nodi'n arbennig yr ystwythder sydd ei angen mewn unrhyw gyllid prosiect.

9.13.5 Yn drydydd, rydym wedi nodi rôl reoleiddio bwysig ar gyfer CCAUC o ran cyllido Addysg Uwch yn ogystal â phennu ffioedd pynciau drud a dosbarthu'r arian sy'n dod i law felly. Er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o bell ffordd, rydym wedi nodi rôl o ran sicrhau bod addysg ran-amser yn cael ei chyflwyno mewn ffordd sy'n galluogi myfyrwyr i 'ddysgu wrth ennill'; rheoleiddio'n ysgafn gostau a ffioedd ôl-raddedig ar gyfer myfyrwyr Cymru; a chytuno gyda phrifysgolion sut byddant yn cyfrannu at flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, ond drwy sicrhau ymreolaeth y sefydliadau hynny drwy'r adeg.

9.13.6 Yn bedwerydd, er na ofynnwyd i ni roi sylw i gyllid cyfalaf yn yr Adolygiad hwn, rydym yn cydnabod rôl ar gyfer CCAUC o ran dosbarthu cyllid cyfalaf yn effeithiol a hefyd yn nodi pwysigrwydd cyllid cyfalaf ar gyfer sicrhau bod AU Cymru'n parhau i fod yn gystadleuol.

Argymhelliad:

- CCAUC i gael swm o gyllid heb ei neilltuo i sbarduno newid mewn meysydd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau i ddylanwadu ar agweddau cymdeithasol ar ehangu mynediad; arbedion effeithlonrwydd prifysgolion; ymyriadau i symleiddio taith y dysgwr. Mae disgwyl i bob prosiect o'r fath gael ei ariannu ar y cyd â SAU.

9.14 Cysylltiadau rhynglywodraethol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr

9.14.1 Fel y nodwyd, mater hollbwysig sydd wedi dod i'r amlwg yw gallu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr (SLC) i ymateb yn gyflym i'r newidiadau arfaethedig i'r system cyllido addysg uwch a chymorth i fyfirwyr yng Nghymru. Gallai hyn beri problemau difrifol i Lywodraeth Cymru wrth iddi weithredu polisi cyhoeddus sydd wedi'i orfodi'n ddemocrataidd mewn maes allweddol.

9.14.2 Mae'r Panel ar ddeall bod yr SLC wedi cychwyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddar ynghylch sut gellid gwella ei allu cyflawni er mwyn sicrhau bod unrhyw argymhellion yn yr adroddiad hwn sy'n cael sêl bendith Gweinidogion Cymru yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted â phosibl. Mae'r Panel yn croesawu'r ffaith i'r SLC achub y blaen yn hyn o beth ac mae'n gobeithio y gall unrhyw welliannau a wneir i'r system i hwyluso'r gwaith o weithredu'r adroddiad hwn arwain at greu model cyflawni mwy hyblyg a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau Cyllid Myfirwyr Cymru yn y dyfodol.

9.14.3 Mae'n bosibl, er gwaethaf y trafodaethau adeiladol sydd bellach ar waith rhwng yr SLC a Llywodraeth Cymru, y bydd y gwahaniaethau cynyddol rhwng blaenoriaethau polisi pedair llywodraeth y DU yn parhau i roi pwysau ar allu'r SLC. Mae'r Panel felly'n nodi bod geiriau Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad yn ei adroddiad diweddar ar ddatganoli yn arbennig o addas yn y maes polisi a gweithredu hwn:

Instead of a 'devolve and forget' attitude...[the UK Government] should be engaging with the devolved administrations across the whole breadth of government policy: not interfering, but co-operating and collaborating where possible and managing cross-border or UK-wide impacts that may result from differing policy and service delivery choices. The UK Government should work to reach an agreement with the devolved administrations to ensure a constructive approach to this engagement is introduced and maintained for the long-term on all sides⁷³.

Argymhellion:

- Dylai'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion, ar y lefelau uchaf, ystyried cydgysylltu polisi cyllid i fyfirwyr rhwng gweinyddiaethau'r DU yn well, heb leihau effaith penderfyniadau datganoledig. Mae'r Panel yn croesawu parodrwydd yr SLC i fynd ati gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar opsiynau ar gyfer gweithredu argymhellion yr adroddiad hwn yn ddi-oed.
- Yn dibynnu ar ganlyniad y gwaith hwnnw ar y cyd, mae'r Panel yn argymhell y dylid ystyried, os oes angen, cwmpasu system newydd o weinyddu benthyciadau i fyfirwyr yng Nghymru nad yw'n dibynnu ar systemau sy'n ymddangos yn anaddas i'r diben o gyflwyno newidiadau amserol ar gyfer myfirwyr a Gweinidogion.

⁷³ *The Union and Devolution*, Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad (Mai 2016), para. 305: <http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201516/ldselect/ldconst/149/149.pdf>.

9.15 Gwerthuso

Argymhelliad:

Mae'r Panel Adolygu'n cydnabod pwysigrwydd gwerthuso parhaus ac felly mae'n argymhell:

- Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gynnal gwaith ystadegol ac ymchwil i fonitro a gwerthuso'r gwaith o weithredu'r diwygiadau a gynigir er mwyn asesu eu heffaith, deall beth sy'n gweithio a dysgu a defnyddio gwersi am y ffordd orau o weithredu'r argymhellion hyn a rhai'r dyfodol.

9.16 Y pecyn cyflawn

9.16.1 Credwn fod y pecyn uchod yn cynnig sail gynaliadwy ar gyfer system Addysg Uwch sy'n cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru a'i phobl. Mae'r pecyn rydym wedi ei gynnig yn rhoi sylw i agweddau economaidd a chymdeithasol ar ehangu mynediad; mae'n cynnig system gynaliadwy o gyllido cymorth i fyfyrwyr sy'n flaengar, sy'n rhoi hyblygrwydd i fyfyrwyr reoli eu harian ac sy'n cefnogi teuluoedd incwm canolig yn ogystal â theuluoedd incwm is, sy'n galluogi SAU i gael eu cyllido'n briodol i addysgu pynciau cost uwch ac sy'n cynnig cymhellion gwirioneddol ar gyfer astudiaethau rhan-amser ac astudiaethau ôl-raddedig a addysgir.

9.16.2 Ymhellach, mae'n rhoi sylw i'r her sy'n wynebu Cymru o gael sail ymchwil gref ac i'r ymchwil honno gael effaith gadarnhaol ar economi a chymdeithas Cymru, drwy gynnig cynnal mewn termau real y system cymorth deuol o gyllido ymchwil, ffrwd cyllido ymchwil ôl-raddedig sydd â'r nod o ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr, a ffrwd gyllido ar gyfer cyfnewid gwybodaeth sy'n annog ystwythder a hyblygrwydd yn y rhyngweithio rhwng SAU a darpar fuddiolwyr. Yn olaf, wrth nodi gwaith yr Athro Hazelkorn ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo yn y dyfodol, rydym yn awgrymu nifer o rolau pwysig ar gyfer CCAUC, a bydd angen rhywfaint o gyllid ar gyfer rhai ohonynt.

9.16.3 Mae'r set hon o argymhellion parthed cymorth i fyfyrwyr, sydd wedi'u cymhwyso i'r cohort myfyrwyr gwaelodlin, yn rhyddhau £291 miliwn amcanol o'r £945 miliwn a arbedir drwy ddileu'r Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion llawn amser. Mae cost ychwanegol yn y dyfodol hefyd yn ymwneud â dileu benthyciadau sydd heb eu had-dalu (tâl RAB), ac amcangyfrifir bod hyn yn £132 miliwn ar gyfer y cohort gwaelodlin (ar y gyfradd ddisgownt gyfredol o 0.7% a gymhwysir i ad-daliadau, sy'n cael ei phennu gan Drysorfa EM). Law yn llaw â gweddill y cynigion ar gyfer y system gyllido hon a argymhellir, credwn fod y cwmpas costau yn cyfateb yn fras i'r hyn a ddiffiniwyd ar gyfer y pecyn gwaelodlin. Ceir crynodeb o'r costau sy'n gysylltiedig â phob argymhelliad yn Nhabl 7.

Tabl 7: Crynodeb o gost pob argymhelliad

	Gwaelodlin	Argymhelliad
Costau cohort		
Myfyriwr israddedig llawn amser [1]	£1,631m	£1,369m
Myfyriwr israddedig rhan-amser [1]	£72m	£150m
Addysg Alwedigaethol a Thechnegol Uwch [2]	£38m	£69m
Graddau Meistr ôl-raddedig a addysgir [3]	-	£25m
Astudio trawsffiniol [4]	-	-
Cymhellion ar gyfer graddedigion [5]	-	-
Costau blynyddol		
Cymorth wedi'i dargedu [6]	£26m	£26m
Cyllid ymchwil ôl-raddedig [7]	£5m	£8.75m
Ymchwil o Safon a Throsglwyddo Gwybodaeth [8]	£71m	£96m
AU trwy gyfrwng y Gymraeg [9]	£5.8m	£5.8m
Gwasg Prifysgol Cymru [4]	-	-
Cymdeithas Ddysgedig Cymru [9]	-	£1m
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru [10]	-	£50m

Mae costau'n cynnwys cyllid grant a, lle bo'n briodol, amcangyfrif o gost dileu benthyciadau.

[1] Cyfnod astudio cyfan y cohort gwaelodlin. Mae Tabl 6 yn rhoi manylion cymorth i fyfyrwyr.

[2] Amcangyfrif o gost cymorth i fyfyrwyr ar gyfer y cohort o fyfyrwyr perthnasol; mae cost yr argymhelliad yn cynnwys y targed i gynyddu'r nifer sy'n astudio'r cyrsiau hyn 20% (£54 miliwn ar gyfer niferoedd y gwaelodlin), a £4 miliwn i gefnogi'r argymhelliad i ddatblygu capasiti a rhaglenni dros gyfnod o ddwy flynedd.

[3] Un cohort ar sail y nifer cyfredol sy'n gwneud graddau Meistr, yn seiliedig ar gyrsiau blwyddyn yn llawn amser neu ddwy flynedd yn rhan-amser. Mae Tabl 6 yn rhoi manylion cymorth i fyfyrwyr.

[4] Dim cost yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r elfen hon.

[5] Mae cost y cynllun cyfredol o ddileu rhan o fenthyciad wedi'i chynnwys yng nghost darpariaeth israddedigion llawn amser ac mae'n parhau yn y model yn lle'r cymhelliad a argymhellir.

[6] Cost grantiau a lwfansau wedi'u targedu yn 2014-15: Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rieni, Grant Gofal Plant (Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr); heb gynnwys yr amcangyfrif o gost y Grant Cwrs rhan-amser.

[7] Cost flynyddol yr argymhelliad mewn cyfnod sefydlog (blwyddyn tri ymlaen; 450 bwrsari), yn ogystal â'r cyllid gwaelodlin a ddyrennir gan CCAUC.

[8] Cyllid Ymchwil o Ansawdd yn seiliedig ar y swm sy'n cael ei ddyrannu gan CCAUC i brifysgolion yng Nghymru ar gyfer 2015/16; nodir £25 miliwn arall yn yr argymhelliad Trosglwyddo Gwybodaeth.

[9] Cost flynyddol sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad.

[10] Cost flynyddol cyllid CCAUC ychwanegol ar gyfer y mentrau a argymhellir y bydd yn arwain arnynt.

- 9.16.4 Cyn i'n hargymhellion gael eu hamlinellu'n fanwl, nodwyd dibyniaethau allweddol (sef pwysau chwyddiant ar gostau a niferoedd myfyrwyr) y gwaith modelu ariannol a'r cwmpas costau amcangyfrifedig. Esboniwyd y dylai pwysau chwyddiant gael ei rannu rhwng y myfyriwr (drwy'r Benthyciad Ffioedd Dysgu a'r Benthyciad Cynhaliaeth) a'r wladwriaeth (drwy'r Grant Cynhaliaeth a grantiau dysgu ac addysgu CCAUC). Yn dilyn hyn a chan ystyried cynaliadwyedd, amcangyfrifir: byddai cynnydd o ddau y cant mewn chwyddiant ar y trefniadau grant a benthyciadau a argymhellir yn costio £39 miliwn; a byddai cynnydd neu ostyngiad o ddau y cant yn nifer y myfyrwyr yn arwain at gost neu arbediad o £29 miliwn, o dan y trefniadau a argymhellir. Mae'r sensitifeddau hyn yn cyd-fynd yn fras â'r rheini yr adroddwyd arnynt yn gynharach mewn perthynas â threfniadau gwaelodlin, ond yn gweithredu ar gwmpas costau llai.
- 9.16.5 I gloi, mae'r pecyn arfaethedig o argymhellion a amlinellir uchod yn cynnwys elfennau sy'n plethu gyda'i gilydd a dylid ei weld yn ei gyfanrwydd; felly mae'n rhaid ei weithredu yn ei gyfanrwydd.

10. Arfarnu

- 10.1 Rydym wedi ystyried amrywiaeth eang o sefyllfaoedd posibl cyn cyrraedd y pecyn a argymhellir. Mae pob un wedi cael gwiriad porth⁷⁴ i benderfynu a ydynt yn ymarferol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Os nad oeddent, roedd y Panel Adolygu'n eu diystyru yn gynnar yn y broses. Roedd hyn yn cynnwys, er enghraifft, yr opsiwn o gadw pethau fel ag y maent (cynnal y trefniadau cyllido a chyllid myfyrwyr presennol). Ystyriwyd nad oedd hyn yn fforddiadwy nac yn gynaliadwy yn y tymor canolig na'r tymor hir.
- 10.2 Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r graddau mae'r pecyn o argymhellion yn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan y Panel. Roedd hyn yn cynnwys: i ba raddau maent yn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Adolygiad; yn gyson ag egwyddorion arweiniol y Panel Adolygu ac yn eu hyrwyddo; ac yn cyd-fynd â Phrif Nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn eu hyrwyddo. Mae gofynion Asesiadau Effaith Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried hefyd⁷⁵.

⁷⁴ Sefydlwyd Grŵp Gweithredol i gynghori'r Panel Adolygu yn y cyswllt hwn.

⁷⁵ E.e. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Hawliau Dynol a Thlodi; Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant; yr Iaith Gymraeg; ac Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd ac ati.

Atodiad A: Cylch gorchwyl y Panel Adolygu (diweddarwyd Mawrth 2016)

Bydd y Panel Adolygu'n cynnwys Cadeirydd ac aelodau sy'n arbenigwyr profiadol yn eu maes ac sydd â dealltwriaeth drylwyr o faterion yn ymwneud â chyllido addysg uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr.

Rôl:

Gofynnir i'r Panel gynnal Adolygiad cynhwysfawr o'r trefniadau cyllido Addysg Uwch a threfniadau cyllido myfyrwyr. Bydd yn dechrau ar ei waith yn y Gwanwyn 2014, gan baratoi adroddiad ar gyfer y Gweinidog Addysg a Sgiliau erbyn mis Medi 2016. Disgwylir i'r adroddiad hwnnw gynnwys cyngor clir, ac argymhellion y mae'r gost o'u gweithredu wedi ei hamcangyfrif, ar gyfer cyllido'r sector Addysg Uwch a threfniadau cyllid myfyrwyr yng Nghymru yn y dyfodol.

Bydd yn rhaid i argymhellion y Panel fod yn ymarferol, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.

Ffocws:

Bydd yr Adolygiad yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â'r canlynol:

- hyrwyddo symudedd cymdeithasol a sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch;
- hyrwyddo cyfleoedd dysgu ôl-radd yng Nghymru, gan gynnwys ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru'
- cyllido addysg uwch yng ngoleuni'r cyfyngiadau parhaus ar wariant cyhoeddus;
- polisiau ffoed dysgu ar gyfer addysg ran-amser ac addysg lawn amser;
- polisi a threfniadau cyllido Addysg Uwch ar draws ffiniau;
- trefniadau cyllid myfyrwyr (gan gynnwys cymorth cynhaliath ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach, gyda phwyslais ar gynorthwyo dysgwyr o gefndiroedd incwm isel a chymunedau mwyaf difreintiedig Cymru);
- dulliau cyllido (gwariant a reolir yn flynyddol (AME), cyllid sydd bron yn arian parod a chyllid nad yw'n arian parod);
- rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o ran gweithredu trefniadau cyllid myfyrwyr;
- dyled myfyrwyr;
- cynghori, a gwneud argymhellion am y canlynol lle bo'n briodol:
 - y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr a chyllido darpariaeth AU mewn sefydliadau sy'n cynnig rhaglenni mynediad a sylfaen.
 - y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr a chyllido darpariaeth AU mewn sefydliadau sy'n cynnig tystysgrifau cenedlaethol uwch, diplomâu cenedlaethol uwch, graddau sylfaen a graddau lle mae'r dyfarniadau canolradd neu derfynol hyn yn cael eu dosbarthu fel prentisiaethau a/neu'n cynnwys elfen sylweddol o ddarpariaeth/asesu yn y gweithle.
 - y trefniadau achredu, rhyddfrait a dilysu mwyaf effeithiol/priodol rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach.

Y prif ystyriaethau:

Bydd yn rhaid i'r adolygiad ystyried opsiynau a materion cyllido ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hir, gan gynnwys unrhyw botensial ar gyfer gweithredu a hyrwyddo cynlluniau cynilo er mwyn creu model mwy cynaliadwy ar gyfer cyllido Addysg Uwch yn y dyfodol, gan helpu i leihau lefelau dyled myfyrwyr.

Hefyd, bydd angen i'r adolygiad ystyried:

- y ddeddfwriaeth bresennol a'r opsiynau ar gyfer ei diwygio;
- goblygiadau ariannol unrhyw fodolau arfaethedig o safbwynt Llywodraeth Cymru, Trysorlys Ei Mawrhydi, y myfyrwyr, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r sector Addysg Uwch yng Nghymru;
- systemau cyflenwi gweithredol sy'n gysylltiedig â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr, yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd a chyrrff eraill yn y DU;
- dulliau eraill o weithredu polisi sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau eraill y DU neu lywodraethau tramor;
- y goblygiadau trawsffiniol ar gyfer unrhyw newidiadau polisi a gynigir ar gyfer Cymru (gan gynnwys unrhyw broblemau a allai godi o ran cymhwysedd deddfwriaethol);
- y sgiliau y mae eu hangen yng Nghymru;
- darpariaeth ôl-radd a phryderon a/neu ofynion y sector diwydiant;
- i ba raddau y mae'r polisi a threfniadau cyllido presennol yn sicrhau bod mwy o bobl yn cael y cyfle i fanteisio ar addysg uwch, ac unrhyw beth arall y gellid ei wneud i wella'r sefyllfa;
- datblygiadau perthnasol yn y sector addysg bellach, er enghraifft Addysg Uwch mewn gweithgarwch Addysg Bellach.

Dulliau Gweithredu:

Bydd y Panel yn casglu ac yn gwerthuso'r data a'r ymchwil sydd ar gael, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth arall. Mae'n bosibl y bydd angen i'r Panel gomisiynu ymchwil i lenwi'r bylchau yn y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, a bydd angen iddo weithio'n agos â rhanddeiliaid.

Bydd yn rhaid i'r Panel roi sylw dyledus i flaenoriaethau pellgyrhaeddol Llywodraeth Cymru o ran Addysg Uwch yng Nghymru, fel y'u nodir yn y Datganiad Polisi ar Addysg Uwch a wnaed gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2013 (<http://gov.wales/topics/educationandskills/highereducation/policy-statement/?lang=cy>).

Llywodraethu a ffyrdd o weithio:

Disgwylir i aelodau'r Panel gadw at y saith egwyddor ar gyfer bywyd cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd a dangos arweinyddiaeth).

- Rhaid i unrhyw gasgliadau ac argymhellion fod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ddiduedd, ac wedi eu hystyried yn drylwyr ac yn fanwl.
- Cedwir cofnodion o gyfarfodydd a gweithgareddau'r Panel Adolygu. Fodd bynnag, cynhelir trafodaethau o dan brotocol cyfrinachedd er mwyn hwyluso dadlau diffuant ac agored.

Atodiad B: Aelodaeth y Panel Adolygu (diweddarwyd Mawrth 2016)

Y Prif Banel Adolygu:

- **Beth Button:** Llywydd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru (Gorffennaf 2014-Mehefin 2016).
- **Dr Gavan Conlon:** Partner yn London Economics.
- **Yr Athro Syr Ian Diamond (Cadeirydd):** Pennaeth ac Is-Ganghellor Prifysgol Aberdeen.
- **Gary Griffiths:** Cyn Bennaeth Rhaglenni Gyrfaoedd Cynnar, Airbus UK, a chynrychiolydd Airbus UK.
- **Rob Humphreys, CBE:** Cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru, ac Is-gadeirydd Prifysgolion Cymru.
- **Gareth Jones OBE:** Cyn bennaeth ysgol ac Aelod Cynulliad Plaid Cymru. Cyn Gadeirydd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Enwebai Plaid Cymru.
- **Glyn Jones OBE:** Prif Weithredwr Grŵp Llandrillo Menai ac aelod o Fwrdd Colegau Cymru.
- **Ed Lester:** Cyn Brif Weithredwr y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr.
- **Yr Athro Sheila Riddell:** Cyfarwyddwr y Ganolfan ar gyfer Ymchwil i Gynhwysiant ac Amrywiaeth Addysg, Prifysgol Caeredin.
- **Yr Athro Colin Riordan:** Llywydd ac Is-Ganghellor Prifysgol Caerdydd a Chadeirydd Prifysgolion Cymru.
- **Yr Athro David Warner, CBE:** Cyn Is-Ganghellor Prifysgol Fetropolitan Abertawe. Ar hyn o bryd, mae'n Uwch Gymrawd Ymchwil yng Ngholeg Harris Manchester, Rhydychen. Enwebai'r Blaid Geidwadol yng Nghymru.
- **Yr Athro Michael Woods:** Athro ym maes Daearyddiaeth Ddynol ym Mhrifysgol Aberystwyth a Chyd-Gyfarwyddwr WISERD (Sefydliad Ymchwil, Data a Methodole Gymdeithasol ac Economaidd Cymru). Enwebai Democratiaid Rhyddfrydol Cymru.

Is-banel Addysg Bellach:

- **Gary Griffiths.**
- **Glyn Jones, OBE.**
- **Rob Humphreys, CBE.**
- **Judith Evans,** Cadeirydd Colegau Cymru. Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg y Cymoedd.
- **Barry Liles,** Pennaeth Coleg Sir Gâr. Penodwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2010 fel Hyrwyddwr Sgiliau i Gymru. Aelod o Fwrdd Strategaeth Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De-orllewin Cymru. Aelod o Fwrdd Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

Cyn aelodau'r Panel Adolygu sydd wedi cyfrannu at yr Adolygiad yw:

- **Martin Mansfield:** Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru.
- **Stephanie Lloyd:** Cyn Lywydd, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr Cymru.

Mynychodd Dr David Blaney, Prif Weithredwr ac Aelod o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyfarfodydd y Panel Adolygu fel sylwedydd swyddogol. Roedd yn darparu cyngor a gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith CCAUC.

Mynychodd Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Addysg Uwch, Llywodraeth Cymru, gyfarfodydd y Panel Adolygu yn rhinwedd ei swydd fel Uwch-swyddog Cyfrifol yr Adolygiad. Roedd yn darparu cyngor ar gylch gwaith a chwmpas yr Adolygiad ac yn hysbysu'r Panel Adolygu am bolisi addysg a chyllid myfyrwyr Llywodraeth Cymru.

Atodiad C: Crynodeb o'r argymhellion ariannol

Argymhellir pecyn o gynigion sy'n cynnwys elfennau sy'n plethu i'w gilydd a dylid ei ystyried yn ei gyfanrwydd; mae angen ei weithredu i gyd felly. Yn ganolog i'n cynigion mae ail-lunio'r pecyn cymorth i fyfyrwyr sy'n cydnabod costau cyfannol astudiaeth addysg uwch i fyfyrwyr. Yr argymhelliad cyffredinol, felly, yw bod ffocws cymorth i israddedigion yn symud tuag at drefniadau cymorth cynhaliath gyda benthyciadau wedi'u cynnig ar gyfer ffioedd. Argymhellir bod trefniadau cymorth cynhaliath yn cael eu gwella i'r holl fyfyrwyr sy'n hangu o Gymru, gyda'r lefel uchaf o gymorth grant yn cael ei dargedu i'r rhai sydd â'r angen mwyaf.

Cyffredinol

Cost nwyddau a gwasanaethau i fyfyrwyr:

- Dylai CCAUC gasglu prisiau basged o nwyddau ar gyfer pob prifysgol bob blwyddyn, a'u cyhoeddi.

Darpariaeth i israddedigion llawn amser

Lefel ffioedd dysgu i israddedigion llawn amser:

- Dylai prifysgolion allu codi ffi flynyddol o hyd at £9,000 am eu cwrs, waeth beth fo'r pwnc.

Pynciau cost uwch:

- CCAUC i ddarparu swm atodol gyda thaliadau premiwm yn uniongyrchol i SAU Cymru. Taliad i adlewyrchu cost addysgu fel y mesurir gan TRAC(T)⁷⁶ (neu ryw ddull cymharol).

Cymorth ffioedd dysgu ar gyfer israddedigion llawn amser - benthyciadau:

- Dylid cyflwyno benthyciad myfyriwr ychwanegol yn lle'r Grant Ffioedd Dysgu cyfredol i israddedigion llawn amser, hyd at lefel ffioedd uchaf o £9,000.
- Dylid darparu opsiwn ar gyfer taliad uniongyrchol neu ad-dalu cynnar i'r rhai sy'n dymuno ad-dalu eu benthyciad.
- Byddai ad-daliadau benthyciadau yn parhau ar gyfradd o 9% o gyflog graddedigion uwchben £21,000 (wedi'i rewi nes 2021) a'r gyfradd ddisgownt yn cael ei defnyddio gydag ad-daliadau a bennwyd gan Drysorlys EM (0.7% ar hyn o bryd). Dyma bolisi ad-dalu y DU gyfan.

Cymorth cynhaliath i fyfyrwyr llawn amser – grantiau a benthyciadau:

- Grant Cynhaliath cyffredinol nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000 ar gael i bob myfyriwr sy'n hangu o Gymru.
- Grant ychwanegol sy'n amodol ar brawf modd i dalu costau byw.
- Benthyciadau Cynhaliath i'r rhai nad ydynt yn gymwys am grant.
- Dylai cyfradd uchaf y Grant Cynhaliath a/neu'r cymorth benthyciad, i fyfyriwr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain, fod yn gyfwerth â'r Cyflog Byw Cenedlaethol – yn seiliedig ar 37.5 awr yr wythnos dros gyfnod o 30 wythnos

⁷⁶ Adroddiad HEFCE ar ddadansoddiad pynciau cost uchel TRAC(T)
http://www.hefce.ac.uk/media/hefce/content/data/2012/trachighcost/TRAC_methodology_for_high-costs_subjects.pdf

(£8,100 ar hyn o bryd). Uchafswm grant o 25% arall (£10,125) ar gael i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref yn Llundain a 15% yn llai (£6,885) i fyfyrwyr sy'n byw gartref (yn seiliedig ar wahaniaethau cyfredol mewn cymorth cynhaliaeth).

- Dylai'r tapr prawf modd ar gyfer cymorth Grant Cynhaliaeth fod yn fwy gwastad na'r tapr cyfredol. Awgrymir y dylid cynyddu'r lefel cymhysedd/trothwy incwm aelwyd uchaf ar gyfer yr elfen prawf modd o £50,020 (y lefel cymhwysedd grant uchaf gyfredol i fyfyrwyr sy'n byw i ffwrdd o gartref y tu allan i Lundain) i ychydig o dan gyfradd uchaf y dreth ar gyfer aelwyd dau incwm. (At ddibenion modelu, defnyddio'r symiau sy'n seiliedig ar ddata incwm aelwydydd diweddaraf ONS (Prydain) ar gyfer y nawfed deigradd = aelwydydd £81,000).
- Ni ddylid darparu Benthyciad Cynhaliaeth ychwanegol i'r rhai sy'n derbyn yr uchafswm grant (a/neu fenthyciad disodli pan fo'r Grant Cynhaliaeth yn is).
- Ni ddylid cynnal prawf modd ar gyfer Benthyciad Cynhaliaeth ar fyfyrwyr o aelwydydd incwm uwch sy'n derbyn llai o grant na'r uchafswm. Dylai swm y benthyciad sydd ar gael fod yn gyfwerth â'r uchafswm grant, llai unrhyw grant sy'n amodol ar brawf modd.
- Dylid talu cymorth cynhaliaeth i fyfyrwyr bob mis fel y gallu myfyrwyr gynllunio a chyllidebu eu harian yn fwy effeithiol.

Darpariaeth i israddedigion rhan-amser

Lefelau a chymorth ffioedd dysgu i fyfyrwyr israddedig rhan-amser:

- Bod myfyrwyr rhan-amser yn derbyn ar sail pro-data fersiwn wedi'i haddasu o'r cymorth cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig llawn amser (h.y. Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd o £1,000, gyda grant amodol ar brawf modd ychwanegol hyd at uchafswm yn seiliedig ar £6,000 ar gyfer cwrs llawn amser cyfwerth ond dylai'r uchafswm grant fod ar gael hyd at incwm aelwyd o £25,000).
- Ac fe godir ffioedd wedi'u cymedroli arnynt (ffi pro-rata yn seiliedig ar £6,000 ar gyfer cwrs llawn amser cyfwerth) wedi'u hategu gan grant i'r SAU drwy CCAUC. Mae'r grant yn cael ei bennu drwy gymhwysu'r gwahaniaeth rhwng y tâl RAB llawn amser a rhan-amser i'r benthyciad cyfartalog (ffi a chynhaliaeth) sydd ar gael i fyfyrwyr rhan-amser. Y nod yw sicrhau bod yr un faint o arian yn cael ei fuddosoddi mewn myfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr llawn amser.
- Mae Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael i dalu'r ffi wedi'i chymedroli lawn.
- Dylai'r benthyciad ffioedd dysgu, cymorth cynhaliaeth a'r grant sefydliadol i'r SAU fod ar gael yn achos myfyrwyr rhan-amser sy'n astudio fesul modiwl, yn ogystal â'r rhai sy'n cofrestru am gymhwyster, heb gyfyngu ar y rhai sydd wedi ennill cymwysterau lefel cyfwerth blaenorol ar lefel AU.
- Dylai'r grantiau a'r lwfansau wedi'u targedu sydd ar gael i fyfyrwyr israddedig rhan-amser, sef Grant Gofal Plant, Grant Oedolion Dibynnol, Lwfans Dysgu i Rien i a Lwfans Myfyrwyr Anabl, barhau.

Pynciau cost uchel:

SAU i dderbyn taliadau atodol sy'n adlewyrchu'r gost addysgu - a ddyrennir yn uniongyrchol i SAU gan CCAUC ar sail nifer y myfyrwyr. I fod yn gymwys am y taliad atodol hwn mae'n rhaid i SAU allu dangos i CCAUC eu bod yn darparu addysg ran-amser mewn modd sy'n annog myfyrwyr i allu ennill wrth ddysgu.

Darpariaeth i fyfyrwyr Gradd Meistr ôl-raddedig a addysgir

Cymorth ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir:

- Mae myfyrwyr ôl-raddedig yn derbyn yr un lefel o gymorth cynhaliaeth a ffioedd dysgu â myfyrwyr israddedig (h.y. Benthyciad Ffioedd Dysgu hyd at yr uchafswm cyfredol o £9,000; Grant Cynhaliaeth nad yw'n amodol ar brawf modd; a grant sy'n amodol ar brawf modd neu fenthyciad nad yw'n amodol ar brawf modd).
- Ni ddylai'r Benthyciad Ffioedd Dysgu uchaf sydd ar gael i fyfyrwr o Gymru sy'n astudio y tu allan i Gymru fod yn uwch na'r hyn sy'n ofynnol yng Nghymru.
- Dylid cyflwyno proses ailymgeisio am gymorth i unrhyw fyfyrwr sydd am ddilyn cwrs ôl-raddedig a addysgir (boed yn flwyddyn astudio ychwanegol wedi'i hychwanegu at eu cwrs gradd israddedig neu'n gwrs gradd Meistr annibynnol).

Lefel ffioedd dysgu myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir:

I reoli swm y buddsoddiad cyhoeddus/cyfraniad y llywodraeth yng nghost darpariaeth ôl-raddedig a addysgir, argymhellir bod:

- SAU yng Nghymru'n parhau i bennu eu lefelau ffioedd eu hunain ar gyfer darpariaeth ôl-raddedig a addysgir.
- Ond dylid cytuno ar lefel uchaf y cymorth ffioedd drwy CCAUC ar gyfer myfyrwyr Cymru at ddiebnion cyllido/benthyciadau ffioedd (hyd at yr uchafswm cyfredol o £9,000).
- Byddai gofyn hefyd i CCAUC gael tystiolaeth fanwl o ddata costau hanesyddol hefyd wrth bennu'r gyfradd ffioedd/benthyciadau uchaf.
- Disgwylir i'r Cwrs Meistr fod yn gwrs blwyddyn ond rydym yn nodi Adolygiad Furlong o Hyffordiant Cychwynnol Athrawon ac yn cefnogi rhaglen ddwy flynedd ar gyfer y myfyrwyr hyn.

Pynciau ôl-raddedig a addysgir cost uchel:

- Dylid ategu'r ffi gyda thaliadau premiwm CCAUC yn uniongyrchol i SAU. Taliad i adlewyrchu y gost addysgu y cytunwyd arni.

Astudiaeth drawsffiniol

Yn amodol ar reoleiddio angenrheidiol:

- Dylai cymorth i fyfyrwyr fod yn gludadwy ac ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio mewn manau eraill o'r DU neu mewn aelod-wladwriaethau eraill yn yr UE (yn amodol ar y DU yn aros yn yr UE).
- Llywodraeth Cymru i ystyried y posibilrwydd o gynnal cynllun peilot i weld a yw hi'n bosibl neu'n ddymunol ymestyn y pecyn cymorth i fyfyrwyr y tu allan i'r DU a'r UE – i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n dewis astudio ymhellach o gartref ar gyfer eu rhaglen radd gyfan. (Byddai'r cynllun peilot arfaethedig ar gyfer astudiaethau mewn sefydliadau dielw sydd â hanes llwyddiannus o gynnig darpariaeth o safon).

Cymhellion i raddedigion

- Mae'r Panel Adolygu'n cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gymell myfyrwyr, yn y tymor canolig, i ddod â'u sgiliau neu i gadw eu sgiliau er lles Cymru. Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gellir cyflawni hyn, er mwyn caniatáu dileu rhan o

fenthyciad y rhai sy'n gweithio mewn swyddi yng Nghymru a oedd yn gofyn am ad-daliad benthyciad.

Cymorth wedi'i dargedu

Mae yna dri grŵp o bobl sy'n wynebu mwy o heriau, ac rydym yn cynnig darparu cymorth ychwanegol i'r rheini:

Myfyrwyr â phrofiad o ofal

- Mae Llywodraeth Cymru'n gwneud pob ymdrech i nodi'r rhai sydd â phrofiad o ofal.
- Dylai darparwyr addysg bellach ac uwch ddarparu pecynnau cymorth wedi'u personoli a bod yn barod i drosglwyddo credydau a bod yn hyblyg i ganiatáu dechrau cwrs sawl gwaith.
- Dylai'r rhai â phrofiad o ofal dderbyn uchafswm y Grant Cynhaliath.

Myfyrwyr ag anableddau:

- Llywodraeth Cymru, mewn ymgynghoriad â Thrysorlys EM, i ystyried pa gymorth pellach y gellir ei gynnig.

Myfyrwyr sy'n rhieni:

- Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, i weithio gyda'r prifysgolion ac UCM i ddatblygu strategaethau i helpu myfyrwyr sy'n rhieni i gyfuno eu hastudio â'u cyfrifoldebau teuluol.

Argymhellion ychwanegol

Mae'r argymhellion canlynol yn mynd y tu hwnt i'r pecyn cymorth sylfaenol i fyfyrwyr a addysgir israddedig ac ôl-raddedig, i fynd i'r afael â meysydd o'r system addysg uwch sy'n gofyn am gyllid gan y llywodraeth.

Cyllid Ymchwil Ôl-raddedig

Argymhellir y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen uchelgeisiol i addysgu cenhedlaeth newydd o ymchwilwyr yng Nghymru. Argymhellir hefyd y dylai darpariaeth ymchwil addysg ôl-raddedig gael ei chyllido ar y sail ganlynol:

- Dylai fod yn ddi-dâl i'r myfyriwr unigol;
- Sefydlu 150 o ysgoloriaethau/bwrsariau ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig bob blwyddyn⁷⁷;
- Yr ysgoloriaethau/bwrsariau hyn i fod ar gael am dair blynedd i ddechrau – gydag adolygiad;
- Y gost i gael ei rhannu'n gyfartal rhwng prifysgol y myfyriwr (traean o'r cyfraniad ar ffurf hepgor ffioedd); y sefydliad partner (traean o'r cyfraniad ariannol gan fusnes; sefydliad trydydd sector neu sefydliad rhoddwr); a Llywodraeth Cymru (traean o'r cyfraniad ariannol ar ffurf cymorth ffioedd).

⁷⁷ Awgrymir y dylid gosod y bwrsari ar lefel sy'n ddigonol i dalu'r ffi a chyflog ar gyfraddau'r Cyngor Ymchwil – amcangyfrif bod hynny'n £25,000 y flwyddyn ar gyfer pynciau gwyddoniaeth.

Cyllid Ymchwil Ansawdd a Throsglwyddo Gwybodaeth

Cyllid ymchwil o ansawdd

- Dylid cynnal cyllid ymchwil o ansawdd Cymru mewn termau real ar ei lefel gyfredol o £71 miliwn y flwyddyn dros y pum mlynedd nesaf.
- Dylai sefydliadau addysg uwch Cymru ddangos i CCAUC bob blwyddyn sut maent wedi defnyddio'r cronfeydd hyn yn strategol.

Trosglwyddo gwybodaeth

- Prifysgolion yn sicrhau bod eu myfyrwyr yn cael eu haddysgu fel y gallant lywio'r economi a'r gymdeithas yn y dyfodol – myfyrwyr yn aml yn cael addysg ar entrepreneuriaeth; a bydd byrddau cynghori cyflogwyr yn gyffredin.
- Prifysgolion yn ymrwmo i sicrhau bod eu hymchwil yn cael yr effaith gymdeithasol ac economaidd fwyaf posibl, a lle bo'n briodol yn cyd-gynhyrchu ymchwil gyda darpar fuddiolwyr.
- Llywodraeth Cymru, drwy CCAUC, i ddarparu system cymorth deuol o gyllido cyfnewid gwybodaeth, gydag oddeutu dwy ganolfan yn cael cyllid craidd i alluogi ymgysylltuad ystwyth a hyblyg rhwng SAU a diwydiant; ynghyd â threfn syml a hyblyg ar gyfer cyllido ar sail prosiect ar gyfer prosiectau a fydd yn effeithio ar economi Cymru.
- Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru i gael cyllid craidd gan Lywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bolisi cymdeithasol, bob pum mlynedd, gyda'r disgwyl y bydd mwyafrif ei gyllid yn dod o brosiectau.

AU drwy gyfrwng y Gymraeg

- Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, CCAUC, SAU a rhanddeiliaid eraill fel sefydliadau addysg bellach, ysgolion, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, cyflogwyr a sefydliadau gwirfoddol a chymunedol cenedlaethol er mwyn sicrhau'r effaith uchaf posibl a'r gwerth mwyaf o fuddsoddiad cyhoeddus mewn, a chymorth ar gyfer, addysg uwch cyfrwng Cymraeg
- I gefnogi model cyllido cynaliadwy, dylai buddsoddiad blynyddol gan CCAUC y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i raglen ysgoloriaeth gael ei gadw ar lefel y flwyddyn academaidd 2016/17 (£5.8 miliwn) o leiaf.

Gwasg Prifysgol Cymru

- Mae'r Adolygiad yn cefnogi sefydlu'r Adolygiad o gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi yng Nghymru ac yn ei weld fel modd o ddatblygu cynllun busnes cynaliadwy ar gyfer GPC.

Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW)

- Rydym yn argymhell y dylai'r Gymdeithas gael rhwng £0.75 miliwn ac £1 miliwn, a hynny drwy law CCAUC yn erbyn cyfres o amcanion y mae'r Gymdeithas a CCAUC wedi cytuno arnynt, gan ystyried heriau a blaenoriaethau pwysig Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol.

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

- CCAUC i gael swm o gyllid heb ei neilltuo i sbarduno newid mewn meysydd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru; mae enghreifftiau'n cynnwys prosiectau i effeithio ar agweddau cymdeithasol ar ehangu mynediad; arbedion effeithlonrwydd prifysgolion; ymyriadau i symleiddio taith y dysgwr. Mae disgwyl i bob prosiect o'r fath gael ei ariannu ar y cyd â SAU.

Cysylltiadau rhynglywodraethol a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr

- Dylai'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion, ar y lefelau uchaf, fynd ati ar frys i ystyried cydgysylltu polisi cyllid i fyfirwyr rhwng gweinyddiaethau'r DU yn well, heb leihau effaith penderfyniadau datganoledig.
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cwmpasu system newydd o weinyddu benthyciadau i fyfirwyr ar gyfer Cymru.

Gwerthuso

- Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gynnal gwaith ystadegol ac ymchwil i fonitro a gwerthuso'r gwaith o weithredu'r diwygiadau a gynigir er mwyn asesu eu heffaith, deall beth sy'n gweithio a dysgu a defnyddio gwersi am y ffordd orau o weithredu'r argymhellion hyn a rhai'r dyfodol.

Atodiad D: Gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid

Cyfarfodydd

Cyfarfu'r Panel Adolygu ddeuddeg gwaith yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a Mai 2015. Cyfarfu'r Is-banel AB deirgwaith rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2016. Yn ystod y cyfarfodydd hyn derbyniodd ac ystyriodd aelodau'r Panel friffiau a barn arbenigol, a gwybodaeth a chyngor ar faterion yn ymwneud â'r Adolygiad gan ystod eang o sefydliadau a phartïon â buddiant. Cyfarfu'r Cadeirydd â nifer o bartïon â buddiant hefyd y tu allan i'r cyfarfodydd hyn.

Roedd y rhai a fynychodd gyfarfodydd y Panel Adolygu'n cynnwys:

Y Sefydliad Gwasanaethau Myfyrwyr (Cymdeithas Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr mewn Addysg Uwch) (AMOSSHE) (Ben Lewis, Cadeirydd, AMOSSHE, a Chyfarwyddwr Cymorth a Lles Myfyrwyr, John Bloomfield, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, AMOSSHE UK Benjamin Parsons, Swyddog Ymgysylltu â'r Aelodau a Chyfathrebu).

Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (ChUW) (Syr Emyr Jones Parry GCMG, Canghellor a Chadeirydd y Cyngor, Prifysgol Aberystwyth, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas AC, Canghellor a Chadeirydd y Cyngor, Prifysgol Bangor, Mr Gareth Williams, Cadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr, Prifysgol De Cymru a Dr Lynn Williams, Ysgrifennydd).

Chwarae Teg (Joy Kent, Prif Weithredwr a Christine O'Byrne, Arweinydd Polisi ac Ymchwil).

Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr; Andrew Green, Cadeirydd).

Colegau Cymru (Dr Greg Walker, Prif Weithredwr a Mark Jones, Cadeirydd Colegau Cymru a Phrifathro Coleg Gŵyr Abertawe).

Aelodau panel Adolygiad o Fuddsoddi mewn Addysg i Weithwyr Proffesiynol (Mr Mel Evans OBE, Cadeirydd y Panel Adolygu, Yr Athro Ceri Phillips, Mr Dick Roberts CBE)

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) (David Allen OBE, Celia Hunt, Cyfarwyddwr Datblygu Strategol; a Dr David Blaney, Prif Weithredwr).

Cymdeithas Ddysgedig Cymru (Yr Athro Peter Halligan, Prif Weithredwr, Syr Emyr Jones Parry GCMG, Llywydd a'r Athro Robin Williams CBE).

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, Cymru (Beth Button, Llywydd a Kieron Rees, Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus).

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (Dr Adam Wright, Swyddog Polisi Addysg).

Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) (Anthony McClaren, Prif Weithredwr a Dr Julian Ellis, Pennaeth QAA Cymru).

Ken Richards, unigolyn.

Robin Stenham, unigolyn ac Asesydd Lwfans i Fyfirwyr Anabl.

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr: Derek Ross, Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwasanaethau i Gwsmeriaid, David Wallace, Prif Swyddog Gweithredol, a Maggie Wightman, Pennaeth Cynllunio a Pholisi.

Ymgynghorwyr Arolwg Incwm a Gwariant Myfirwyr: Jim Hillage, Cyfarwyddwr Ymchwil ac Emma Pollard, Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth; Mari Toomse-Smith, Uwch Gyfarwyddwr Ymchwil, Canolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol.

Tata Steel UK (Martin Driscoll, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Martin Duggan, Prif Beiriannydd a Chyfarwyddwr Gweithredol).

Prifysgolion Cymru (yr Athro Richard Davies, Is-Ganghellor, Prifysgol Abertawe ac Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr).

Sefydliad Ymchwil, Data a Methodoleg Gymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD), Prifysgol Caerdydd (yr Athro Gareth Rees a'r Athro Chris Taylor).

Yr Athro Julie Williams, Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru.

Yr Athro Robin Williams CBE, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Cymru, Abertawe.

Undeb y Prifysgolion a'r Colegau (UCU) – Margaret Phelan.
UNSAIN – Simon Dunn.

Prifysgol De Cymru (USW) (Dr Ben Calvert, Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu, a Phrofiad Myfirwyr a John O'Shea, Pennaeth Coleg Merthyr Tydfil).

Cyfarfu'r Cadeirydd â'r unigolion canlynol hefyd, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy drefniadau cynadledda:

Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC

Y cyn Weinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis

Y cyn Ddirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg

Yr Athro John Furlong, Cynghorydd HCA i Lywodraeth Cymru

Yr Athro Ellen Hazelkorn

Ian Dickson, Dirprwy Bennaeth, Coleg Cambria

Yr Athro Fonesig Teresa Rees DBE

Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg

Lucy Hunter Blackburn

Yr Arglwydd Murphy o Dorfaen

Sarah John, Cadeirydd Dros Dro Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTFW)

Cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru:

Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Addysg Uwch
Ystadegydd Addysg Ôl-16, AdAS
Pennaeth Rheoli Perfformiad, Cyllid a Pholisi Ariannu, AdAS
Pennaeth Ymchwil ar gyfer Addysg a Sgiliau
Uwch Swyddog Ystadegol, Is-adran Addysg Uwch
Swyddog Ystadegol Uwch
Prif Economegydd
Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran AB a Phrentisiaethau
Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
Pennaeth Rheoli a Chofnodi Cyllidebau
Pennaeth Polisi Economaidd, Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth
Pennaeth Strategaeth – Cyflogaeth a Sgiliau
Dadansoddwr Gwybodaeth am y Farchnad Lafur
Prif Swyddog Ymchwil – Ôl-16, Sgiliau ac Ymchwil AU
Uwch Reolwr Polisi Prentisiaethau
Pennaeth Addysg a Rheoleiddio Proffesiynol, yr Adran Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol
Pennaeth Polisi Prentisiaethau
Cyfarwyddwr Arloesedd, Adran yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Pennaeth Polisi Arloesedd

Cyfarfodydd â chynrychiolwyr Llywodraeth y DU:

Cyfarwyddwr Addysg Uwch, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
Cyfarwyddwr Darpariaeth Cyllid Myfyrwyr, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau
Pennaeth Gwariant Datganoledig, Trysorlys EM

Grwpiau ffocws

Rhwng Ionawr a Mawrth 2015, cynhaliwyd grwpiau ffocws gyda'r canlynol:

- i. Sefydliadau cyflogwyr: Mynychodd cyfanswm o 21 o gynrychiolwyr cyflogwyr ddau grŵp ffocws, gyda'r naill yn canolbwyntio ar ganfod barn cyflogwyr mawr o'r sector preifat a'r llall yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Ffederasiwn Busnesau Bach.
- ii. Myfyrwyr/cynrychiolwyr myfyrwyr Addysg Uwch: cyfrannodd 25 o gynrychiolwyr (myfyrwyr addysg uwch neu swyddogion UCM sabothol) at dri grŵp ffocws a gynhaliwyd yng nghynhadledd UCM Cymru ac un sefydliad Addysg Bellach.
- iii. Darpar fyfyrwyr addysg uwch: cyfrannodd cyfanswm o 39 o fyfyrwyr chweched dosbarth a myfyrwyr sefydliadau AB at grwpiau ffocws a gynhaliwyd mewn pum sefydliad ac yng nghynhadledd UCM Cymru.
- iv. Cynrychiolwyr cymorth i fyfyrwyr: cymerodd grŵp o 14 o gynrychiolwyr o naw sefydliad addysg uwch ran mewn un grŵp ffocws.
- v. Cynrychiolwyr ehangu mynediad: mynychodd grŵp o 10 cynrychiolwyd o sefydliadau a chyrrff cynrychioliadol amrywiol un grŵp ffocws.

Cais am dystiolaeth

Cynhaliwyd cyfnod cais am dystiolaeth am ddeuddeg wythnos o fis Tachwedd 2014. Derbyniwyd dros 160 o ymatebion ysgrifenedig. Roedd yr ymatebwyr yn cynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru a'u cyrff cynrychioliadol, sefydliadau busnes a chyflogi amrywiol, myfyrwyr ac undebau llafur, sefydliadau trydydd sector, a nifer fawr o unigolion yng Nghymru a'r tu allan i Gymru. Cyflwynwyd adroddiadau ategol a manwl gan sefydliadau amrywiol hefyd, gan gynnwys: Cymdeithas Ddysgedig Cymru (LSW), Prifysgolion Cymru (PC), Higher Education Policy Institute (HEPI), Cadeiryddion Prifysgolion Cymru (CPC) a CCAUC, ymysg eraill. Roedd yr ymatebion yn fanwl, yn addysgiadol ac yn ddiddorol.

Gohebiaeth

Cyflwynwyd 18 eitem o ohebiaeth i'r Adolygiad.